

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

38/2022

DYDDIAD CYHOEDDI:

25/05/2022

Adolygiad o Gynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi

Teitl: Adolygiad o Gynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau
Tirlenwi

Is-deitl: Adroddiad Terfynol

Awdur(on): Sam Taylor, Yvonne Rees, Joe Hudson, Alexandra Cancio, Emiliano Lewis, Rhiannon Lee, Adam Noonan, Katharine Rowland

Adroddiad Ymchwil Llawn: Taylor, S.; Rees, Y.; Hudson, J.; Cancio, A. Lewis, E.; Lee, R.; Noonan, A.; Rowland, K; (2022). *Adolygiad o Gynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR report number 38/2022.

Available at: <https://llyw.cymru/adolygiad-o-gynllun-cymunedau-y-dreth-gwarediadau-tirlenwi>

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o angenrheidrwydd

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Mel Matthews

Tirweddau, Natur a Choedwigaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: grantiauramglychedd@llyw.cymru

Tabl cynnwys

1. Cyflwyniad	7
Cefndir y Prosiect	7
Nodau'r Prosiect a Chwestiynau'r Ymchwil	7
Cwmpas y Prosiect.....	9
Strwythur yr Adroddiad	9
2. Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	11
Treth Gwarediadau Tirlenwi	11
Nodau Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	11
Cyllido a Rheoli Cynllun y Dreth Gwarediadau.....	13
Proses Ymgeisio Cynllun y Dreth Gwarediadau.....	13
3. Methodoleg	15
Adolygu Dogfennaeth y Rhaglen.....	15
Datblygu Theori Newid	15
Ymchwil Eilaidd	16
Ymchwil Uniongyrchol	17
Heriau a Chyfyngiadau'r Ymchwil.....	20
4. Canfyddiadau Allweddol: Adolygiad o'r Broses.....	23
Y Broses Ymgeisio	23
Y Broses Asesu a Dyfarnu	34
Rheoli	39
Prosiectau a Gyllidwyd	42
Cylchoedd Grantiau.....	47
5. Canfyddiadau Allweddol: Adolygiad o'r Effaith.....	49
Cynnydd tuag at Dargedau Dangosyddion Perfformiad Allweddol	49
Cefnogaeth i Flaenoriaethau Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru	57
Cefnogaeth i Flaenoriaethau Lleihau Gwastraff Llywodraeth Cymru.....	58
Cefnogaeth i Flaenoriaethau Eraill Llywodraeth Cymru	60

Ychwanegedd.....	62
6. Canfyddiadau Allweddol: Adolygiad o Werth am Arian	65
Costau a Buddion y Cynllun	65
Costau a Buddion Prosiectau Dethol.....	70
Dadansoddiad Daearyddol.....	71
Dadansoddiad o Randdeiliaid.....	72
Dadansoddiad Ansoddol o Gost a Budd y Cynllun.....	74
Cyfleoedd am Gyllid Ychwanegol.....	76
Buddion Ehangach	77
Cymharu â Chynlluniau Cyfatebol yn y Deyrnas Unedig.....	78
7. Canfyddiadau Allweddol: Cyfeiriad yn y Dyfodol.....	85
Cyllid yn y Dyfodol.....	85
Cynnwys a Dichonoldeb yn y Dyfodol	88
Cysylltiadau â Pholisiau Amgylcheddol ac Argyfwng Hinsawdd yn y Dyfodol	93
Effaith Ffactorau Allanol	95
Cymharu Cynllun y Dreth Gwarediadau â Chynlluniau a Modelau Tebyg	96
Cynaliadwyedd Effeithiau Cynllun y Dreth Gwarediadau	98
8. Casgliadau.....	99
Proses y Cynllun	99
Effaith y Cynllun	100
Gwerth am Arian	100
Cyfeiriad yn y Dyfodol	101
9. Argymhellion	104
Argymhellion ar gyfer y Cynllun yn Gyffredinol.....	104
Argymhellion ar gyfer y Broses.....	105
Atodiad A – Canllawiau Pwnc.....	109
Canllawiau wrth holi Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	109
Canllawiau wrth holi'r Panel Arbenigol	112

Canllawiau wrth holi'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol	114
Canllawiau wrth holi Ymgeiswyr Llwyddiannus	115
Llywodraeth Cymru	118
Ymgeiswyr Aflwyddiannus.....	121
Gweithredwr yng Nghynlluniau Lloegr a Gogledd Iwerddon.....	124
Gweithredwr yng Nghynllun yr Alban	127
Awdurdod Cyllid Cymru / Cyfoeth Naturiol Cymru.....	130
Atodiad B – Theori Newid	132
Atodiad C – Dangosyddion Perfformiad Allweddol	137
Atodiad D – Strategaeth Samplu	141
Atodiad E – Sefydliadau Rhanddeiliaid yr Ymgynghorwyd â nhw/Ymgysylltu â nhw....	151
Atodiad F – Ceisiadau fesul Rownd, Lleoliad a Thema	152
Atodiad G – Dyfarniadau fesul Rownd, Lleoliad a Thema	155
Atodiad H – Gwobrau fesul Rownd, Lleoliad a Thema	158
Atodiad I – Adolygiad o Werth am Arian	161

Rhestr tablau

Tabl 1-1: Cwestiynau'r Ymchwil.....	8
Tabl 3-1: Nifer Targed o Gyfweliadau, a Nifer o Gyflawnwyd, yn ôl Grwpiau Rhanddeiliaid	18
Tabl 3-2: Maint Targed Samplau Grwpiau Rhanddeiliaid a Arolygwyd a Maint y Samplau a Gafwyd	19
Tabl 4-1: Safleoedd Tirlenwi a Gorsafoedd Trosglwyddo Cymwys	25
Tabl 4-2: Ceisiadau yn ôl Sir, Cylchoedd 1 i 5	26
Tabl 4-3: Ceisiadau am Grantiau o Arwyddocâd Cenedlaethol i Gynllun y Dreth Gwarediadau, Cylchoedd 1 i 5	27
Tabl 4-4: Nifer Prosiectau Cynllun y Dreth Gwarediadau a Gymeradwywyd yn ôl Rhanbarth a Thema, Cylchoedd 1 i 5	43
Tabl 4-5: Swm o Gyllid a Ddyfarnwyd yn ôl Rhanbarth a Thema, Cylchoedd 1 i 5	45
Tabl 5-1: Cynnydd tuag at Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Bioamrywiaeth.....	51
Tabl 5-2: Cynnydd tuag at Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Lleihau Gwastraff	53

Tabl 5-3: Cynnydd tuag at Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Gwelliannau Amgylcheddol Ehangach.....	54
Tabl 5-4: Cynnydd tuag at Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Cyffredinol	55
Tabl 6-1: Gwariant a ddyrannwyd i brosiectau.....	66
Tabl 6-2: Cyfanswm Cost Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, Mai 2018 i Fehefin 2021	67
Tabl 6-3: Buddion â Gwerth Ariannol	69
Tabl 6-4: Dosbarthiad Daearyddol o Grantiau a Ddyfarnwyd, Cylchoedd 1 i 5	72
Tabl 6-5: Buddiolwyr Cynllun y Dreth Gwarediadau.....	73
Tabl 6-6: Cymhareb Cost a Budd.....	75
Tabl 6-7: Cymharu Costau Cynlluniau	79
Tabl 6-8: Cymharu Costau Gweinyddu Cynlluniau	80
Tabl 6-9: Dadansoddiad Cyllid fesul Thema ar draws y Cynlluniau	81
Tabl 7-1: Datganiadau Gwirioneddol o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi a Gwariant ar y Cynllun	86
Tabl 7-2 Rhagolwg Treth Gwarediadau Tirlenwi – Diweddariad Mehefin 2021	87

Rhestru ffigurau

Ffigur 2-1: Proses Ymgeisio Cynllun y Dreth Gwarediadau	14
Ffigur 4-1: Ceisiadau i Gynllun y Dreth Gwarediadau yn ôl Rhanbarth, Cylchoedd 1 i 5	24
Ffigur 4-2: Ceisiadau i Gynllun y Dreth Gwarediadau yn ôl Thema, Cylchoedd 1 i 5.....	27
Ffigur 4-3 Canran o geisiadau llwyddiannus am brif grantiau yn ôl rhanbarth a thema.....	46
Ffigur 6-1: Buddion a Wireddwyd o Brosiectau a Gyllidwyd gan yr SLCF.....	83
Ffigur 6-2: Buddion a Chanlyniadau a Wireddwyd o Brosiectau a Gyllidwyd â'r LCF	84

Geirfa

Talfyriad / Gair allweddol	Diffiniad
Ychwanegedd	Y graddau mae rhywbeth yn digwydd o ganlyniad i ymyrraeth na fyddai wedi digwydd yn absenoldeb yr ymyrraeth.
Cyngor Gwirfoddol Sirol (CVC)	Mae'r 19 Cyngor Gwirfoddol Sirol yn gweithredu ledled Cymru i roi cymorth i'r trydydd sector ar lefel sirol.
ENTRUST	Sefydliad sy'n rheoleiddio'r Gronfa Cymunedau Tirlenwi (LCF) yn Lloegr.
Deiliaid Grantiau	Sefydliadau a ymgeisiodd yn llwyddiannus i Gynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi am gyllid yng nghylchoedd 1 i 5 rhwng 2018 2021.
Y Gronfa Cymunedau Tirlenwi (LCF)	Cynllun credydau treth sy'n galluogi gweithredwyr safleoedd tirlenwi yn Lloegr a Gogledd Iwerddon i gyfrannu arian at gyllido prosiectau o fewn 10 milltir i safle tirlenwi cofrestredig.
Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDTCS)	Mae hyn yn cyfeirio at y Cynllun a gyhoeddwyd ar 28 Mawrth 2018 sy'n sail i'r rhaglen grantiau ac sy'n ofynnol gan Ddeddf Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017. ¹ Dyma destun yr adolygiad hwn (fel y nodir yn Adran 92 y Ddeddf), a chyfeirir ato yn yr adroddiad hwn fel 'Cynllun y Dreth Gwarediadau' neu 'y Cynllun'.
Rhaglen Grantiau Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	Rhaglen gyllido grantiau sy'n defnyddio incwm a gynhrychir o Dreth Gwarediadau Tirlenwi Cymru i helpu cymunedau sy'n byw o fewn 5 milltir i orsafoedd trosglwyddo gwastraff neu safleoedd tirlenwi penodol i weithredu dros eu hamgylchedd lleol. Mae Cynllun y Dreth Gwarediadau yn cyllido prosiectau sy'n cefnogi bioamrywiaeth, lleihau gwastraff a gwelliannau amgylcheddol eraill.
Panel Cyngori Arbenigol Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	Panel gwirfoddol a ffurfir o aelodau sydd ag arbenigedd yn themâu creiddiol Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (bioamrywiaeth, lleihau gwastraff a gwelliannau amgylcheddol ehangach), sy'n asesu ceisiadau a dyfarnu cyllid i sefydliadau. Yn yr adroddiad hwn, cyfeirir ato fel 'y panel'.
Gweithredwyr Safleoedd Tirlenwi	Gweithredwyr cofrestredig safleoedd tirlenwi y caniateir iddynt redeg safleoedd tirlenwi yng Nghymru.
Deddfwriaeth	Cyfraith neu set o gyfreithiau sydd wedi cael eu pasio gan Senedd.
Cyfoeth Naturiol Cymru	Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio mewn modd cynaliadwy.
Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR)	Mae'n monitro cyllid sector cyhoeddus y Deyrnas Unedig ac yn darparu rhagolygon economaidd annibynnol.
Polisi	Datganiad o safbwynt y bwriedir iddo arwain penderfyniadau neu weithredoedd er mwyn cyflawni nod.
Ymgeiswyr Posibl	Sefydliadau sy'n gymwys i ymgeisio i Gynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ond a ddewisodd beidio ag ymgeisio am gyllid.

Samplu Bwriadol	Caiff cyfranogwyr ymchwil eu dewis mewn modd bwriadol yn hytrach nag ar hap er mwyn cynrychioli trawstoriad o'r boblogaeth.
Asiantaeth Gwarchod Amgylchedd yr Alban (SEPA)	Prif reoleiddiwr amgylcheddol yr Alban, sy'n gwarchod a gwella amgylchedd yr Alban. Mae'r rheoleiddio Cronfa Cymunedau Tirlenwi yr Alban (SLCF).
Cronfa Cymunedau Tirlenwi yr Alban (SLCF)	Cynllun credydau treth yn yr Alban, sy'n gysylltiedig â Threth Tirlenwi yr Alban, ac sy'n annog gweithredwyr safleoedd tirlenwi i ddarparu cyfraniadau a chyllido prosiectau cymunedol ac amgylcheddol.
Cynefin â Blaenoriaeth Adran 7	Cynefinoedd a restrir o dan Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Mae'r cynefinoedd hyn o bwysigrwydd allweddol i gynnal a gwella bioamrywiaeth Cymru.
Strategaeth	Cynllun a grewyd i gyflawni set o nodau neu amcanion
Ymgeiswyr Aflwyddiannus	Sefydliadau a ymgeisiodd am gyllid Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi rhwng 2018 a 2021 ond na ddyfarnwyd cyllid iddynt.
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	Corff aelodaeth cenedlaethol sy'n cynnig cymorth i'r trydydd sector ledled Cymru ac sy'n goruchwyllo gwaith y Cyngorau Gwirfoddol Sirol.
Cyswllt Amgylchedd Cymru	Rhwydwaith o gyrff anllywodraethol (NGOs) amgylcheddol, cefn gwlad a threftadaeth. Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn gweithredu fel cyswllt swyddogol rhwng gyrff anllywodraethol amgylcheddol a Llywodraeth Cymru.
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	Cymdeithas sy'n cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac sy'n hyrwyddo democratiaeth leol yng Nghymru. Mae'n cynrychioli pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r 4 awdurdod heddlu, 3 awdurdod tân ac achub a'r 3 awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru hefyd yn aelodau cyswllt.
Awdurdod Cyllid Cymru (WRA)	Mae'n casglu a rheoli'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru.

1. Cyflwyniad

Cefndir y Prosiect

- 1.1 Cafodd Eunomia Research and Consulting ('Eunomia') eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i gasglu, trefnu a dadansoddi amrywiaeth o ddata er mwyn gosod sail ar gyfer adolygu proses, effaith a gwerth am arian Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDTCS) (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel 'Cynllun y Dreth Gwarediadau' neu 'y Cynllun') a gyhoeddwyd ar 28 Mawrth 2018.
- 1.2 Bydd canfyddiadau gwaith y manylir arno yn yr adroddiad hwn yn gosod sail ar gyfer adolygu Cynllun y Dreth Gwarediadau fel mae'n ofynnol o dan Adran 92(4) o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 sy'n datgan 'rhaid i'r Cynllun gael ei adolygu o leiaf unwaith yn y cyfnod o 4 blynedd yn cychwyn ar y diwrnod y cafodd ei gyhoeddi gyntaf'.¹
- 1.3 Mae Cynllun y Dreth Gwarediadau yn dal i weithredu ac yn ddiweddar fe wnaeth y rhaglen gyllido grantiau gau ceisiadau ar gyfer ei chweched cylch cyllido ym mis Hydref 2021. Gellir ystyried y gwaith hwn felly fel adolygiad canol tymor neu ffurfiannol. Bydd y gwaith a gyflawnir gan Eunomia yn cael ei ddefnyddio fel ystyriaeth gan Weinidogion Cymru wrth iddynt benderfynu parhau, diwygio neu ddirymu Cynllun y Dreth Gwarediadau yn dilyn ei adolygiad.

Nodau'r Prosiect a Chwestiynau'r Ymchwil

- 1.4 Nod y darn hwn o waith yw deall gwaith ac effaith Cynllun y Dreth Gwarediadau wrth gyflawni'r nodau a fwriadwyd ar ei gyfer a chefnogi polisiau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Bydd y gwaith a wnaed o dan y contract hwn yn rhoi tystiolaeth i Lywodraeth Cymru a fydd yn gosod sail ar gyfer penderfyniadau ynghylch y Cynllun yn y dyfodol, gan gynnwys y defnydd posibl a wneir o gyllid yn y dyfodol
- 1.5 Felly, gellir categorio'r amcanion penodol y bydd yr adolygiad hwn yn cyfrannu atynt i'r meysydd a ganlyn:
 - Adolygiad o gynnwys Cynllun y Dreth Gwarediadau a gyhoeddwyd yn wreiddiol;
 - Adolygiad o amrywiaeth o dystiolaeth sy'n ymwneud â gweinyddu'r Cynllun gan gynnwys y rhaglen grantiau sy'n deillio ohono;

¹ Llywodraeth Cymru (2017). [Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi \(Cymru\) 2017](#)

- Y graddau y bydd cyllid a gynhrychir trwy'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar gael yn y dyfodol, a'r ystyriaethau posibl ar sail datganiadau gwirioneddol ac amcanestyniadau refeniw yn y dyfodol gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR);
- Cysylltiadau yn y dyfodol â helpu gweithredu polisiâu Llywodraeth Cymru ac amrywiaeth o strategaethau a pholisiâu cenedlaethol a blaenoriaethau lleol; a
- Rhoi sylwadau ar y potensial am ddarpariaeth yn y dyfodol, gan gynnwys (lle bo'n berthnasol) ddewisiadau ar gyfer y defnydd o gyllid a fydd ar gael yn y dyfodol, dewisiadau ar gyfer cynnwys yn y dyfodol, dichonoldeb cynllun a rhaglen grantiau yn y dyfodol gan gynnwys potensial o drefniadau a blaenoriaethau ehangach.

1.6 Caiff y cwestiynau ymchwil cyffredinol ar gyfer yr adolygiad hwn eu cyflwyno yn Nhabl 1-1. Caiff y cwestiynau ymchwil hyn (a'u cwestiynau ymchwil atodol cyfatebol) eu defnyddio i gyflwyno canfyddiadau'r adroddiad hwn (Adrannau 4 i 7).

Tabl 1-1: Cwestiynau'r Ymchwil

Maes adolygu	Cwestiwn Ymchwil
Proses	P1. Sut mae'r broses ymgeisio ar gyfer Cynllun y Dreth Gwarediadau wedi gweithio?
	P2 Sut mae'r broses ddyfarnu ar gyfer y Cynllun wedi gweithio?
	P3 Sut mae trefniadau rheoli parhaus y Cynllun wedi gweithio?
	P4 Beth yw'r mathau o brosiectau y cynigiwyd cyllid iddynt?
	P5 A yw amllder y cylchoedd grantiau wedi cefnogi neu rwystro'r Cynllun wrth gyflawni ei amcanion, yn benodol yn y broses ymgeisio?
Effaith	I1 Beth fu canlyniadau ac effeithiau Cynllun y Dreth Gwarediadau ar yr ardaloedd roedd gweithrediadau tirlenwi yn effeithio arnynt?
	I2 Sut mae'r grant wedi cefnogi nodau Llywodraeth Cymru o ran Bioamrywiaeth yn y prosiectau mae wedi eu cyllido?
	I3 Sut mae'r grant wedi cefnogi nodau Llywodraeth Cymru o ran lleihau gwastraff?
	I4 Sut mae'r grant wedi cefnogi blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru?
	<i>Ychwanegedd.</i> I ba raddau mae Cynllun y Dreth Gwarediadau wedi peri i brosiectau, a'u heffeithiau a chanlyniadau dilynol, ddigwydd, na fyddai fel arall wedi digwydd?

Maes adolygu	Cwestiwn Ymchwil
Gwerth am Arian	V1 Beth oedd gwerth am arian Cynllun y Dreth Gwarediadau?
Cyfeiriad yn y Dyfodol	F1 I ba raddau y bydd cyllid a gynhyrchir trwy'r dreth ar gael yn y dyfodol, a pha ystyriaethau a ddaeth i'r amlwg ar sail datganiadau gwirioneddol ac amcanestyniadau refeniw yn y dyfodol ar gyfer y dreth a ddarparwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol?
	F2 Beth yw'r dewisiadau ar gyfer cynnwys Cynllun y Dreth Gwarediadau yn y dyfodol a dichonoldeb rhaglen grantiau yn y dyfodol?
	F3 Pa argymhellion y gellir eu gwneud ar gyfer cysylltiadau â blaenoriaethau a strategaethau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ym maes yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd?
	F4 Sut mae ffactorau allanol wedi effeithio ar Gynllun y Dreth Gwarediadau?
	F5 Sut mae Cynllun y Dreth Gwarediadau yn cymharu â modelau posibl eraill a luniwyd i gyflawni canlyniadau ac effeithiau tebyg?
	F6 Sut mae'r Cynllun yn cymharu â chynlluniau eraill y Deyrnas Unedig – Cronfa Cymunedau Tirlenwi Lloegr, a Chronfa Cymunedau Tirlenwi yr Alban?
	F7 Pa mor gynaliadwy yw'r effeithiau sydd wedi deillio o'r prosiectau?

Cwmpas y Prosiect

- 1.7 Roedd yr adolygiad hwn yn cwmpasu cylchoedd cyllido 1 i 5 o Gynllun y Dreth Gwarediadau (rhwng 2018 a 2021). Ni chynhwyswyd cylch 6 y Cynllun (a oedd yn digwydd ar adeg yr adolygiad) na chylchoedd cyllido yn y dyfodol, ac eithrio yn yr arolwg a anfonwyd at ddeiliaid grantiau lle gwahoddwyd pawb o gylchoedd 1 i 6 i gymryd rhan.

Strwythur yr Adroddiad

- 1.8 Mae'r adroddiad wedi ei strwythuro fel a ganlyn:
- Mae Adran 2 yn rhoi trosolwg o Gynllun y Dreth Gwarediadau.
 - Mae Adran 3 yn cyflwyno trosolwg o'r fethodoleg.
 - Mae Adrannau 4 i 7 yn amlinellu'r canfyddiadau ac fe'u cyflwynir yn ôl cwestiynau'r ymchwil.

- Mae Adrannau 8 a 9 yn cyflwyno'r casgliadau a'r argymhellion ar gyfer Cynllun y Dreth Gwarediadau.
- Mae'r atodiadau a gyflwynir ar ddiwedd yr adroddiad yn cynnwys canllawiau pwnc cyfweiliadau, y Theori Newid, dangosyddion perfformiad allweddol (KPI) y Cynllun, strategaeth samplu, rhanddeiliaid a gymerodd ran, gwerth am arian, a dyfarniadau, cyllid a cheisiadau yn ôl cylch, lleoliad a thema.

2. Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi

Treth Gwarediadau Tirlenwi

- 2.1 Yn 1996, cyflwynwyd y Dreth Tirlenwi ledled Prydain fel cosb ariannol i leihau gwaredu gwastraff trwy dirlenwi ac annog arferion mwy cynaliadwy o reoli gwastraff. Ochr yn ochr â'r Dreth Tirlenwi, cyflwynwyd hefyd y Gronfa Cymunedau Tirlenwi (LCF) – cynllun credydau treth gwirfoddol ac iddo'r nod o leihau effeithiau negyddol lleol gweithgarwch tirlenwi er budd y gymuned a'r amgylchedd.
- 2.2 Yn dilyn datganoli'r Dreth Tirlenwi yn 2018, fe wnaeth Llywodraeth Cymru weithredu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi trwy Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017. Law yn llaw â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ac i gydnabod yr effaith negyddol posibl ar gymunedau trwy waredu gwastraff trwy dirlenwi, fe wnaeth Llywodraeth Cymru sefydlu hefyd Gynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Fel y Gronfa Cymunedau Tirlenwi, nod Cynllun y Dreth Gwarediadau hefyd yw cyflawni buddion amgylcheddol a chymunedol er bod y themâu a gefnogir (gweler paragraff 2.4) wedi eu cywasgu. Yn wahanol i'r Gronfa Cymunedau Tirlenwi, ni chaiff Cynllun y Dreth Gwarediadau ei gyllido trwy gynllun credydau treth gwirfoddol i weithredwyr safleoedd tirlenwi, ond trwy gynllun statudol sy'n seiliedig ar ddyrannu refeniw a godir trwy'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi i'r Cynllun.

Nodau Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi

- 2.3 Mae Cynllun y Dreth Gwarediadau yn cynrychioli cynllun cyhoeddedig sy'n manylu ar y paramedrau, y pwyslais, a'r trefniadau gweithredol ar gyfer rhaglen grantiau, ac mae'n darparu cyllid ar gyfer prosiectau amgylcheddol a chymunedol a leolir o fewn radiws o 5 milltir i safle tirlenwi neu orsaf trosglwyddo gwastraff gymwys, sy'n anfon isafswm o 2,000 tunnell o wastraff i'w dirlenwi bob blwyddyn.^{2,3} Mae'r Cynllun yn seiliedig ar set o egwyddorion cyffredinol sy'n cynnwys gwella ansawdd lle, darparu buddion cymunedol ehangach, a sicrhau bod hynny ag sy'n bosibl o arian yn cyrraedd mentrau.

² Manylir ar safleoedd cymwys yn flynyddol gan Gyfoeth Naturiol Cymru, ar sail datganiadau gan weithredwyr safleoedd.

³ Mae meini prawf cymhwysedd Cynllun y Dreth Gwarediadau yn nodi hefyd y gall prosiectau bioamrywiaeth o ansawdd uchel sy'n ymestyn i tu hwnt i'r ffin 5-milltir fod yn gymwys am gyllid. Mae hyn yn cyfrif am y ffaith nad yw cynefinoedd (megis afonydd) yn cydnabod ffiniau. Yn ogystal, gall prosiectau eraill sy'n ymestyn y tu hwnt i'r radiws 5-milltir fod yn gymwys os yw buddion yn cronni o fewn y radiws hwn.

2.4 Rhaid i brosiectau y dyfernir cyllid grant iddynt o dan Gynllun y Dreth Gwarediadau hyrwyddo a chefnogi 1 neu fwy o'r themâu canlynol:

- Bioamrywiaeth trwy greu rhwydweithiau ecolegol cadarn;
- Dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi, gan hyrwyddo ymwybyddiaeth a'r arferion gorau i leihau'r swm o wastraff a gynhyrchir; a
- Gwelliannau amgylcheddol ehangach, sy'n dod â budd cymunedol ehangach trwy wella ansawdd lle.

2.5 Mae gwaith Cynllun y Dreth Gwarediadau wedi ei gynllunio i gefnogi amrywiaeth o strategaethau, polisiau a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, megis:

- Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**⁴ yn ymrwymiad cyfreithiol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru gyfrif am anghenion cenedlaethau'r dyfodol yn ogystal â'r presennol trwy ystyried 7 nod llesiant (sy'n cynnwys agweddau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol).
- Nod **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**⁵ yw mabwysiadu dull integredig o reoli adnoddau naturiol Cymru i gyflawni cynaliadwyedd hirdymor. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd i wella a chynnal bioamrywiaeth a gwella prosesau rheoli gwastraff.
- Strategaeth yw **Symud Cymru Ymlaen 2016-2021**⁶ ac iddi'r nod o greu mwy o swyddi a'r rheini'n rhai gwell trwy economi gryfach a thecach, gwella a diwygio gwasanaethau cyhoeddus Cymru, ac adeiladu Cymru unedig, gysylltiedig a chynaliadwy. Mae'r strategaeth yn pennu 4 prif flaenoriaeth, gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â chyflawni buddion amgylcheddol a hyrwyddo asedau cymunedol.
- Nod y **Polisi Adnoddau Naturiol**⁷ yw rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru mewn modd cynaliadwy trwy gyflawni atebion seiliedig ar natur, cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau, a chefnogi pobl a lleoedd trwy gydweithio ar lefel leol.

4 Llywodraeth Cymru (2015). [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#)

5 Llywodraeth Cymru (2016). [Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#)

6 Llywodraeth Cymru (2016). [Symud Cymru Ymlaen 2016-2021](#)

7 Llywodraeth Cymru (2018). [Polisi Adnoddau Naturiol](#)

- Nod **Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru (2020)**⁸ yw gwrthdroi'r ffordd y collir bioamrywiaeth yng Nghymru trwy gynnal a gwella rhwydweithiau amgylcheddol; cynyddu gwybodaeth a throsglwyddo gwybodaeth; sicrhau buddsoddiad a cyllid newydd; uwchsgilio a chynyddu'r gallu i gyflawni; a symleiddio, llywodraethu ac adrodd ar gynnydd.
- Strategaeth yw **Tuag at Ddyfodol Diwastraff**⁹ sy'n gosod fframwaith hirdymor ar gyfer effeithlonrwydd adnoddau a rheoli gwastraff hyd at 2050. Mae'r targedau'n cynnwys dim gwastraff i dirlenwi erbyn 2050 a dyfodol diwastraff erbyn 2050.

Cyllido a Rheoli Cynllun y Dreth Gwarediadau

- 2.6 Caiff cyllideb o £1.5 miliwn ei ddyrannu i raglen grantiau Cynllun y Dreth Gwarediadau yn flynyddol. Caiff y cyllid ei dosbarthu gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, a gaffaelwyd i reoli'r Cynllun rhwng 2018 a 2022.
- 2.7 Mae Cynllun y Dreth Gwarediadau'n cynnig prif grantiau (rhwng £5,000-£49,999) mewn cylchoedd cyllido ddwywaith y flwyddyn, tra gellir dyfarnu 1 prosiect o arwyddocâd cenedlaethol (£50,000-£250,000) unwaith y flwyddyn. Dros ei 5 cylch cyllido cyntaf, mae'r Cynllun wedi cyllido cyfanswm o 110 o brosiectau a 2 ddyfarniad grant o arwyddocâd cenedlaethol.

Proses Ymgeisio Cynllun y Dreth Gwarediadau

- 2.8 Roedd cylchoedd cynharach y Cynllun yn defnyddio porth caffael eDendro Cymru, yr arferai ymgeiswyr i'r Cynllun ei ddefnyddio i ymgeisio am y ddau fath o grantiau. Mae hyn wedi cael ei newid i ddefnyddio'r Porth Ceisiadau Amlbwrpas (MAP) a ddatblygwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Wrth hyrwyddo a chefnogi ceisiadau i'r Cynllun, law yn llaw â chyflawni asesiad cychwynnol o geisiadau, cynorthwyir Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru gan y Cyngorau Gwirfoddol Sirol ledled Cymru.
- 2.9 Yn dilyn yr adolygiad cychwynnol o geisiadau gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r Cyngor Gwirfoddol Sirol, caiff ceisiadau a argymhellwyd eu hasesu a'u


⁸ Llywodraeth Cymru (2020). [Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru](#)

⁹ Llywodraeth Cymru (2010). [Tuag at Ddyfodol Diwastraff](#)

dyfarnu gan Banel Cyngori Arbenigol dynodedig – wedi'i ffurfio o wirfoddolwyr sydd ag arbenigedd perthnasol o 3 thema graidd y Cynllun.

2.10 Mae deiliaid grantiau yn derbyn cyllid a chymorth dros gwrs y prosiect gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru trwy swyddog cymorth grantiau dynodedig. Dangosir proses ymgeisio'r Cynllun yn Ffigur 2-1.

Ffigur 2-1: Proses Ymgeisio Cynllun y Dreth Gwarediadau



Ffynhonnell: Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (2021). [Canllawiau Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi i Ymgeiswyr](#) (Cyrchwyd 13 Ionawr 2022).

3. Methodoleg

3.1 Datblygwyd y fethodoleg ar gyfer yr adolygiad hwn gyda Llywodraeth Cymru ac mae hi'n canolbwyntio ar werthuso proses, effaith a gwerth am arian Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a'i gyfeiriad yn y dyfodol. Roedd yr adolygiad yn cynnwys y camau canlynol:

- adolygiad o ddogfennaeth y rhaglen a dogfennaeth polisi
- datblygu Theori Newid
- adolygu ymchwil eilaidd
- ymchwil uniongyrchol gyda rhanddeiliaid.

Adolygu Dogfennaeth y Rhaglen

3.2 Cafodd dogfennaeth y rhaglen gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, gan gynnwys adolygiadau blynyddol y Cynllun a chrynodebau dyfarnu grantiau, ei hadolygu er mwyn rhoi cyd-destun i dasgau'r adolygiad. Roedd hyn yn cynnwys rhai o bolisiâu a deddfwriaeth fwyaf perthnasol Llywodraeth Cymru megis y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Cafodd yr adolygiad manwl o bolisiâu a deddfwriaeth pellach ei gyflawni yn ystod y cyfnod Ymchwil Eilaidd.

Datblygu Theori Newid

3.3 Rhoddodd yr adolygiad o ddogfennaeth y rhaglen sail ar gyfer datblygu'r Theori Newid (Atodiad B) a oedd yn dangos y cysylltiadau rhwng mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau, canlyniadau ac effeithiau Cynllun y Dreth Gwarediadau. Cafodd y rhesymeg y tu ôl i'r cysylltiadau, yn ogystal ag unrhyw ffactorau y tu allan i'r Cynllun a allai ddylanwadu ar ei effaith, ei harchwilio a'i hadolygu trwy weithdy rhithwir gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

3.4 Roedd datblygu'r Theori Newid yn sicrhau bod tybiaethau y tu ôl i Gynllun y Dreth Gwarediadau yn cael eu hadolygu a'u deall. Fe wnaeth y Theori Newid osod sail ar gyfer datblygu cwestiynau'r ymchwil a fframwaith yr adolygiad (Tabl 1-1 ac Atodiad B).

Ymchwil Eilaidd

Adolygiad o Wybodaeth Monitro a Rheoli

- 3.5 Cafodd adroddiadau monitro deiliaid grantiau eu hadolygu gan y tîm adolygu. Mae'r adroddiadau hyn (a gyflwynir bob 6 mis gan ddeiliaid grantiau) yn rhoi manylion ar gynnydd prosiectau, eu cysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, heriau a gwersi a ddysgwyd, ac effaith yn ôl dangosyddion perfformiad allweddol meintiol ac ymatebion ansoddol. Roedd crynodeb o gostau a chynnydd prosiectau o gymharu â 55 o ddangosyddion perfformiad allweddol (gyda dim ond y rheini sy'n berthnasol i'r prosiect yn cael eu cyfrif) hefyd ar gael i'w hadolygu, fel roedd ffurflenni gofyn am newidiadau, a ddefnyddid i ofyn am newidiadau i gyllideb, targed neu agwedd arall o brosiect. Roedd y ffurflenni gofyn am newidiadau hyn yn galluogi Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i oruchwylio a chymeradwyo newid mewn prosiectau. Yn ogystal, cafodd dogfennau adolygu'r panel arbenigol, adroddiadau blynyddol a gwybodaeth am ddyfarniadau eu hasesu i gefnogi dadansoddi pellach ar gyfer yr adolygiad o'r broses.
- 3.6 Cafodd crynodeb o ddangosyddion perfformiad allweddol (Atodiad C), a baratowyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pob prosiect a gwblhawyd, ei ddadansoddi er mwyn deall canlyniadau ac effeithiau prosiectau.
- 3.7 Yn ogystal â hyn, cafodd data ar gyfanswm tunelli o wastraff i safleoedd tirlenwi, nifer o safleoedd tirlenwi, nifer o orsafoedd trosglwyddo gwastraff, a data treth y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ei adolygu i osod sail ar gyfer yr agwedd o'r adolygiad sy'n ymwneud â chyfeiriad y Cynllun yn y dyfodol.

Adolygiad Polisi

- 3.8 Cyflawnwyd adolygiad desg o bolisiau a rhaglenni perthnasol Llywodraeth Cymru sy'n cwmpas themâu Cynllun y Dreth Gwarediadau. Roedd hyn yn rhoi dealltwriaeth o sut y bwriedir i'r Cynllun gyfrannu at bolisiau ehangach Llywodraeth Cymru, fel yr amlinellwyd yn Adran 2.

Ymchwil Ychwanegol

- 3.9 Wrth asesu cynlluniau tebyg a weinyddir yn Lloegr a'r Alban, adolygwyd dogfennau ar gyllidebau, prosesau ac adroddiadau gwerth-am-arian sydd ar gael. Yn ogystal â hyn, adolygwyd data ar gyfanswm tunelli o wastraff i safleoedd tirlenwi, nifer o

safleoedd tirlenwi, nifer o orsafoedd trosglwyddo gwastraff, a data treth y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i osod sail wrth ddatblygu dewisiadau posibl ar gyfer Cynllun Treth Gwarediadau yn y dyfodol.

Ymchwil Uniongyrchol

- 3.10 Roedd yr ymchwil uniongyrchol ar gyfer y darn hwn o waith yn cynnwys cyfuniad o gyfweiliadau ac arolygon. Datblygwyd strategaeth samplu er mwyn adnabod y rhanddeiliaid pwysicaf i gysylltu â hwy fel rhan o'r adolygiad hwn, sut i samplu o bob grŵp, a'r ffordd orau o gysylltu â phob grŵp (gweler Atodiad D).

Cyfweiliadau

- 3.11 Roedd y rhanddeiliaid a gyfweilwyd, ar ôl cael eu dewis trwy samplu bwriadol, yn cynrychioli ymgeiswyr i Gynllun y Dreth Gwarediadau, gweinyddwyr, a chyrrff llywodraethol (mae rhestr o sefydliadau y trafodwyd â hwy i'w gweld yn Atodiad E). Roedd rhanddeiliaid yn cael eu gwahodd i gyfweiliad trwy e-bost. Dilynwyd gwahoddiadau cychwynnol cyfranogwyr y cyfweiliadau gan negeseuon e-bost pellach o leiaf ddwywaith (a sawl gwaith i'r rheini a oedd heb ateb) ynghylch pryd y gallent fod ar gael, gydag ymdrech yn cael ei gwneud i drefnu adegau addas pryd y byddai cyfranogwyr cyfweiliadau ar gael.
- 3.12 Bu 22 o randdeiliaid sydd â gwybodaeth a dealltwriaeth o Gynllun y Dreth Gwarediadau yn cymryd rhan mewn cyfweiliadau ansoddol lled-strwythuredig, a gynhaliwyd yn rhithiol. Ar sail y cwestiynau ymchwil, dyfeisiwyd cwestiynau perthnasol i bob grŵp o randdeiliaid a gynrychioliwyd. Mae canllawiau pwnc y cwestiynau i bob grŵp rhanddeiliaid ar gael yn Atodiad A. Cafodd canfyddiadau o'r cyfweiliadau eu anonymeiddio, eu dadansoddi'n thematig yn ôl cwestiynau ymchwil a chwestiynau ymchwil atodol, a'u hymgorffori i'r adolygiad hwn.
- 3.13 Dylid nodi nad yw barn y gwahanol grwpiau o randdeiliaid yn gynrychioliadol o farn y sefydliadau maent yn eu cynrychioli.

Tabl 3-1: Nifer Targed o Gyfweiliadau, a Nifer o Gyflawnwyd, yn ôl Grwpiau Rhanddeiliaid

Grŵp Rhanddeiliaid a Gyfwelwyd	Nifer Targed o Gyfranogwyr	Nifer o Gyfranogwyr a Gyfwelwyd
Deiliaid Grantiau	4	3
Ymgeiswyr Aflwyddiannus	4	2 ¹⁰
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	1	0 ¹¹
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	3	2
Panel Cynghori Arbenigol Cynllun y Dreth Gwarediadau	5	4
Llywodraeth Cymru	3	5
Awdurdod Cyllid Cymru	1	2
Y Swyddfa Cydraddoldeb Cyllidebol	1	2
Gweithredwr gyda Chynlluniau Lloegr a Gogledd Iwerddon	1	1
Gweithredwr gyda Chynllun yr Alban	1	1
Cyfanswm	24	22

Arolygon

Er mwyn cynyddu dilysrwydd a dibynadwyedd data a gasglwyd yn y cyfweiliadau, datblygwyd 5 arolwg yn ôl cwestiynau ymchwil yr adolygiad. Defnyddiwyd y rhain i gasglu gwybodaeth gyffredinol y gellid ei chymharu â'r data dyfnach a manylach a gasglwyd ar bynciau fel problemau penodol, heriau a chryfderau y cynllun a gododd yn y cyfweiliadau. Datblygwyd strategaethau samplu (Atodiad D) a chylchredwyd yr arolygon i 5 o wahanol grwpiau rhanddeiliaid Tabl 3-2 gan ddefnyddio meddalwedd Smart Survey. Aolygwyd a dadansoddwyd data meintiol yr arolwg mewn Microsoft Excel. Cafodd ymatebion yr arolwg eu cyflwyno fel y maent, heb gael eu crynhoi gan ddefnyddio ystadegau disgrifiadol, gan fod hyn yn briodol i feintiau llai y

¹⁰ Roedd ymgeiswyr aflwyddiannus eraill y cysylltwyd â hwy wedi cytuno i gymryd rhan ond yn anffodus nid oeddent ar gael o fewn yr amserau a awgrymwyd.

¹¹ Cyfyngedig oedd y diddordeb mewn trafod Cynllun y Dreth Gwarediadau. Mae hyn o bosibl o ganlyniad i ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r cynllun gan awdurdodau lleol o dan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

samplau. Cafodd data'r arolwg ansoddol ei gasglu ynghyd a'i ddadansoddi'n thematig yn ôl cwestiynau'r ymchwil a'r ymchwil atodol. Cafodd canfyddiadau o'r arolygon eu hanonymeiddio a'u hymgorffori yn yr adolygiad hwn.

Tabl 3-2: Maint Targed Samplau Grwpiau Rhanddeiliaid a Arolygwyd a Maint y Samplau a Gafwyd

Grŵp Rhanddeiliaid a Arolygwyd	Poblogaeth	Sampl a Gafwyd	Cyfradd Ymateb
Deiliaid Grantiau (gan gynnwys aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru) ¹²	125 ¹³	19	15%
Ymgeiswyr Aflwyddiannus (gan gynnwys aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru) ¹⁴	15	7	47%
Cyngorau Gwirfoddol Sirol	19	4	21%
Gweithredwyr Tirlenwi	15	3	20%

- 3.14 Wrth gwblhau arolygon, roedd ymatebwyr yn cael eu gyrru at gwestiynau penodol, er mwyn sicrhau bod cwestiynau addas yn cael eu gofyn iddynt, ar sail atebion blaenorol. O ganlyniad, rhai o gwestiynau'r arolygon na chafodd eu hateb ond gan is-set o gyfanswm ymatebwyr yr arolygon. Mewn achos o'r fath, adroddir canfyddiadau'r arolwg yn nhermau'r is-set o ymatebwyr y cyflwynwyd y cwestiwn hwn iddynt.
- 3.15 Er i ymdrechion gael eu gwneud i geisio sicrhau bod cymaint â phosibl yn cymryd rhan yn yr arolygon (er enghraifft, gyrrwyd o leiaf 3 e-bost atgoffa at randdeiliaid perthnasol (a ddewiswyd trwy samplu bwriadol dros gyfnod pob arolwg), roedd y cyfraddau ymateb y llwyddwyd i'w cael yn amrywio rhwng 15% a 47%. Mae'r cyfraddau ymateb hyn yn gofyn am gymryd gofal wrth lunio casgliadau o'r data. Caiff canfyddiadau'r arolygon eu cyflwyno felly fel rhai enghreifftiol a chaiff

¹² Roedd yr arolwg ar gyfer Cyswllt Amgylchedd Cymru yn targedu'r rheini a oedd yn ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus i Gynllun y Dreth Gwarediadau. Cyswllt Amgylchedd Cymru oedd y pumed grŵp i ymwneud â rhyddhau'r arolwg i'r rhanddeiliaid a grybwyllwyd eisoes.

¹³ Mae hyn yn cynnwys deiliaid grantiau o chweched cylch y Cynllun.

¹⁴ Er bod dros 370 o ymgeiswyr aflwyddiannus, dim ond 15 y cysylltwyd â hwy gan mai dyma oedd yr is-set o ymgeiswyr a rannwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Rhannwyd arolygon gyda'r ymgeiswyr y cyrhaeddodd eu ceisiadau cyn belled ag argymhelliad i'r panel cynghori arbenigol ond na ddyfarnwyd cyllid iddynt wrth ddewis o'r rhestr fer olaf.

canfyddiadau cyffredinol eu hadrodd yng nghyd-destun data a gasglwyd trwy gyfuniad o arolygon, cyfweiliadau, ac ymchwil eilaidd.

Heriau a Chyfyngiadau'r Ymchwil

- 3.16 Mae'r adran hon yn ymdrin â'r heriau a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r ymchwil. Caiff yr heriau sy'n ymwneud â chynllunio'r rhaglen eu trafod yn gyntaf, a chyfyngiadau'r ymchwil wedyn.

Cynllunio'r Rhaglen

- 3.17 Cyfyngedig oedd y data ar geisiadau aflwyddiannus. Roedd hyn yn cyfyngu ar y graddau y gallai'r adolygiad gymharu prosiectau sy'n mynd ymlaen at y panel ac y dyfarnwyd cyllid iddynt â'r rheini a aeth ymlaen at y panel ond na ddyfarnwyd cyllid iddynt. Rhoddodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ddogfennaeth pob cais a aeth at y panel a dogfennaeth prosiectau llwyddiannus y dyfarnwyd cyllid iddynt fel 2 set data ar wahân. Nid oedd dynodydd cyffredin, megis rhif ar y cyd ar gyfer ceisiadau a phrosiectau, ar draws y setiau data a fyddai'n galluogi cymhariaeth hawdd rhwng y 2. Byddai cymhariaeth haws ar draws ceisiadau yn hwyluso dealltwriaeth o'r graddau mae ffactorau megis lleoliad, thema, cyllid presennol, cyllid y gofynnwyd amdano, neu sefydliad, yn gysylltiedig â dyfarnu cyllid iddynt.
- 3.18 Un cyfyngiad allweddol ar ymchwil i'r adolygiad gwerth-am-arian oedd yr anhawster i roi gwerth ariannol ar lawer o'r buddion a'r dangosyddion perfformiad allweddol yn sgil natur y data a gasglwyd oddi wrth brosiectau. Yn aml, roedd y dangosyddion perfformiad allweddol y gofynnwyd amdanynt yn ffurf "nifer o fentrau", "nifer o gymunedau" neu "nifer o safleoedd", nad yw'n bosibl eu mesur oherwydd nad ydynt yn ddigon penodol. Er enghraifft, gall menter fod ar raddfa fach, canolig neu fawr, ac felly ni ellir rhoi gwerth i "fenter" mewn termau cyffredinol. Yn sgil hyn, roedd llawer o'r buddion yn rhai na ellid rhoi gwerth ariannol iddynt. Roedd hyn yn cyfyngu ar allu'r adolygiad i benderfynu'n derfynol ar gymhareb buddion-costau wirioneddol i'r Cynllun (sef o faint roedd buddion y Cynllun yn gwrthbwysu'r costau o ystyried popeth). Yr unig ffordd o wneud hyn yn ddiamwys fyddai pe gellid rhoi gwerth ariannol i'r holl fuddion (ac felly eu cymharu'n feintiol yn erbyn yr holl gostau).
- 3.19 Un o gyfyngiadau dangosyddion perfformiad allweddol Cynllun y Dreth Gwarediadau yw nad ydynt yn benodol o ran maint. Er enghraifft, bydd budd yn cael

ei restru fel “nifer o fentrau sy’n adfer, cynnal a gwella cynefinoedd naturiol” yn hytrach na’r nifer o hectarau o gynefinoedd naturiol sydd wedi cael eu hadfer, eu cynnal a’u gwella. Mae’n debygol fod yr her wrth fesur effeithiau o’r fath (megis mesur y graddau y mae adfer a gwella wedi digwydd) gan sefydliadau cymunedol wedi cael ei ragweld wrth ddatblygu’r dangosyddion. Gan fod cynulleidfa darged y Cynllun yn tueddu i fod yn sefydliadau cymunedol neu’n rhai dan arweiniad cymunedau, cyfyngedig yn aml yw profiad y grwpiau hyn mewn monitro a mesur effeithiau o’r fath. Cafodd y dangosyddion felly eu symleiddio i roi ffyrdd llai cymhleth o fesur yr effeithiau; fodd bynnag, roedd hyn yn ei gwneud yn anodd i’w mesur ar gyfer yr adolygiad Gwerth am Arian.

Cyfyngiadau’r Ymchwil

- 3.20 Roedd mesur ychwanegedd ac effaith y Cynllun yn anodd yn absenoldeb sefyllfa wrthffeithiol. I oresgyn hyn, gofynnwyd i ddeiliaid grantiau beth fyddai wedi digwydd i’w prosiect pe na bai cyllid y Cynllun yn ei le (er enghraifft, a fyddai ei gwmpas a’i bwyslais wedi bod yn wahanol). Holwyd ymgeiswyr aflwyddiannus hefyd i ddarganfod a oedd eu prosiect arfaethedig wedi mynd yn ei flaen p’run bynnag (er enghraifft, a oedd wedi derbyn cyllid gan ffynonellau eraill, sut roedd yn wahanol i’r prosiect a gynigiwyd ar gyfer y Cynllun). Roedd y diffyg ymateb gan ymgeiswyr aflwyddiannus i’r gwahoddiadau i gymryd rhan mewn ymchwil uniongyrchol yn ychwanegu at yr her.
- 3.21 Y gyfradd ymateb gan randdeiliaid yr effeithiwyd yn uniongyrchol arnynt gan y Cynllun. I ddarganfod effeithiau a buddion ehangach y Cynllun yn y cymunedau lle mae prosiectau a gyllidwyd wedi eu lleoli, roedd yr adolygiad yn bwriadu cynnal ymchwil uniongyrchol gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, gweithredwyr tirlenwi, a chymunedau a elwodd o brosiectau a gyllidwyd. Fodd bynnag, roedd cyfraddau ymateb yn isel o fewn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (o ran awdurdodau lleol) a chan weithredwyr safleoedd tirlenwi. Roedd cymunedau a wnaeth elwa o brosiectau a gyllidwyd hefyd yn anodd eu diffinio a’u hadnabod. Felly, ni chynhwyswyd eu barn o fewn yr adolygiad hwn a oedd yn cyfyngu ar ddealltwriaeth o effeithiau a buddion ehangach y Cynllun. O safbwynt mwy cyffredinol, gallai COVID-19 fod wedi effeithio ar allu rhanddeiliaid i gymryd rhan yn yr arolygon a’r cyfweiliadau. Er mwyn deall cwmpas a phroses ymgeisio’r Cynllun,

roedd yr adolygiad yn bwriadu cyd-drafod ag ymgeiswyr posibl i'r cynllun. Fodd bynnag, roedd y grŵp hwn o randdeiliaid yn gymhleth i'w ddiffinio ac o'r herwydd yn anodd ei adnabod a'i gyrraedd. Felly ni chynhwyswyd barn ymgeiswyr posibl o fewn yr adolygiad.

- 3.22 Roedd yr arolygon a'r cyfweiliadau'n dibynnu ar gof cyfranogwyr yr ymchwil, a oedd mewn rhai achosion yn gyfyngedig. Mae enghreifftiau o'r fath yn cynnwys cyfweiliadau ac arolygon ynghylch ceisiadau prosiectau lle gofynnwyd i gyfranogwyr gofio ceisiadau roeddent wedi eu cyflwyno cyn belled yn ôl â 2018 i 2019. Mewn rhai achosion, roedd cyfranogwyr wedi bod yn ymwneud â cheisiadau prosiectau dilynol, a oedd yn creu anawsterau pellach wrth wahaniaethu'n gywir rhwng ceisiadau a'i gilydd. Cafodd yr her o wneud sylwadau ar geisiadau unigol yn y gorffennol ei grybwyll gan gyfranogwyr cyfweiliadau.
- 3.23 Roedd deiliaid grantiau ac ymgeiswyr aflwyddiannus i'r Cynllun yn cael eu hadnabod fel grwpiau ar wahân o randdeiliaid yng nghynllun yr ymchwil, fodd bynnag, roedd y broses gyfweld yn datgelu gorgyffwrdd rhwng y 2 grŵp. Roedd rhai o gyfranogwyr yr adolygiad wedi ymwneud â sawl cais, lle'r oeddent wedi bod yn llwyddiannus ac yn aflwyddiannus. Er bod cyfranogwyr yr adolygiad wedi cael eu hadnabod fel rhai a oedd yn perthyn i grŵp penodol o randdeiliaid, awgryma hyn bod barn y rhanddeiliaid hyn yn adlewyrchu eu profiad penodol o'r Cynllun yn hytrach na barn grŵp o randdeiliaid a rag-ddiffiniwyd.
- 3.24 Yn olaf, wrth gynnal ymchwil uniongyrchol, roedd potensial am ddiffyg gwrthrychedd gan rai grwpiau o randdeiliaid yn sgil pryderon y gallai cymryd rhan effeithio ar eu perthynas â'r Cynllun, a gwrthdaro buddiannau posibl. Mae'r rhain yn cynnwys Llywodraeth Cymru a greodd y Cynllun, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru sy'n gweithredu fel gweinyddwyr y Cynllun, deiliaid grantiau a allai fod yn fwy tueddol i ddangos y Cynllun mewn goleuni da, ac ymgeiswyr aflwyddiannus a allai ddymuno i'r Cynllun gael ei ddiwygio o'u plaid. Felly, ceiswyd cael barn gan amrywiaeth helaeth o grwpiau rhanddeiliaid (Atodiad E) er mwyn lleihau hyn, yn ogystal â defnyddio strategaethau cyfweld i holi am fanylder pellach.

4. Canfyddiadau Allweddol: Adolygiad o'r Broses

Cafodd y broses ymgeisio, y broses ddyfarnu a'r gwaith o reoli'r Cynllun eu hadolygu trwy gymysgedd o ymchwil eilaidd o ddogfennau a ddarparwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac ymchwil uniongyrchol trwy arolygon a chyfweliadau gyda rhanddeiliaid.

Y Broses Ymgeisio

- 4.1 Caiff yr adolygiad o'r broses ymgeisio ei rannu'n 4 o gwestiynau ymchwil atodol, a drafodir yn yr adrannau canlynol.

Cwestiynau Ymchwil

P1. Sut mae'r broses ymgeisio am Gynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi gweithio?

- P1A. Beth oedd nifer y ceisiadau a dderbyniwyd?
- P1B. Beth oedd dosbarthiad daearyddol y ceisiadau?
- P1C. Beth oedd yr heriau gyda'r broses?
- P1D. Beth oedd cryfderau'r broses?


Nifer a dosbarthiad daearyddol y ceisiadau a dderbyniwyd

- 4.2 Cafwyd cyfanswm niferoedd a dosbarthiad daearyddol y ceisiadau am y prif grantiau o adroddiadau'r panel arbenigol ar gyfer Cylchoedd 1 i 5 y Cynllun a chyflwynir y rhain yn Ffigur 4-1.¹⁵ Ni chynhwyswyd y chweched cylch gan fod ceisiadau'n digwydd yn ystod adeg yr adolygu.
- 4.3 Nid yw Ffigur 4-1 ond yn cynnwys ceisiadau a aeth ymlaen i'r adolygiad gan y panel cynghori arbenigol.¹⁶ Caiff lleoliad ceisiadau ei gyflwyno yn nhermau rhanbarth etholiadol Senedd Cymru, sy'n rhoi amlinelliad bras o ddosbarthiad ceisiadau'r Cynllun ledled Cymru.

¹⁵ Panel Cynghori Arbenigol (2018). Adroddiad Cylch 1 y Panel. Panel Cynghori Arbenigol (2019). Adroddiad Cylch 2 y Panel. Panel Cynghori Arbenigol (2019). Adroddiad Cylch 3 y Panel. Panel Cynghori Arbenigol (2020). Adroddiad Cylch 4 y Panel. Panel Cynghori Arbenigol (2021). Adroddiad Cylch 5 y Panel.

¹⁶ Ni wnaed dadansoddiad mwy cymhleth – fel asesu ceisiadau sy'n dod o ardaloedd gwledig neu drefol neu ddangosyddion ystyrlon eraill megis amddifadedd cymdeithasol, cyfalaf neu asedau naturiol sydd ar gael ar hyn o bryd i'r gymuned. Nid oedd y ddogfennaeth a ddarparwyd i gefnogi'r adolygiad yn cynnwys yr wybodaeth hon ac ni chwmpaswyd yr adolygiad i gynhyrchu'r data hwn. Mae diffyg data o'r fath yn ei gwneud yn anodd deall y cymunedau a'r grwpiau sy'n ymwneud â'r Cynllun.

Ffigur 4-1: Ceisiadau i Gynllun y Dreth Gwarediadau yn ôl Rhanbarth, Cylchoedd 1 i 5



Ffynhonnell: Y Panel Cyngori Arbenigol (2018-2021). *Adroddiadau'r Panel Cyngori Arbenigol Cylchoedd 1 i 5.*

4.4 Dengys Tabl 4-1 pa awdurdodau lleol a gafodd eu priodoli i bob rhanbarth a nifer y safleoedd tirlenwi a gorsafodd trosglwyddo cymwys ym mhob rhanbarth (sy'n ffurfio cyfanswm o 55 ledled Cymru). Mae prosiectau a leolwyd ar draws rhanbarthau yn cael eu disgrifio fel rhai 'aml-ranbarthol'. Roedd y safleoedd cymwys fel yr hyn a gyflwynwyd ar wirydd cymhwysedd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar gyfer seithfed cylch y Cynllun. Efallai nad yw nifer y safleoedd cymwys mewn rhanbarth yn adlewyrchu cyfran y rhanbarth (yn ôl poblogaeth neu arwynebedd) sy'n gymwys ar gyfer y Cynllun gan fod ardaloedd cymwys ar gyfer safleoedd yn gorgyffwrdd.

Tabl 4-1: Safleoedd Tirlenwi a Gorsafodd Trosglwyddo Cymwys

Rhanbarth	Awdurdodau Lleol	Safleoedd Cymwys
Gogledd Cymru	Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn a Wrecsam	15
Canolbarth a Gorllewin Cymru	Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Powys	8
Canol De Cymru	Caerdydd, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg	10
Dwyrain De Cymru	Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr Tudful, Casnewydd a Torfaen	8
Gorllewin De Cymru	Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe	14

Ffynhonnell: Senedd Cymru (Dim dyddiad). [Mapiau o etholaethau a rhanbarthau'r Senedd](#) (Cyrchwyd 19 Ionawr 2022). Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (2021). [Gwirio Cymhwysedd Ardal](#) (Cyrchwyd 19 Ionawr 2022).

4.5 Ym mhob cylch, Gogledd Cymru a gyflwynodd y nifer uchaf o geisiadau, tra bod y nifer isaf o geisiadau ar gyfer prosiectau aml-ranbarthol. Dengys dadansoddiad o geisiadau yn ôl sir yn Nhabl 4-2 mai Caerdydd, Sir y Fflint ac Abertawe oedd y tri awdurdod lleol gyda'r nifer uchaf o geisiadau i'r Cynllun.


Tabl 4-2: Ceisiadau yn ôl Sir, Cylchoedd 1 i 5

Sir	Cyfanswm	%
Blaenau Gwent	14	4%
Pen-y-bont ar Ogwr	6	2%
Caerffili	10	3%
Caerdydd	33	9%
Sir Gaerfyrddin	19	5%
Ceredigion	9	3%
Conwy	6	2%
Sir Ddinbych	6	2%
Sir y Fflint	35	10%
Gwynedd	26	7%
Ynys Môn	10	3%
Merthyr Tudful	15	4%
Aml-sirol	14	4%
Castell-nedd Port Talbot	10	3%
Casnewydd	5	1%
Sir Benfro	19	5%
Powys	15	4%
Rhondda Cynon Taf	9	3%
Abertawe	50	14%
Torfaen	5	1%
Bro Morgannwg	10	3%
Wrecsam	25	7%
Total	351	100%

Ffynhonnell: Y Panel Cynghori Arbenigol (2018-2021). *Adroddiadau'r Panel Cynghori Arbenigol Cylchoedd 1 i 5*

4.6 Yn gyson, gwelliannau amgylcheddol ehangach oedd thema fwyaf poblogaidd y ceisiadau. Derbyniwyd llai o geisiadau ar gyfer y themâu bioamrywiaeth a lleihau gwastraff (Ffigur 4-2) ym mhob un o'r 5 cylch gyda rhai cylchoedd yn erbyn mwy o geisiadau bioamrywiaeth na lleihau gwastraff ac eraill i'r gwrthwyneb. Roedd cynrychiolwyr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru o'r farn fod hyn oherwydd bod y thema gwelliannau amgylcheddol ehangach yn fwy cyffredinol a llai technegol ei natur ac roeddent yn dyfalu y gallai hyn alluogi ymgeiswyr i deimlo'n fwy hyderus i ymgeisio o dan y thema hon.

Ffigur 4-2: Ceisiadau i Gynllun y Dreth Gwarediadau yn ôl Thema, Cylchoedd 1 i 5



Ffynhonnell: Y Panel Cyngori Arbenigol (2018-2021). *Adroddiadau'r Panel Cyngori Arbenigol Cylchoedd 1 i 5*

4.7 Roedd 22 o geisiadau am brosiectau o arwyddocâd cenedlaethol ac iddynt werth o rhwng £50,000 a £250,000, gyda 2 ddyfarniad (Tabl 4-3). Fel dyfarniad blynyddol, ni chafodd ceisiadau eu cyflwyno ym mhob cylch (yn wahanol i geisiadau am y prif grantiau). Yn hytrach, roedd ceisiadau'n cael eu hanfon yn yr ail, pedwaredd a phumed cylch.

Tabl 4-3: Ceisiadau am Grantiau o Arwyddocâd Cenedlaethol i Gynllun y Dreth Gwarediadau, Cylchoedd 1 i 5

	Cylch 1	Cylch 2	Cylch 3	Cylch 4	Cylch 5
Ceisiadau	0	11	0	5	6
Dyfarniad	0	1 ¹⁷	0	0	1

Ffynhonnell: Gohebiaeth e-bost Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Tachwedd 2021.

¹⁷Roedd un deiliad grant wedi ymgeisio mewn camgymeriad o dan y prif grant ar gyfer ei brosiect. Roedd hyn yn cael ei ddsbarthu fel Grant o Arwyddocâd Cenedlaethol, ond derbyniodd gyllid £49,999.00 gan fod y cais wedi digwydd o dan y prif grant.

Cryfderau'r broses ymgeisio

- 4.8 Datgelodd ymatebion o ymchwil ansoddol gyda rhanddeiliaid eu bod yn teimlo'n gyffredinol gadarnhaol ynghylch y broses ymgeisio a'r cymorth a gawsant gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.
- 4.9 **Porth Ymgeisio:** Roedd cylchoedd cynharach y Cynllun yn defnyddio porth caffael e-Dendro Cymru. Yn ystod cyfweiliadau, roedd cynrychiolwyr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn awgrymu bod datblygu gwell porthol ymgeisio (a elwir yn MAP), wedi gwella'n sylweddol y broses ymgeisio, a'u bod wedi derbyn adborth cadarnhaol am hyn gan ddefnyddwyr. Y porth ymgeisio blaenorol oedd porth caffael Llywodraeth Cymru. Roedd y porth ymgeisio newydd yn symlach a haws i ymgeiswyr ei ddefnyddio a hefyd yn galluogi Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i reoli'r broses ymgeisio o'r dechrau i'r diwedd. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru'n cytuno bod MAP, ar sail yr wybodaeth a gawsant, wedi gwella'r broses ymgeisio.
- 4.10 **Cefnogi Ceisiadau:** Roedd cynrychiolwyr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn teimlo eu bod yn gweithio'n dda gydag ymgeiswyr i wella eu ceisiadau. Roedd ymgeiswyr yn gallu cysylltu â swyddogion cymorth grantiau am gyngor ar eu cymhwysedd i dderbyn cyllid, addaswydd eu prosiectau, ac i egluro unrhyw ansicrwydd gyda'r wybodaeth a ddarperir ar-lein. Lle barnwyd bod rhannau penodol o gais da yn aneglur, byddai cynrychiolwyr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn siarad gydag ymgeiswyr i roi cyfle iddynt ddatrys unrhyw amwyseddau. Yn y ddau gyfweiliad ag ymgeiswyr aflwyddiannus nodwyd bod Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn ymatebol ac yn barod i helpu pan oedd angen egluro pwyntiau, ac mewn cyfeliad dywedodd deiliad grant ar eu perthynas dda gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'u bod yn gwybod eu bod yn gallu ffonio i drafod eu cais pan fyddai angen. Roedd hyn yn gyson ag amcan Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (a ddywedwyd mewn cyfweiliad ynghylch Cynllun y Dreth Gwarediadau), sef:

"Gwobrwyo'r prosiectau gorau, nid y bobl a oedd orau am lenwi'r ffurflen gais."

Cyfweiliad â Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, 2021

- 4.11 Roedd ymgeiswyr hefyd yn gallu cysylltu â swyddogion y cyngor gwirfoddol lleol am gymorth gyda'u cais. Yn ystod cyfweiliadau, roedd aelodau'r panel yn disgrifio'r broses ymgeisio fel un a oedd wedi ei strwythuro'n dda gyda chyfeiriadau a chanllawiau clir i ymgeiswyr.
- 4.12 Roedd y ddau ymgeiswydd aflwyddiannus a gyfwelwyd yn teimlo iddynt gael diffiniadau a chanllawiau clir a bod dyddiadau cau eu cais wedi cael eu cyfleu'n glir. Roeddent yn canfod Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i fod yn ymatebol a pharod i helpu pan oedd angen egluro pwyntiau. Yn un o'r cyfweiliadau, cafodd y prosesau ymgeisio a dyfarnu eu canmol gan gyfranogwr am barhau'n agored am gyfnod a ragddiffiniwyd o amser ac am asesu pob cais a gyflwynwyd. Roedd hyn yn cyferbynnu â chronfeydd eraill roeddent wedi ymwneud â hwy a oedd wedi cau'n ddirybudd pan oedd yr holl gyllid wedi cael ei ddyfarnu.
- 4.13 **Profiad Cyffredinol Ymgeisio:** Roedd deiliaid grantiau ac ymgeiswyr aflwyddiannus yn cefnogi llawer o'r pwyntiau a wnaed uchod gan gynrychiolwyr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Fodd bynnag, roedd mwy o amrywiaeth barn ymysg y grŵp mwy hwn o randdeiliaid. Pan ofynnwyd i ddeiliaid grantiau ddisgrifio eu profiad cyffredinol o ymgeisio i'r Cynllun, dywedodd 8 allan o 19 o gyfranogwyr yr arolwg nad oedd yn hawdd nac anodd, dywedodd 6 ei fod yn anodd, 4 ei fod yn hawdd ac un ei fod yn hawdd iawn. Roedd yr arolwg o ymgeiswyr aflwyddiannus yn debyg, gyda 3 allan o 7 o ymatebwyr yn dweud nad oedd y proses ymgeisio yn hawdd nac anodd, 3 yn nodi bod y profiad yn anodd neu'n anodd iawn, ac 1 yn dweud ei bod yn hawdd iawn.
- 4.14 Roedd deiliaid grantiau a arolygwyd yn nodi'r prif ffactorau canlynol fel rhai a oedd yn ei gwneud yn hawdd ymgeisio i'r Cynllun¹⁸:
- porthol effeithlon ar-lein (11 ymateb)
 - gofynion clir ar gyfer cyflwyno (11 ymateb)
 - proses glir (8 ymateb)
 - cyfathrebu clir gan weinyddwyr y Cynllun (9 ymateb)

¹⁸ Roedd dewisiadau aml-ateb ar gael o fewn cwestiwn hwn yr arolwg. Felly, roedd cyfanswm yr ymatebion yn fwy na maint y sampl.

4.15 Mewn cyfweiliadau, teimlai deiliaid grantiau fod y broses yn syml o ystyried maint y grant a bod swm yr wybodaeth y gofynnwyd amdani yn rhesymol. Roeddent o'r farn fod y broses yn hawdd ei deall a'i dilyn a'r map tirlenwi yn gymorth defnyddiol.¹⁹ Roedd un ymgeisydd aflwyddiannus yn dweud bod y porth ymgeisio ar-lein yn eglur iawn, er eu bod yn brofiadol iawn gyda cheisiadau am grant. Fodd bynnag, roeddent yn sylweddoli bod:

“Llawer o bobl eraill wedi'i chael yn anodd gyda'r porth ymgeisio ar-lein.”

Cyfweiliad ag Ymgeisydd Aflwyddiannus, 2021

Heriau Gweinyddol

4.16 **Proses sy'n Draul ar Amser:** Roedd rhanddeiliaid yn cydnabod heriau a meysydd i'w gwella sy'n gysylltiedig â'r Cynllun. Mewn arolygon, dywedodd rhanddeiliaid bod y broses ymgeisio²⁰:

- yn aneglur (3 allan o'r 3 ymgeisydd aflwyddiannus) bod anawsterau technegol yn codi a bod ganddi borth anhylaw (2 allan o'r 3 ymgeisydd aflwyddiannus)
- yn mynd â llawer o amser (11 allan o 19 o ddeiliaid grantiau a 2 o'r 3 ymgeisydd aflwyddiannus)

“Mae'r broses ymgeisio yn draul ar amser gwirfoddolwyr, dw i'n meddwl y gall beri bod rhai sefydliadau'n peidio ag ymgeisio.”

Ymatebydd i'r Arolwg Deiliaid Grantiau, 2021

4.17 Er mwyn lleihau'r amser sydd ei angen ar gyfer ymgeisio, roedd awgrymiadau'n cynnwys:

“Ystyried lleihau nifer yr adrannau ac felly osgoi gorfodi ymgeiswyr i ddarparu atebion tebyg wedi eu mynegi mewn gwahanol ffyrdd.”

Ymatebydd i'r Arolwg Deiliaid Grantiau, 2021

¹⁹ Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (2021). Gwirio Ardaloedd Cymwys (Cyrchwyd 19 Ionawr 2022).

²⁰ Roedd dewisiadau aml-ateb ar gael o fewn cwestiwn hwn yr arolwg. Felly, roedd cyfanswm yr ymatebion yn fwy na maint y sampl.

“Gellid byrhau’r broses ymgeisio yn sylweddol i brosiectau y dyfarnwyd grantiau iddynt o’r blaen.”

Ymatebydd i’r Arolwg Deiliaid Grantiau, 2021

4.18 Fodd bynnag, byddai hyn yn arwain at geisiadau gan sefydliadau mwy hirsefydlog yn cael llai o rwystrau na rhai gan sefydliadau llai profiadol. Roedd hyn yn rhywbeth y gwnaeth y cynghorau gwirfoddol sirol, y panel, deiliaid grantiau ac ymgeiswyr aflwyddiannus ei godi fel ystyriaeth gyda’r Cynllun presennol (gweler yr adran nesaf ar *Heriau Ehangach*).

4.19 **Awgrymiadau am y Porth:** Er bod trawsnewid i’r porth MAP, a oedd wedi cael ei ganmol fel un hawdd ei ddefnyddio gan rai rhanddeiliaid, codwyd rhai pryderon penodol:

“Mae’r broses MAP hefyd yn dieithrio llawer o grwpiau. Mae gormod o gynnwys, sydd yn fy mhrofiad i wedi arwain at ymgeiswyr yn peidio â darllen nodiadau canllawiau yn gywir.”

Cyfweliad â Chyngor Gwirfoddol Sirol, 2021

“Mae system MAP Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn anodd ei defnyddio ac mae’n anodd rhannu’r cais gyda chydweithwyr pan fod llawer ohonom yn cyfrannu at y cais.”

Ymatebydd i’r Arolwg Deiliaid Grantiau, 2021

4.20 Mewn cyfweliad, roedd ymgeisydd aflwyddiannus (a gyflwynodd gais llwyddiannus yn ddiweddarach) yn codi pryderon gyda’r dewis i ddefnyddio porth ymgeisio yn hytrach na ffurflen, ynghyd â phryderon gyda chyfyngiadau ar nifer llythrennau o fewn y porth ymgeisio. Roedd ymgeiswyr eraill yn mynegi’r pwynt y byddai e-bostio proformas wedi eu cwblhau yn gwella’r broses yn sylweddol, gydag un deiliad grant yn awgrymu bod y dalennau Excel i’w cwblhau yn aneglur ac y dylid cael gwared arnynt. Roedd un ymgeisydd yn awgrymu y dylid anfon copi o’r map safleoedd treth tirlenwi at ymgeiswyr, gan iddynt gael anawsterau wrth geisio gweld map perthnasol ar y wefan.

4.21 **System Orlhain Tirlenwi:** Codwyd rhai pryderon gyda'r offerynnau ar-lein roedd yn ofynnol i ymgeiswyr eu defnyddio. Offeryn ar-lein yw'r system olrhain tirlenwi gyda data a gyflenwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, sy'n seiliedig ar ddatganiadau blynyddol a dderbynnir gan weithredwyr safleoedd tirlenwi. Mewn arolwg, dywedodd swyddog cyngor gwirfoddol sirol ei bod yn anodd penderfynu ar gymhwysedd eu grŵp trwy'r system olrhain tirlenwi. Cafodd y gwirydd cymhwysedd ei feirniadu gan weithredwr safle tirlenwi, trwy arolwg, a deimlai fod angen adolygu a diweddarau'r offeryn gyda gwybodaeth gyfredol a chywir. Yn eu hachos hwy, roedd yr offeryn yn defnyddio enw blaenorol y cwmni (yn hytrach a'r enw presennol), nid oedd y safleoedd tirlenwi yn cael eu henwi a dangoswyd un safle yn y lleoliad anghywir.

Heriau Eraill

4.22 Roedd cynrychiolwyr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, cynrychiolwyr cynghorau gwirfoddol sirol, a deiliaid grantiau yn pwysleisio ei bod yn allweddol caniatáu grwpiau cymunedol i ymgeisio fel rhan o Gynllun y Dreth Gwarediadau. Heb y Cynllun, roedd y rhanddeiliaid hyn yn awgrymu y gallai grymuso o'r fath fod yn anodd gan fod grwpiau cymunedol a sefydliadau ar lawr gwlad yn cael eu hanwybyddu'n aml (gall hyn fod oherwydd nad ydynt yn gymwys) neu'n aflwyddiannus wrth geisio am gyllid yn erbyn elusennau mwy neu elusennau cenedlaethol.

4.23 **Effaith Maint Sefydliad ar y Broses Ymgeisio:** Mewn cyfweiliadau, roedd aelodau'r panel yn nodi mai gydag ymgeiswyr cyfarwydd a phrofiadol o sefydliadau mwy a chanddynt ddigon o adnoddau roedd y broses ymgeisio yn gweithio orau yn hytrach na grwpiau llai. Roedd hyn yn cael ei adleisio gan gynrychiolwyr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac un deiliad grant, a oedd yn dweud:

“Os yw eich bryd ar gefnogi cymunedau mwy amrywiol a chynhwysol – mae angen i'r broses grantiau fod yn llawer mwy hygyrch.”

Cyfweiliad â Deiliad Grant, 2021

4.24 Yn ogystal, teimlai un deiliad grant fod yr hysbysebion sy'n ymwneud â'r Cynllun yn rhoi'r argraff ei fod yn fwy addas ar gyfer sefydliadau mawr, rhywbeth nad yw'n wir. Roedd aelod arall o'r panel yn nodi bod y sefydliad roeddent yn gweithio iddo wedi ymgeisio i'r Cynllun a bod potensial am:

"... gydbwysedd annheg. Oherwydd bod gennym godwyr arian a gweithwyr proffesiynol a all gyflawni'r gwaith hwn, yn wahanol i grwpiau llai a llai profiadol."

Cyfweliad â'r Panel Arbenigol, 2021

4.25 **Effaith Cyfoeth:** Cafodd tegwch y broses ymgeisio mewn gwahanol gymunedau ei drafod hefyd yn y cyfweliadau â'r panel, gydag aelodau'n nodi y gall grwpiau mewn cymunedau mwy llewyrchus fod wedi eu harfogi'n well i gynhyrchu ceisiadau sy'n sgorio'n uwch yn sgil mwy o gymorth ac adnoddau ar gael iddynt. Roeddent yn awgrymu hefyd y gall y cymorth sydd ar gael i gymunedau mwy difreintiedig fod yn is mewn ardaloedd gwledig nag ardaloedd trefol, gan anfanteisio'r cymunedau hynny ymhellach yn nhermau ymgeisio i'r Cynllun a chael ceisiadau llwyddiannus.

"Yr un peth a allai fod yn annheg yw'r ffaith fod cymunedau mwy llewyrchus, sydd â'r cymorth hwnnw, yn gallu rhoi ceisiadau gwell i mewn, lle nad yw rhai o'r cymunedau mwy difreintiedig sydd heb y cymorth hwnnw yn gallu gwneud hynny."

Cyfweliad â'r Panel Arbenigol, 2021

4.26 Fe wnaeth aelodau'r panel ystyried yr achos dros ddarparu mwy o gymorth i grwpiau yn y broses ymgeisio yn eu hymatebion ar gyfer yr ymchwil hwn. Dywedodd aelod o'r panel sydd â phrofiad o gefnogi sefydliadau llai fod hwn yn faes anodd, gan y gallai cymorth ychwanegol mewn ceisiadau arwain at grwpiau yn derbyn cyllid a oedd y tu hwnt i'w gallu i'w reoli. Roedd swyddog cyngor gwirfoddol sirol yn rhannu pryder tebyg.

4.27 **Canolbwyntio ar Un Thema:** Roedd cynrychiolwyr cynghorau gwirfoddol sirol, aelodau'r panel, ac ymgeiswyr aflwyddiannus yn mynegi pryderon bod strwythur presennol y Cynllun yn caniatáu i ymgeiswyr ganolbwyntio eu ceisiadau ar un thema yn unig (ar draul y 2 thema arall). O ganlyniad, esboniodd aelodau'r panel yn ystod cyfweliadau fod ymgeiswyr yn aml heb fod yn ystyried ffyrdd o fanteisio i'r eithaf ar eu prosiectau a chyflawni buddion cyfannol ohonynt. Er enghraifft, roedd aelodau'r panel yn trafod bod cymunedau yn aml yn defnyddio cyllid i wella

seilwaith cymunedol (o dan y thema gwelliannau amgylcheddol ehangach) heb ystyried defnyddio atebion seiliedig ar natur (a allai ganiatáu i brosiectau gael eu teilwra'n well i gyd-destun lleol yn ogystal â chyflawni buddion ehangach). Er bod aelodau'r panel yn credu bod cymorth ar gael i ymgeiswyr gyda datblygu cynigion am brosiectau cyfannol (sef gwaith ar draws sawl thema), roeddent yn ansicr ai diffyg diddordeb oedd gan ymgeiswyr mewn cyflawni buddion ehangach neu ddiffyg gwybodaeth bod cymorth o'r fath ar gael. Trafodir y mater hwn ym mharagraff 5.8 yn ogystal.

- 4.28 **Safleoedd Cymwys:** Roedd un deiliad grant yn awgrymu y dylid ailystyried meini prawf cymhwysedd ar gyfer y Cynllun, gan nodi:

“Mae ein safle ailgylchu lleol ni bellach wedi cael ei dynnu oddi ar y rhestr o safleoedd cymwys oherwydd nad yw'r tip gwastraff yn derbyn gwastraff mwyach. Fodd bynnag, mae bodolaeth parhaus y safle a'r gwaith o'i reoli yn dal i fod â goblygiadau i'r gymuned leol a byddem yn dadlau y dylid ailarchwilio'r meini prawf cymhwysedd i gynnwys safleoedd tirlenwi hanesyddol.”

Cyfweliad â Deiliad Grant, 2021

Gellid ailystyried cymhwysedd safleoedd i gynnwys safleoedd sy'n disgyn yn is na'r trothwyau gweithgarwch presennol law yn llaw â'r goblygiadau y gallai hyn ei gael ar gynyddu cyfanswm y safleoedd cymwys, bod safleoedd llai prysur yn debygol o darfu llai ar eu cymunedau lleol ac yn cyfrannu llai o Dreth Gwarediadau Tirlenwi, tra nad yw safleoedd nad ydynt ar waith bellach yn cyfrannu at y Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

Y Broses Asesu a Dyfarnu

- 4.29 Caiff canfyddiadau ar gyfer y broses asesu a dyfarnu eu cyflwyno o dan yr adrannau canlynol.

Cwestiynau Ymchwil

P2 Sut mae'r broses ddyfarnu ar gyfer Cynllun y Dreth Gwarediadau wedi gweithio?

- P2A Beth oedd yr heriau gyda'r broses?
- P2B Beth oedd cryfderau'r broses?

Heriau

4.30 **Rôl y Cynghorau Gwirfoddol Sirol:** Yn y Cynllun presennol fel rhan o'r broses asesu, anfonir ceisiadau at swyddogion cymorth grant mewnol y cynghorau gwirfoddol sirol a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i'w hasesu. Yn ystod cyfweiliadau, dywedodd cynrychiolwyr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru fod, lle bo'n briodol, y cynghorau gwirfoddol sirol yn cynnig cyngor pellach i'r panel ar sail eu gwybodaeth leol. Roedd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn nodi y gallai'r cyngor hwn gynnwys ffactorau megis a yw grŵp yn weithgar yn y gymuned, a oes ganddynt brofiad perthnasol wrth gyflawni prosiectau eraill, neu brofiad blaenorol o'r grŵp. Roedd yr arolwg o gynrychiolwyr cynghorau gwirfoddol sirol yn awgrymu bod gan bob un o'r 4 cyngor gwirfoddol sirol ddealltwriaeth wahanol o'u rôl yn y Cynllun, yn hytrach na safbwynt ar y cyd.²¹ Dywedodd un cyngor gwirfoddol sirol nad oedd ganddynt ddim rôl wrth gefnogi'r gwaith o asesu ceisiadau i'r cynllun a gwnaeth y sylw:

“Dylai fod mwy o ymgynghori ar geisiadau i Gynghorau Gwirfoddol. Mae gan y cynghorau wybodaeth leol am y sefydliadau sy'n derbyn y grantiau.”

Ymatebydd i'r Arolwg Cynghorau Gwirfoddol Sirol, 2021

4.31 Mae'r amrywiaeth mewn ymatebion i'r arolwg yn adlewyrchu'r eglurder a roddwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru mai rôl anffurfiol sydd gan gynghorau gwirfoddol sirol yn y broses hon. Yn wyneb cyfraniad posibl cynghorau gwirfoddol sirol at y broses hon trwy eu gwybodaeth leol, gallai fod yn ddefnyddiol i weinyddwr y Cynllun ffurfioli rôl y cynghorau gwirfoddol sirol yn y broses asesu.

4.32 **Meini Prawf Sgorio:** Bu aelodau'r panel a gymerodd ran yn trafod yr asesu a'r sgorio a gyflawnwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a chynghorau gwirfoddoli sirol. Codwyd pryder y gallai'r system sgorio ffafrio grwpiau mwy proffesiynol ac iddynt ddigon o adnoddau, uwchlaw sefydliadau a oedd yn llai profiadol mewn ymgeisio am gyllid grant ond fod ganddynt syniadau cryf. Codwyd hyn yr un modd yn Adran *Y Broses Ymgeisio* (paragraff 4.23).

²¹ Mae'r nifer bach o ymatebion a dderbyniwyd yn golygu nad yw'r canfyddiadau a adroddir yma ond yn cynrychioli'r 4 hynny o gyfranogwyr yr arolwg ac ni ellir cyffredinoli i hyn i holl aelodau cynghorau gwirfoddol sirol.

4.33 Yn ogystal â'r awgrym am fwy o gymorth ymgeisio (paragraff 4.26), roedd aelodau'r panel a gymerodd rhan yn cymedroli ymhellach eu trafodaeth o'r angen i sicrhau bod grwpiau llai a llai profiadol yn cael eu hystyried am gyllid. Roeddent yn cydnabod bod profiad perthnasol, hanes o lwyddiant, a gallu i reoli prosiectau i gyd yn ffactorau pwysig mewn lleihau risg wrth ddyfarnu grantiau mawr. Er nad oedd ceisiadau a oedd yn sgorio'n uchel yn cael eu ffafrio o angenrheidrwydd dros geisiadau eraill, y rhain oedd y ceisiadau cyntaf i gael eu hadolygu. Roedd hyn yn arwain at lai o gyllid ar gael i geisiadau a oedd yn sgorio'n is. Fel roedd un aelod o'r panel yn nodi:

"Erbyn y dewch yn is i lawr y rhestr [o geisiadau], mae'r swm o arian rydych yn ei ddyrannu eisoes wedi cael ei ddyrannu."

Cyfweliad â'r Panel Arbenigol, 2021

4.34 Mewn cyfweliadau, teimlai ymgeiswyr aflwyddiannus fod y broses ddyfarnu yn deg. Fodd bynnag, roedd un o'r farn fod angen addasu'r meini prawf sgorio. Eu barn hwy oedd y gellid cydbwyso'r angen i warchod cyllid cyhoeddus yn erbyn y manteision posibl o dderbyn elfen o risg ar brosiectau mwy mentrus ac iddynt o potensial o gael mwy o effaith. Roeddent yn crybwyll y risgiau a achosir gan yr argyfwng hinsawdd ac yn dadlau bod angen prosiectau ac iddynt fwy o effaith, gan ddweud:

"Byddwch yn ddewr, mentrwch rywfaint. Collwch ychydig brosiectau, ond mae angen inni fod yn rhoi cynnig ar bob un dewis gwahanol, radical, arloesol i'n helpu ni i gael allan o'r llanast hwn rydym ynddo."

Cyfweliad ag Ymgeisydd Aflwyddiannus, 2021

4.35 **Y Broses Benderfynu:** Codwy pryderon tebyg i'r Adran *Heriau Ehangach y Broses Ymgeisio* (Adran 2) ynghylch sicrhau amrywiaeth mewn sefydliadau sy'n derbyn cyllid. Roedd aelodau'r panel yn nodi y gallai fod yn anodd ystyried pob cais ar eu gwir botensial pan oedd ceisiadau a oedd wedi eu hysgrifennu'n dda eisoes wedi cael cefnogaeth ariannol. Un ateb fyddai i Gynllun y Dreth Gwarediadau gael rôl fwy datblygiadol, gyda chyllid yn cael ei glustnodi ar gyfer prosiectau a gyflwynir gan sefydliadau llai profiadol. Ar lefel fwy ymarferol, fe wnaeth un aelod o'r panel a oedd yn cymryd rhan grybwyll eu bod yn ei chael yn anodd gyda'r daenlen o geisiadau a

data atodol a ddarperid gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac roedd yn pendroni a oedd dewis arall a fyddai'n gwneud hyn yn haws iddynt.

- 4.36 **Adborth ar Geisiadau:** Mewn arolygon, roedd 3 allan o 7 o ymgeiswyr aflwyddiannus yn awgrymu y gellid gwella adborth a'r broses adborth. Mewn cyfweiliadau, roedd ymgeisydd aflwyddiannus yn awgrymu y gallai Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wneud mwy o safbwynt datblygu'r trydydd sector yng Nghymru a chefnogi ymgeiswyr trwy ddarparu adborth a fyddai'n eu helpu i ddatblygu. Roeddent yn cyferbynnu cyfrifoldeb Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru fel gwarchodwr cyllid cyhoeddus, wrth sicrhau ei fod yn cael ei wario'n addas, â'u cyfrifoldeb i helpu datblygu'r trydydd sector yng Nghymru. Roedd y rhanddeiliad hwn yn awgrymu bod adborth yn canolbwyntio ar ddatblygu a gwella ac yn rhoi'r enghraifft o alwad ffôn rhwng gweinyddwr y Cynllun a'r ymgeisydd fel dull adborth a allai fod yn well. Fodd bynnag, gan fod yn aml fwy o geisiadau nag sydd o gyllid ar gael gan y rhaglen, mae heriau logistaidd i'w hystyried wrth benderfynu faint o gymorth ar ôl ymgeisio y gall gweinyddwr y Cynllun ei ddarparu. Caiff cryfderau'r adborth eu trafod yn yr adran nesaf.

Cryfderau'r broses adborth

- 4.37 **Gwelliannau i'r Broses:** Mae'r broses asesu wedi cael ei gwella dro ar ôl tro ers lansio Cynllun y Dreth Gwarediadau. Mae hyn wedi cynnwys ychwanegu mwy o reoli ansawdd yn y camau cychwynol (ee gofyn am gytundebau defnydd tir, caniatâ a thrwyddedau ymlaen llaw) i adnabod rhwystrau posibl yn gynnar yn y broses; cyflawni sesiynau hyfforddi ar y cyd gydag aseswyr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a chynghorau gwirfoddol lleol er mwyn sicrhau cysondeb mewn sgorio; rhoi adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus a fydd o fudd wrth ysgrifennu ceisiadau yn y dyfodol yn hytrach na dim ond gwybodaeth ar sgoriau eu ceisiadau; a chynnig cymorth i ymgeisio i sefydliadau (trwy gynghorau gwirfoddol sirol) gyda phrosiectau y bernir bod ganddynt botensial. Roedd y gweithgaredd hwn yn cael ei weld fel un buddiol – teimlai'r rhai a gyfwelwyd o'r panel fod y broses benderfynu ar ddyfarniadau yn effeithlon a phroffesiynol. Roedd aelodau'r panel yn priodoli rhywfaint o hyn i waith Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a chynghorau gwirfoddol sirol wrth asesu ceisiadau cyn eu cyflwyno i'r panel wedi eu gosod mewn trefn yn ôl sgôr eu hasesiad.

4.38 **Gwybodaeth Dechnegol ac Arbenigedd Leol:** Roedd y panel yn awgrymu bod amrywiaeth yr arbenigedd ar y panel yn galluogi trafodaeth broffesiynol a thechnegol o geisiadau:

“Mae gennym set eang o sgiliau. Felly, rydym yn edrych ar geisiadau o nifer o safbwyntiau gwahanol, yn ogystal â phrif feini prawf dyfarnu grantiau.”

Cyfweliad â'r Panel Arbenigol, 2021

4.39 Wrth gael eu cyfweld, dywedodd aelodau'r panel fod gwybodaeth arbenigol a lleol yn cael ei gweld fel rhywbeth neilltuol o bwysig fel rhan o'u rôl yn y Cynllun, gan ei fod yn eu helpu wrth ddeall buddion posibl ceisiadau nad oedd yn rhoi'r disgrifiad cryfaf posibl o'u prosiect ar y ffurflen gais, ond a oedd â'r potensial i fod o fudd i'w cymunedau lleol.

“Mae gennym gryn dipyn o wybodaeth leol am y rhaglenni sy'n dod i'r amlwg. Pan fo gennych grŵp cymunedol bach ... mae'r wybodaeth leol yn golygu llawer oherwydd, weithiau, efallai nad yw eu cais yn edrych mor gryf â hynny ar bapur, oherwydd nid eu cryfder yw ysgrifennu ceisiadau am gyllid.”

Cyfweliad â'r Panel Arbenigol, 2021

4.40 Roedd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn nodi eu bod, wrth adolygu cais, yn estyn allan at ymgeiswyr am eglurder pan oedd elfen aneglur o gais a allai effeithio ar benderfyniad y panel. Un cryfder penodol a bwysleisiwyd gan aelodau o'r panel a oedd yn cymryd rhan oedd y ddealltwriaeth dda a oedd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru o anghenion lleol, a oedd yn cymharu'n ffafriol â chynlluniau grant eraill roedd gan y panel brofiad ohonynt, lle'r oedd gweinyddwyr yn dangos llai o wybodaeth leol.

4.41 **Y Broses Benderfynu:** Cafodd prosesau trafod a phenderfynu y panel eu disgrifio fel cryfder gan aelodau, gyda rhai meysydd y gellid eu gwella. Roeddent yn nodi bod aelodau unigol yn gallu codi cais nad oedd wedi sgorio'n uchel yn y broses asesu i'w drafod, a dadlau'r achos dros gymeradwyo cais, a allai arwain at gymeradwyaeth pe gellid sicrhau cytundeb ymysg y panel.

4.42 **Adborth ar Geisiadau:** Roedd mwyafrif y deiliaid grantiau a arolygwyd (16 o 19) yn mynegi bod yr adborth a dderbyniwyd ar eu cais yn 'eglur neu'n eglur iawn'. Roedd ymgeiswyr aflwyddiannus a arolygwyd yn gyffredinol debyg, gyda 4 o 7 yn mynegi

bod yr adborth yn 'egllur neu eglur iawn'. Roedd un ymgeisydd aflwyddiannus yn nodi bod yr adborth a dderbyniwyd yn 'aneglur' ac yn ymhelaethu nad oedd ond wedi derbyn un frawddeg o adborth am gais yng nghylch 4. Gwnaed y sylw gan un deiliad grant fod adborth ar gais aflwyddiannus blaenorol yn gyfyngedig, ac roedd yn priodoli hyn i'r swm o geisiadau a dderbyniwyd. Ar y llaw arall, teimlai deiliad grant arall eu bod wedi derbyn adborth defnyddiol ar gais aflwyddiannus a helpodd gyda cheisiadau yn y dyfodol.

Rheoli

- 4.43 Mae'r adran hon yn trafod cryfderau a heriau'r gwaith o reoli'r Cynllun o ddydd i ddydd gan gynnwys dangosyddion perfformiad allweddol, ynghyd â sylwadau ar weinyddu'r prosesau grantiau.

Cwestiynau Ymchwil

P3. Sut mae proses reoli'r Cynllun wedi gweithio?

- P3A Beth oedd yr heriau gyda'r broses?
- P3B Beth oedd cryfderau'r broses?
- P3C A yw'r ceisiadau am y prif grantiau (£5,000 i £49,000) wedi cael eu gweinyddu fel proses un-cam mewn 2 gylch cyllido bob blwyddyn ariannol?
- P3D A oedd galwadau am gynigion am grantiau'n cael eu cyhoeddi yn y gwanwyn a'r hydref tua 6 mis rhyngddynt?
- P3E A oedd ceisiadau am grantiau mwy (£50,000 a throsodd) yn cael eu gweinyddu trwy broses dau-gam ac yn cael eu dyfarnu'n flynyddol?

Heriau Rheoli'r Cynllun

- 4.44 **Dangosyddion Perfformiad Allweddol:** Thema drafod gyson ymysg rhanddeiliaid oedd monitro a dewis prosiectau ac adrodd ar ddangosyddion perfformiad allweddol. Er eu bod wedi datblygu'r set gychwynnol o ddangosyddion gyda Llywodraeth Cymru ac wedi cytuno arnynt, roedd cynrychiolwyr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn disgrifio'r set wreiddiol o 55 o ddangosyddion (a welir yn Atodiad C) fel un rhy dechnegol i rai grwpiau ymgeiswyr ei defnyddio ac adrodd arnynt yn effeithiol. Roedd hyn yn ei gwneud yn fwy heriol i gyfleu canlyniadau ac effeithiau prosiectau mewn modd ystyrlon. Roedd cynrychiolwyr Llywodraeth

Cymru'n cefnogi'r hyn a ddywedwyd, gan gydnabod bod gormod o ddangosyddion ar y cychwyn.

- 4.45 Fe wnaeth Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru leihau'r 55 o ddangosyddion perfformiad allweddol gwreiddiol i ddewis mwy ymarferol o 17 dangosydd perfformiad allweddol. Gwnaed hyn i symleiddio adrodd a chynhyrchu set symlach o benawdau ffigurau y gellid eu defnyddio i gyfleu canlyniadau ac effeithiau prosiectau. Cafodd y dangosyddion perfformiad allweddol eu cyflwyno yng nghylch 5, fodd bynnag, yn y sampl o adroddiadau monitro ar gyfer cylch 5, a oedd yn ffurfio rhan o'r adolygiad hwn, roedd y 55 o ddangosyddion perfformiad allweddol yn dal i gael eu defnyddio gan lawer o brosiectau. Mae canfyddiadau a gyflwynir yn yr adran hon ar fonitro a rheoli prosiectau yn cyfeirio'n bennaf at y defnydd o'r set o 55 o ddangosyddion perfformiad allweddol.
- 4.46 Teimlai cynrychiolwyr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru fod cyfyngiadau wrth gofnodi ac adrodd canlyniadau ac effeithiau prosiectau trwy ddangosyddion perfformiad allweddol. Eu barn hwy oedd bod ffyrdd eraill o gyfleu canlyniadau cynlluniau, megis adborth anecdotaidd ar gynlluniau, ac y gallai astudiaethau achos fod yn ffordd rymus o ddarlunio buddion prosiectau.
- 4.47 Roedd nifer bach o ymgeiswyr yn anghytuno ag agweddau unigol o reoli'r Cynllun; mae'n bwysig nodi mai barnau unigolion yw'r rhain ac nad ydynt yn themâu cyffredin a ddaeth i'r amlwg yn yr ymchwil.
- 4.48 **Rheoli a Gweinyddu Prosiectau:** Roedd un deiliad grant yn nodi na chafodd eu ceisiadau llwyddiannus am ymestyn eu prosiect eu cofnodi a bod negeseuon e-bost atgoffa diangen yn cael eu hanfon atynt. Awgrymodd un arall ddull mwy sensitif o ymdrin ag anghenion y grwpiau sy'n cyflawni prosiectau, gan esbonio:
- “Yn ystod ymweliadau safle (na chynlluniwyd), mae'r rheolwr grant wedi ymddangos fel nad yw'n sylweddoli'r deinameg grym rhwng y cyllidwr a derbynnydd y grant ac effaith hynny.”*
- Cyfweliad â Deiliad Grant, 2021
- 4.49 **Monitro:** Cafodd yr heriau ynghylch y ffordd y caiff canlyniadau prosiectau eu monitro ac yr adroddir arnynt eu trafod mewn cyfweliad gydag ymgeisydd aflwyddiannus, a gafodd yn ddiweddarach brosiect arall yn cael ei gyllido gan y

Cynllun. Teimlent fod diffyg eglurder yn y canllawiau adrodd ac nad oedd y daenlen monitro yn mesur buddion yn iawn. Roedd y cyfranogwr hwn o'r farn fod canllawiau monitro Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn enghraifft o'r arferion gorau yn y sector.

Cryfderau

- 4.50 Roedd adborth gan randdeiliaid yn gyffredinol yn awgrymu bod y Cynllun yn cael ei reoli'n effeithiol o ddydd i ddydd.
- 4.51 **Llywodraethu:** Y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru oedd yn cael y clod am alluogi rheoli effeithiol o ddydd i ddydd. Er mwyn parchu dymuniadau'r trydydd sector (o dan arweiniad Ymddiriedolaeth Natur Cymru) na ddylai'r Cynllun gael ei redeg yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, maent wedi cynnal perthynas hyd braich gyda'r Cynllun. Mae'r berthynas hon wedi rhoi'r rhyddid i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, fel gweinyddwr y Cynllun, weithredu'r rhaglen grantiau a gwneud penderfyniadau heb orfod cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Roedd adborth yr holl randdeiliaid ar reolaeth gyffredinol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru o'r Cynllun yn gadarnhaol iawn.
- 4.52 **Cymorth i Brosiectau:** Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru'n disgrifio'r gwaith o reoli prosiect fel un a oedd yn mynd yn 'llyfnach' dros amser, a bod Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi mynd ati'n ddigymell i roi cymorth i brosiectau i'w helpu i addasu i'r pandemig trwy gynnal digwyddiadau ar-lein yn lle'n bersonol. Mae hyn yn cadarnhau ymhellach y broses o wella parhaus roedd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol yn ei rhoi ar waith wrth reoli'r Cynllun, fel y gwelwyd yn y prosesau ymgeisio, asesu a dyfarnu yn ogystal.
- 4.53 Mewn cyfweiliadau, roedd cynrychiolwyr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn esbonio bod dynodi swyddog cymorth grant i bob prosiect yn sicrhau bod gan bob prosiect gyswllt uniongyrchol y gallent dderbyn cymorth trwyddo. Roedd y rhesymau dros hyn yn cynnwys derbyn cymorth prydlon a defnyddiol, cysylltu'n rhwydd â swyddogion cymorth grant, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn bod yn hyblyg ac yn derbyn newidiadau yn ystod y pandemig. Yn yr arolwg, dywedodd mwyafrif y deiliaid grantiau (12 o 19) bod y cymorth parhaus i brosiectau wedi bod yn 'dda neu dda iawn'.

Gofynion Gweinyddu

- 4.54 Roedd yr adolygiad yn cadarnhau bod y ceisiadau am y prif grantiau yn cael eu gweinyddu mewn proses un-cam mewn 2 gylch cyllido bob blwyddyn, gyda chylchoedd cyllido yn digwydd yn y gwanwyn a'r hydref mewn cyfnodau o tua 6 mis rhyngddynt. Mae ceisiadau grant am brosiectau o arwyddocâd cenedlaethol wedi digwydd yn flynyddol, gyda'r ceisiadau hyn yn mynd trwy haen ychwanegol o graffu.²² Caiff ceisiadau o arwyddocâd cenedlaethol eu hadolygu a cheisir eglurder arnynt, gyda'r ceisiadau a'r eglurder a roddwyd yn cael eu rhannu wedyn gyda'r panel cyn y cyfarfod o'r panel. Mae'r panel yn cael y cyfle i geisio eglurder pellach gan yr ymgeisydd cyn i'r cais gael ei ystyried gan y panel.

Prosiectau a Gyllidwyd

Cwestiynau Ymchwil

P4. Beth yw'r mathau o brosiectau y cynigiwyd cyllid iddynt?

- P4A Sawl prosiect a gafodd eu cyllido o dan bob thema?
- P4B Sut oedd y prosiectau'n cyd-fynd â blaenoriaethau Cynllun y Dreth Gwarediadau? (Mae blaenoriaethau'n cyfeirio at y 3 thema allweddol a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru)
- P4C Beth oedd dosbarthiad daearyddol prosiectau'r Cynllun? Sut mae hyn yn gysylltiedig â dosbarthiad daearyddol y ceisiadau?

Rhanbarth a Thema

- 4.55 Caiff cyfanswm o 112 o brosiectau a dderbyniodd gyllid yng nghylchoedd 1 i 5 eu cynnwys yn yr adolygiad hwn, gyda 110 ohonynt yn brosiectau prif grantiau a 2 yn brosiectau o arwyddocâd cenedlaethol.
- 4.56 Mae Tabl 4-4 yn crynhoi'r prosiectau y dyfarnwyd cyllid iddynt yn ôl rhanbarth a thema. Roedd y nifer uchaf o brosiectau a gyllidwyd yng Ngogledd Cymru – yr ardal a dderbyniodd y nifer uchaf o ymgeiswyr hefyd (fel y trafodwyd yn Adran 4.2).

²² Panel Cyngori Arbenigol (2018). Adroddiad Cylch 1 y Panel. Panel Cyngori Arbenigol (2019). Adroddiad Cylch 2 y Panel. Panel Cyngori Arbenigol (2019). Adroddiad Cylch 3 y Panel. Panel Cyngori Arbenigol (2020). Adroddiad Cylch 4 y Panel. Panel Cyngori Arbenigol (2021). Adroddiad Cylch 5.; Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (2020). [Adroddiad Blynyddol Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi 2018/19](#) (Cyrchwyd 21 Rhagfyr 2021), CGGC (2021). [Adroddiad Blynyddol Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi 2019/20](#) (Cyrchwyd 21 Rhagfyr 2021). CGGC (2021). Gohebiaeth e-bost, Tachwedd 2021.

Gwelliannau amgylcheddol ehangach oedd thema fwyaf poblogaidd y prosiectau, gyda chyfanswm o 42 o brosiectau.

- 4.57 Roedd nifer y dyfarniadau yn ôl thema yn amrywio ledled Cymru. Er enghraifft, roedd nifer y prosiectau a gyllidwyd yng ngogledd Cymru yn debyg rhwng bioamrywiaeth, gwelliannau amgylcheddol ehangach a phrosiectau ac iddynt sawl thema, tra bod llai o brosiectau lleihau gwastraff. Ar y llaw arall roedd mwyafrif y prosiectau a gyllidwyd yng Ngorllewin De Cymru yn dod o dan y thema gwelliannau amgylcheddol ehangach.

Tabl 4-4: Nifer Prosiectau Cynllun y Dreth Gwarediadau a Gymeradwywyd yn ôl Rhanbarth a Thema, Cylchoedd 1 i 5

Rhanbarth	Bioamrywiaeth	Lleihau gwastraff	Gwelliannau amgylcheddol ehangach	Themâu Lluosog	Cyfanswm nifer prosiectau
Gogledd Cymru	11	4	10	12	37
Canolbarth a Gorrlewin Cymru	9	5	10	3	27
Canol De Cymru	3	3	7	3	16
Dwyrain De Cymru	2	2	6	5	15
Gorrlewin De Cymru	1	1	9	2	13
Aml-ranbarthol	1	3	0	0	4
Cyfanswm	27	18	42	25	112

Ffynhonnell: Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. (Dim Dyddiad). *Dyfarniadau Grantiau – Cylchoedd 1 - 5 2018-21*.

Cyllid

- 4.58 Rhwng y 5 cylch a gynhwysir yn yr adolygiad, dosbarthwyd £4.64 miliwn mewn cyllid i'r 112 o brosiectau. Rhwng y themâu, gwelliannau amgylcheddol ehangach a dderbyniodd y swm mwyaf o gyfanswm cyllid (£1.5 miliwn), gyda lleihau gwastraff yn derbyn y swm lleiaf o gyfanswm cyllid (£795,791).

- 4.59 Roedd y dosbarthiad cyllid rhwng y rhanbarthau a'r themâu yn gyffredinol debyg i ddosbarthiad prosiectau. Gogledd Cymru a gafodd fwyaf o brosiectau a gyllidwyd, a dyma hefyd oedd y lle a dderbyniodd fwyaf o gyllid (£1.4 miliwn) tra mai Gorllewin De Cymru a gafodd y nifer lleiaf o brosiectau ac a dderbyniodd y lleiaf (£432,871). O'r cyfanswm cyllid o £4.64 miliwn, roedd £199,970 o gyllid na chafodd ei neilltuo i ranbarth penodol gan i'r prosiectau hyn ddigwydd mewn siroedd ar draws mwy nag un rhanbarth.
- 4.60 Nid yw'n eglur pam y dyfarnwyd niferoedd gwahanol o brosiectau a symiau gwahanol o gyllid i bob rhanbarth. Mae gan Ogledd Cymru a Gorllewin De Cymru nifer tebyg o safleoedd cymwys (15 gan y naill a 14 gan y llall). Fodd bynnag, mae'r safleoedd yng Ngorllewin De Cymru yn nes at ei gilydd ac ymddengys fod ardal lai sy'n gymwys am grantiau'r Cynllun. Nid oedd cwmpas yr adolygiad hwn yn cynnwys dadansoddiad o'r ardaloedd a oedd yn gymwys i ymgeisio i'r Cynllun, na nodweddion perthnasol yr ardaloedd hynny a allai fod wedi dylanwadu ar geisiadau megis poblogaeth neu ddangosyddion cymdeithasol, economaidd, neu amgylcheddol. Fodd bynnag, gallai hyn fod yn faes defnyddiol i'w archwilio ymhellach mewn adolygiadau yn y dyfodol i gael gwell dealltwriaeth o broses ddyfarnu ac effeithiolrwydd y Cynllun.

Tabl 4-5: Swm o Gyllid a Ddyfarnwyd yn ôl Rhanbarth a Thema, Cylchoedd 1 i 5²³

Rhanbarth	Bioamrywiaeth	Lleihau Gwastraff	Gwelliannau Amgylcheddol Ehangach	Themâu Lluosog	Cyfanswm Cyllid
Gogledd Cymru	£407,520	£161,629	£292,841	£565,417	£1,427,407
Canolbarth a Gorllewin Cymru	£341,748	£243,427	£392,745	£149,898	£1,127,818
Canolbarth De Cymru	£147,133	£145,752	£295,622	£125,350	£713,857
Dwyrain De Cymru	£56,000	£59,797	£218,005	£404,962	£738,764
Gorllewin De Cymru	£8,123	£35,215	£326,322	£63,211	£432,871
Aml-ranbarthol	£49,999	£149,971	£0	£0	£199,970
Cyfanswm	£1,010,523	£795,791	£1,525,534	£1,308,838	£4,640,686


Ffynhonnell: Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. (Dim Dyddiad). *Dyfarniadau Grantiau – Cylchoedd 1 i 5 2018-21.*

Dosbarthiad daearyddol – dyfarniadau, cyllid, a cheisiadau o gymharu â dyfarniadau

- 4.61 Fel y dengys Tabl 4-4 a Tabl 4-5 dyfarnwyd y nifer mwyaf o brosiectau yng Ngogledd Cymru, gyda 37 o brosiectau a dderbyniodd £1.4 miliwn mewn cyllid. Cafodd Gorllewin De Cymru 13 o brosiectau a dderbyniodd £432,871 o gyllid. Nid oedd data ceisiadau a oedd yn nodi lleoliad a thema prosiectau ond ar gael ar gyfer ceisiadau prif grantiau, felly nid yw'r dadansoddiad o geisiadau a dyfarniadau ond yn ymwneud â phrosiectau prif grantiau.
- 4.62 Dengys Ffigur 4-3 y ganran o geisiadau llwyddiannus yn ôl rhanbarth a thema. Rhwng y cyfan, dyfarnwyd cyllid i 31% o'r ceisiadau a gyflwynwyd yng Nghylchoedd 1 i 5, fodd bynnag roedd y ganran o geisiadau y dyfarnwyd cyllid iddynt yn amrywio rhwng rhanbarthau ac ar draws themâu.

²³ Mewn lleoedd nad yw'r cyfansymiau'n dod i 100%, mae hyn o ganlyniad i dalgrynnu cyfrifiadurol

Ffigur 4-3 Canran o geisiadau llwyddiannus am brif grantiau yn ôl rhanbarth a thema



Ffynhonnell: Y Panel Cyngori Arbenigol (2018-2021). *Adroddiadau'r Panel Cyngori Arbenigol Cylchoedd 1 i 5.*

4.63 Dyfarnwyd cyllid i tua 44% o geisiadau o Ganolbarth a Gorllewin Cymru, sy'n cyferbynnu â Gorllewin De Cymru lle gwnaeth 20% o'r ceisiadau dderbyn cyllid. O dan y thema bioamrywiaeth, fe wnaeth 55% o geisiadau dderbyn cyllid, yn wahanol i'r cyfrannau o geisiadau a dderbyniodd gyllid o dan y themâu eraill – lleihau gwastraff (31%), gwelliannau amgylcheddol ehangach (30%) a cheisiadau ac iddynt sawl thema (32%).

4.64 Mae'r uchod yn cadarnhau'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod cyfweiliadau gyda chynrychiolwyr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru na chafodd y Cynllun ei lethu â mwy o geisiadau nag y gellid eu cymeradwyo. Nid yw'n eglur pam fod prosiectau ac iddynt thema bioamrywiaeth yn fwy tebygol o gael cyllid wedi ei ddyfarnu iddynt na phrosiectau sy'n canolbwyntio ar themâu eraill.

Cydnawsedd â blaenoriaethau Cynllun y Dreth Gwarediadau

4.65 Roedd prosiectau'n gyffredinol yn gydnaws â blaenoriaethau'r Cynllun yn ôl y themâu bras roeddent yn canolbwyntio arnynt. O ganlyniad, roedd prosiectau hefyd yn cefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru fel y'u pennir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), Symud Cymru Ymlaen, Ffyniant i Bawb a Deddf yr

Amgylchedd (Cymru) (2016). Gweler Adran 5, *Cefnogaeth i Flaenoriaethau Eraill Llywodraeth Cymru* am fwy o fanylion.

Cylchoedd Grantiau

Cwestiwn Ymchwil

P3. A yw amlder y cylchoedd grantiau wedi cefnogi neu rwystro Cynllun y Dreth Gwarediadau yn ei dasg o gyflawni ei nodau, yn benodol yn y broses ymgeisio?

- 4.66 Roedd cynrychiolwyr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ag agwedd gadarnhaol at y patrwm presennol o 2 gylch grantiau y flwyddyn ar gyfer prif grantiau ac un cylch grantiau ar gyfer grantiau mwy. Mae pob cyfnod ymgeisio yn agored am 3 mis (roedd cynrychiolwyr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn nodi bod hyn yn un o ofynion Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector o dan Gynllun y Trydydd Sector) gyda'r cyfnod asesu a dyfarnu yn cymryd 12 wythnos pellach. O fewn y cyfnod 12-wythnos hwn, roedd ceisiadau'n cael eu hasesu ar gyfer cymhwysedd, eu sgorio a'u hasesu, eu hansawdd yn cael ei wirio, eu cyflwyno i'r panel am sylwadau a'u hasesu mewn cyfarfod o'r panel cyn hysbysu'r ymgeiswyr o'r canlyniad.²⁴ Teimlad Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru oedd bod 2 gylch o gyllido yn cydreddeg yn dda â blwyddyn galendr ac yn gydnaws â phrosiectau dibynnol, ar y tymhorau (er enghraifft, plannu coed, sydd fwyaf effeithiol yn ystod misoedd y gaeaf) trwy eu galluogi i ymgeisio a chychwyn ar amser addas. Roedd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn nodi hefyd fod 2 gylch ceisiadau mewn blwyddyn yn golygu y gallai ymgeiswyr aflwyddiannus ystyried adborth ac ailgyflwyno'n gyflym.
- 4.67 Yn yr arolwg, dywedodd 2 allan o'r 4 cynrychiolydd cynghorau gwirfoddol sirol fod y nifer iawn o gylchoedd grantiau y flwyddyn, a dywedodd 2 ymatebydd y dylai fod mwy o gylchoedd grantiau mewn blwyddyn. Nid oeddent yn cynnig unrhyw farn ar pam fod mwy o gylchoedd grantiau yn ddymunol. Yn wahanol i farn Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (paragraff 4.66) a gredai bod y cylchoedd cyllido â chydawnsedd dda â phrosiectau dibynnol ar y tymhorau, dywedodd un ymgeisydd

²⁴ Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (2021). [Canllawiau i Ymgeiswyr Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi](#) (Cyrchwyd 13 Ionawr 2022)

aflwyddiannus nad oedd y patrwm cylchoedd grantiau presennol yn gydnaws iawn â cheisiadau ar ddechrau blwyddyn am brosiect roedd angen iddo gychwyn yn y gwanwyn. Gwnaed y sylw hwn ynghylch prosiect garddio lle gwnaed cais am y cylch cyllido a wnaed gyntaf yn y flwyddyn ddigwydd tan ddiwedd mis Ebrill. Unwaith y gwnaed y penderfyniad dyfarnu, roedd angen gwaith ychwanegol i drefnu'r prosiect a sicrhau contractwr. Roedd hyn yn golygu i'r gwaith gychwyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn nag oedd yn ddelfrydol.

- 4.68 Dylid nodi nad yw dyddiadau cychwyn prosiectau yn ddibynnol ar ffenestri cyllido, gydag ymgeiswyr yn gallu gosod eu graddfeydd amser eu hunain ar gyfer prosiectau. Fodd bynnag, lle bo prosiectau yn ddibynnol ar y tymhorau ac yn dymuno cychwyn yn gynnar yn y flwyddyn efallai nad yw cylch cyllid cyntaf y flwyddyn yn gydnaws iawn â'r prosiectau hynny.²⁵
- 4.69 Mewn cyfweiliad, roedd cynrychiolwyr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn trafod bod, ar sawl achlysur, ymgeiswyr wedi gwneud cais mewn camgymeriad am grant o arwyddocâd cenedlaethol pan oeddent yn golygu ymgeisio am y prif grant, a oedd yn peri oedi gan nad oedd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn gallu trosglwyddo eu ceisiadau. Roedd hyn yn gysylltiedig â'r system ymgeisio e-Dendro flaenorol ac ni chredir bod hyn wedi digwydd yn y flwyddyn ddiwethaf. Yn yr un modd, yn yr ail gylch, cafodd prosiect o arwyddocâd cenedlaethol ei gyflwyno mewn camgymeriad fel cais am brif grant a wnaeth arwain at grant yn cael ei ddyfarnu i brosiect o arwyddocâd cenedlaethol ond ar lefel o gyllid a oedd yn gyson â phrosiect prif grant.

²⁵ Dylid nodi na all ymgeiswyr geisio am gyllid y Cynllun mewn un flwyddyn i'w ddefnyddio yn y flwyddyn wedyn.

5. Canfyddiadau Allweddol: Adolygiad o'r Effaith

- 5.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno'r canlyniadau a'r effeithiau sy'n deillio o Gynllun y Dreth Gwarediadau law yn llaw â thrafod y graddau y mae'r Cynllun wedi cefnogi nodau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â 3 thema'r Cynllun.
- 5.2 Mae natur canol-tymor yr adolygiad hwn yn golygu na fydd canlyniadau ac effeithiau'r Cynllun wedi cael eu gwireddu'n llawn. Yn ogystal, mae cynnydd y Cynllun tuag at y 17 o ddangosyddion perfformiad allweddol diwygiedig²⁶ (a nodir yn Nhabl 5-1, Tabl 5-2, Tabl 5-3 a Thabl 5-4 yn yr adrannau canlynol) yn seiliedig ar ddata o brosiectau a gwblhawyd (ac nid yw'n cynnwys prosiectau sy'n dal ar waith). Felly, nid ydynt yn gwbl gynrychioliadol. Gellir dweud yr un peth am y canlyniadau a'r effeithiau a ddaeth i'r amlwg o'r ymchwil uniongyrchol sy'n gyffredinol benodol i brosiectau penodol. Mae'r 55 o ddangosyddion perfformiad allweddol gwreiddiol, y targedau a chynnydd at fis Mehefin 2021 ar gael yn Atodiad C. Nodir nad yw dim un o'r targedau'n anelu at ddyddiad cwblhau penodol.
- 5.3 Fel y trafodwyd yn Adran 3 (paragraff 3.22), yn sgil anawsterau cyrraedd rhanddeiliaid yr effeithiwyd yn uniongyrchol arnynt gan y Cynllun (gan gynnwys cymunedau lle'r oedd prosiectau ar waith), roedd yn anodd penderfynu ar effeithiau llawn prosiectau y tu hwnt i'r dangosyddion perfformiad allweddol. Mae defnyddio dangosyddion perfformiad allweddol i ddeall effeithiau cyfannol hefyd yn gyfyngedig yn ei hanfod (paragraff 3.20). Yn sgil cwmpas llai y dangosyddion perfformiad allweddol, mae'n annhebygol fod yr holl effeithiau sy'n cwmpasu themâu cyffredinol y Cynllun wedi cael eu cipio'n ddigonol o ganlyniad.

Cynnydd tuag at Dargedau Dangosyddion Perfformiad Allweddol

- 5.4 Roedd Llywodraeth Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, a deiliaid grantiau yn pwysleisio'r canlyniadau a'r effeithiau cadarnhaol a wireddwyd o ganlyniad i brosiectau a gyllidwyd gan y Cynllun. Cyflwynir y canlyniadau a'r effeithiau hyn yn yr adrannau canlynol yn ôl 3 thema'r Cynllun.

²⁶ Fel y trafodwyd ym mharagraff 4.45, cafodd y dewis gwreiddiol o 55 o ddangosyddion perfformiad allweddol eu diwygio i 17. Caiff cynnydd Cynllun y Dreth Gwarediadau tuag at y 55 o ddangosyddion perfformiad gwreiddiol ei gyflwyno yn Atodiad C.

Cwestiynau Ymchwil

11. Beth oedd canlyniadau ac effeithiau Cynllun y Dreth Gwarediadau ar yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt gan weithrediadau tirlenwi?

- I1A Beth oedd effeithiau uniongyrchol cadarnhaol a negyddol y Cynllun?

Cynnydd tuag at Dargedau Dangosyddion Perfformiad Allweddol – Bioamrywiaeth

5.5 Mae Tabl 5-1 yn nodi cynnydd tuag at y 6 dangosydd perfformiad allweddol sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth. Mae hyn yn cofnodi'r cynnydd cronol a wnaed gan brosiectau a gyllidwyd tuag at gyflawni'r dangosyddion perfformiad allweddol cronol a nodwyd yn eu ceisiadau am gyllid. Er bod cynnydd tuag at rai targedau ymhellach yn ôl na'i gilydd (megis 'safleoedd o rywogaethau estron a reolwyd' o gymharu â'r 'nifer o gynefinoedd a gafodd eu cynnal, eu hadfer neu eu gwella'), mae'n werth nodi mai adolygiad canol tymor o'r Cynllun yw hwn ac nad oes disgwyl i'r targedau hyn fod wedi eu cyrraedd ar y cam hwn. Roedd cynnydd sylweddol tuag at y set ehangach o 13 o ddangosyddion perfformiad allweddol bioamrywiaeth (a nodir yn Atodiad C), gyda dros 142 o gynefinoedd arbenigol â blaenoriaeth Adran 7 wedi eu creu, eu rheoli neu eu gwella (o gymharu â'r targed o 216) ac roedd 6 o'r targedau yn fwy na 50% cyflawn. Gwnaed cynnydd cyfyngedig tuag at rai targedau, megis rheoli 45 o safleoedd rhywogaethau estron yn erbyn targed o 852 o safleoedd.

Tabl 5-1: Cynnydd tuag at Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Bioamrywiaeth

Teitl y Targed	Uned Mesur a Hunan- adroddwyd	Swm Targed	Dangoswyd
Cynnwys a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i orseddu a chadarnhau bioamrywiaeth	Nifer o fentrau	6,834	1,471
Gwella amodau i helpu rhywogaethau cynhenid, pryfed peillio a rhoi cyfleoedd i blannu o'r newydd	Nifer o fentrau	696	186
Safleoedd o rywogaethau estron goresgynnol a reolwyd	Nifer o fentrau	852	45
Safleoedd o blanhigion peillwyr-gyfeillgar a grewyd fel rhan o raglen ehangach i reoli cynefinoedd	Nifer o fentrau	219	107
Adfer, cynnal a gwella cynefinoedd naturiol	Nifer o fentrau	579	166
Coetir a reolwyd	Nifer o fentrau	1,337	300

Ffynhonnell: Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (2021). *Dangosyddion Perfformiad Allweddol Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi – Yr Holl Ddyfarniadau.*

5.6 Mae effaith y prosiectau a gyllidwyd gan y Cynllun yn mynd y tu hwnt i'r dangosyddion perfformiad allweddol a adroddir. Roedd deiliaid grantiau yn rhagweld y waddol a adewir gan y Cynllun. Y rheswm allweddol dros y waddol, yn ôl y grŵp hwn o randdeiliaid, oedd cymunedau yn chwarae mwy o ran yn sgil rhannu gwybodaeth, datblygu sgiliau a gwella dealltwriaeth ynghylch materion bioamrywiaeth. Mae'r waddol hon yn ymestyn y tu hwnt i brosiectau unigol, fel y dangosir gan y 2 enghraifft isod.

- Dywedodd un deiliad grant eu bod wedi cysylltu peillwyr ar draws ardal llawer ehangach trwy gysylltu â mentrau eraill.
- Esboniodd deiliad grant arall:
“Mae rhai o'r dulliau ymgynghori a ddatblygwyd yn ystod y prosiect wedi cael eu mabwysiadu gan sefydliadau eraill sy'n gweithio ar brosiectau adfer

rhywogaethau tebyg, sydd o fudd i'r rhywogaeth y pryderir amdano yn ogystal â chynyddu cyfloedd i ymwneud â chymunedau lleol eraill.”

Cyfweliad â Deiliad Grant, 2021

- 5.7 Roedd rhanddeiliaid y cysylltwyd â hwy fel rhan o'r adolygiad hwn yn cytuno'n helaeth bod y Cynllun wedi cael effaith cadarnhaol ar fioamrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau i reoli coetiroedd, cadwraeth natur, cael gwared ar rywogaethau goresgynnol a gwella ac ehangu cynefinoedd (gan gynnwys cynefinoedd arbenigol â blaenoraeth Adran 7).
- 5.8 Er hynny, teimlai rhai o aelodau'r panel a gyfwelwyd y gellid integreiddio gwelliannau biodamrywiaeth yn well o fewn cwmpas prosiectau. Roeddent wedi sylwi ar gyfleoedd yn cael eu colli o fewn prosiectau a gyllidwyd o dan y thema gwelliannau amgylcheddol ehangach. Caiff rhai enghreifftiau eu trafod isod:
- Gallai sefydliadau sy'n ceisio gwella seilwaith cymunedol roi mwy o ystyriaeth i ddefnyddio atebion seiliedig ar natur neu o leiaf ystyried sut y gellid integreiddio gwelliannau i fioamrywiaeth i gwmpas eu prosiect.
 - Gallai cais prosiect olygu gwneud gwelliannau i faes parcio sy'n bod eisoes. Fodd bynnag, anaml y caiff enillion cyflym fel plannu coed neu blanhigion ar y safle, neu hyd yn oed blannu to gwyrdd, eu hystyried fel rhan o'r prosiect ehangach.

Cynnydd tuag at Dargedau Dangosyddion Perfformiad Allweddol – Lleihau Gwastraff

- 5.9 Mae Tabl 5-2 yn nodi cynnydd prosiectau'r Cynllun tuag at y 3 dangosydd perfformiad allweddol lleihau gwastraff.

Tabl 5-2: Cynnydd tuag at Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Lleihau Gwastraff

Teitl y Targed	Uned Mesur a Hunan- adroddwyd	Swm y Targed	Dangoswyd
Annog rhwystro, aildddefnyddio, adfer ac ailgylchu gwastraff	Nifer o fentrau	8,579	962
Annog a chefnogi dealltwriaeth i alluogi i wastraff gael ei weld fel adnodd	Nifer o fentrau	1,902	768
Lleihau gwastraff bwyd a chefnogi mentrau megis compostio	Nifer o fentrau	125	66

Ffynhonnell: Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (2021). *Dangosyddion Perfformiad Allweddol Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi – Yr Holl Ddyfarniadau.*

- 5.10 Mae cynnydd tuag at y set ehangach o 9 o ddangosyddion perfformiad allweddol penodol lleihau gwastraff (a nodir yn Atodiad C) wedi bod yn sylweddol. Rhagorwyd ar y targedau i gynhyrchu incwm, helpu pobl, dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi, ailgylchu a lleihau gwastraff. Fodd bynnag, cyfyngedig o hyd yw'r cynnydd tuag at y nifer o fentrau i annog ailgylchu (cyflawnwyd 11%).
- 5.11 Roedd Cynllun y Dreth Gwarediadau yn chwarae rhan bwysig mewn galluogi camau gweithredu 'o'r gwaelod i fyny' i greu economi gylchol. Mae wedi cyllido prosiectau sy'n deillio o'r gymuned gyda phwyslais ar gael gwared ar wastraff o safleoedd natur a threftadaeth, cynyddu gweithgarwch ynghylch ailgylchu a rheoli gwastraff mewn modd cywir i rwystro tipio anghyfreithlon, a chadw gwastraff draw o safleoedd tirlenwi trwy fentrau adnewyddu, atgyweirio ac ailddosbarthu (megis caffis atgyweirio a llyfrgelloedd pethau).

Cynnydd tuag at Dargedau Dangosyddion Perfformiad Allweddol – Gwelliannau Amgylcheddol Ehangach

- 5.12 Mae Tabl 5-3 yn dangos cynnydd prosiectau'r Cynllun tuag at y 5 dangosydd perfformiad allweddol diwygiedig gwelliannau amgylcheddol ehangach

Tabl 5-3: Cynnydd tuag at Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Gwelliannau Amgylcheddol Ehangach

Teitl y Targed	Uned Mesur a Hunan- adroddwyd	Swm y Targed	Dangoswyd
Dod â llecynnau diffaith a esgeuluswyd yn ôl i ddefnydd cymunedol	Nifer o fentrau	268	41
Creu a gwella dŵr a llecynnau gwyrdd cymunedol a chefnogi seilwaith wyrdd	Nifer o fentrau	172	81
Cynnal neu gwella cyfleusterau cymunedol, er enghraifft neuaddau cymunedol	Nifer o fentrau	104	41
Mesurau ynni adnewyddadwy a osodwyd	Nifer o fesurau a osodwyd	17	8
Mesurau effeithlonrwydd adnoddau a osodwyd	Nifer o fesurau a osodwyd	48	26

Ffynhonnell: Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (2021). *Dangosyddion Perfformiad Allweddol Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi – Yr Holl Ddyfarniadau*.

- 5.13 Mae Atodiad C yn nodi'r 22 o ddangosyddion perfformiad allweddol y mesurir gwelliannau amgylcheddol ehangach yn eu herbyn. Mae cynnydd rhesymol (dros 30%) wedi cael ei wneud tuag at y mwyafrif o'r targedau (14 allan o 22), gyda 4 targed a gyrhaeddwyd neu y rhagorwyd arnynt; rhagorwyd dros 1400% ar y targed o grwpiau neu bobl sy'n defnyddio cyfleusterau newydd. Ar y llaw arall, roedd llai o gynnydd tuag at ddangosyddion perfformiad allweddol eraill, gyda 24 o gyfleusterau awyr agored wedi eu creu (2% o gynnydd), 88 o lecynnau gwyrdd wedi eu creu (8% o gynnydd) neu eu gwella a 41 o fentrau i ddod â llecynnau diffaith a esgeuluswyd yn ôl i ddefnydd (15% o gynnydd).
- 5.14 Mae'r thema hon yn fwiadol eang er mwyn caniatáu'r rhyddid i sefydliadau benderfynu pa gamau fyddai'n cyflawni'r buddion mwyaf i'w cymuned leol. O'r herwydd, roedd rhanddeiliaid yn tynnu sylw at amrywiaeth helaeth o effeithiau cadarnhaol. Er enghraifft: ychwanegu gwerth trwy wella hygyrchedd at gyfleusterau

(megis galluogi 6 o ysgolion cynradd i gymryd rhan mewn gwersi nofio lleol), datblygu atyniadau ymwelwyr, a gwella effeithlonrwydd adnoddau (trwy fentrau megis caffis atgyweirio).

- 5.15 Mewn cyfweiliadau, esboniodd un deiliad grant bod yr arbedion costau a wireddwyd gan eu sefydliad yn dilyn gosod ffenestri gwydr dwbl wedi galluogi buddion ehangach o'u prosiect (a chipiwyd gan y dangosyddion perfformiad allweddol), gan gynnwys talu isafswm cyflog byw i'w staff.
- 5.16 Roedd deiliaid grantiau yn nodi mewn arolygon bod datblygu cyfleusterau awyr agored wedi cael effaith cadarnhaol neilltuol o fawr yn sgil COVID-19. Roedd un ymatebydd yn nodi 'ers i COVID-19 daro, mae pwysigrwydd cael llecynnau braf yn yr awyr agored ar gyfer ymgynnull cymdeithasol a gweithgareddau saffach wedi cynyddu'n fawr ac wedi gwneud yr ardd synhwyraidd a'r ystafell ddsbarth awyr agored yn adnodd llawer mwy hanfodol nag y gellid bod wedi ei ragweld.'

Canlyniadau ac Effeithiau Ychwanegol

- 5.17 Mae Tabl 5-4 yn nodi cynnydd y Cynllun tuag at y 3 dangosydd perfformiad allweddol cyffredinol y dylai pob prosiect broffilio o leiaf un.

Tabl 5-4: Cynnydd tuag at Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Cyffredinol

Teitl y Targed	Uned Mesur a Hunan- adroddwyd	Swm y Targed	Dangoswyd
Nifer o gymunedau'n elwa o gyllid y Cynllun	Nifer	1,168	491
Sgyrsiau/cyflwyniadau/digwyddiadau ennyn diddordeb a gynhaliwyd	Nifer	2,729	1,089
Nifer o bobl sy'n ymwneud ac yn cael eu hysbysu (gan gynnwys gwirfoddolwyr ac aelodau cymunedol)	Nifer	543,606	1,088,983

Ffynhonnell: Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (2021). *Dangosyddion Perfformiad Allweddol Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi – Yr Holl Ddyfarniadau.*

- 5.18 Cafodd set o 11 o ddangosyddion perfformiad allweddol cyffredinol perthnasol i bob prosiect eu cynnwys yn y set wreiddiol o 55 ar gyfer y Cynllun (nodir yn Atodiad C).

Mae cynnydd o 40% a mwy wedi cael ei wneud tuag at bob un o'r 11 o dargedau cyffredinol, gydag arbedion allyriadau nwyon tŷ gwydr ac ennyn diddordeb rhanddeiliaid yn rhagori ar eu targedau.

- 5.19 Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn mynegi yn ystod cyfweiliadau fod Cynllun y Dreth Gwarediadau yn gydnaws iawn â pholisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Rhoddwyd barn wahanol gan gynrychiolwyr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, a oedd yn mynegi pryder bod gormod o bwyslais yn cael ei roi ar y cydnawsedd hwn ar draul cyfleu buddion ehangach y Cynllun i'r cyhoedd yn gyffredinol.
- 5.20 Roedd cynrychiolwyr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn sylwi ar y buddion ehangach i unigolion, cymunedau, a llesiant (trafodir ymhellach yn Adran 6.2). Fodd bynnag, nid oedd y buddion hyn yn cael eu cipio bob amser yn y metrigau ehangach a'r adrodd ynghylch y prosiectau. Yn ogystal, er bod cynrychiolwyr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn cydnabod nad yw aelodau cymunedol bob amser yn gallu cyrraedd y dangosyddion perfformiad allweddol sy'n ymwneud ag amcanion polisi (megis targedau lleihau CO₂), roeddent yn nodi nad yw hynny'n golygu bod prosiect yn aflwyddiannus.
- 5.21 Er bod yr effeithiau uchod wedi cael eu gwahanu i'r 3 thema unigol, ni ddylid ystyried yr effeithiau fel pe baent mewn seilo. Roedd deiliaid grantiau yn pwysleisio mewn cyfweiliadau bod eu prosiectau wedi cyflawni effeithiau cadarnhaol mewn meysydd y tu hwnt i'w thema. Er engraifft, fe wnaeth gwella cyfleusterau mewn canolfan hamdden dan ofal y gymuned (rhan o'r thema gwelliannau amgylcheddol ehangach) arwain at blannu coed a phlanhigion ar y safle a'r bwriad i gynnal trafodaethau gyda'u hawdurdod lleol ar ailgylchu i greu cysylltiadau â'r safle tirlenwi lleol.

Effeithiau Negyddol

- 5.22 Ni chanfu'r ymchwil hwn ddim effeithiau negyddol cysylltiedig â'r prosiectau yn y Cynllun oddi wrth adborth rhanddeiliaid. Dywedodd cynrychiolwyr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru:

“Ni allwn feddwl am ddim un prosiect sydd wedi cael effaith amgylcheddol negyddol.”

Cyfweliad â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, 2021

- 5.23 Ni ellir dweud i sicrwydd na fu dim effeithiau negyddol cysylltiedig â'r Cynllun, dim ond nad adroddwyd dim byd o'r fath gan y rheini a oedd yn cymryd rhan yn yr ymchwil.

Cefnogaeth i Flaenoriaethau Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru

Cwestiwn Ymchwil

12. Sut mae'r grant wedi cefnogi nodi Llywodraeth Cymru o safbwynt Bioamrywiaeth trwy'r prosiectau mae wedi'u cyllido?

- 5.24 Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn nodi bod creu ecosystemau cadarn a rhwydweithiau ecolegol a hyrwyddir trwy Gynllun y Dreth Gwarediadau yn uniongyrchol gydnaws ag uchelgeisiau'r Polisi Adnoddau Naturiol²⁷ yn ogystal â'r Rhaglen Lywodraethu (2016 i 2021).²⁸
- 5.25 Gellir nodi cyfraniadau'r Cynllun i nodau'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur²⁹ lle mae prosiectau wedi cynyddu gwybodaeth ac uwchsgilio unigolion gyda phwyslais ar fioamrywiaeth (megis prosiectau gerddi addysgiadol mewn ysgolion bwyd a choedwigoedd trefol cynaliadwy). Yn ogystal, roedd ymyraethau wedi eu targedu i helpu adfer rhywogaethau a gwarchod cynefinoedd hefyd yn gydnaws â'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur. Mae'r rhain yn cynnwys gwella amodau ar gyfer ffyngau, datblygu cynefinoedd gwlyptiroedd a rhostiroedd, a chyflwyno bele'r coed i gadw wiwerod llwyd o dan reolaeth.
- 5.26 Gellir dangos cyfraniadau'r Cynllun i'r Polisi Adnoddau Naturiol trwy'r prosiectau sydd wedi cyflawni atebion seiliedig ar natur. Un o nodau'r polisi yw cynyddu brigdwf. Gellir gweld cydnawsedd â'r nod hwn ar draws sawl prosiect, megis datblygu'r Coedwigoedd Bach (coedir cynhenid trwchus, sy'n tyfu'n gyflym)³⁰,

²⁷ Llywodraeth Cymru (2017). [Y Polisi Adnoddau Naturiol](#).

²⁸ Llywodraeth Cymru (2016). [Symud Cymru Ymlaen 2016-2021](#).

²⁹ Llywodraeth Cymru (2016). [Cynllun Gweithredu Adfer Natur](#).

³⁰ Cafodd y Cynllun Coedwigoedd Bach ei gychwyn gan Cadwch Gymru'n Daclus a'i gyllido gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Rhaglen [Coedwig Genedlaethol i Gymru](#)

adfywio coetiroedd ffawydd prin neu greu parciau natur. Roedd prosiectau hefyd yn cefnogi nod y polisi o gynyddu seilwaith gwyrdd mewn ardaloedd trefol ac o'u cwmpas. Er enghraifft, trwy greu llecyn gwyrdd o fewn ward Peblig yng Nghaernarfon (gan gynnwys lleiniau o flodau gwylt), gosod wal werdd yn Hwlfordd ac adfywio Camlas Abertawe.

- 5.27 Mae tystiolaeth fod y Cynllun wedi cefnogi nodau'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio.³¹ Mae wedi cyllido prosiectau sydd wedi datblygu cynefinoedd amrywiol a chysylltiedig i gefnogi pryfed peillio. Mae prosiectau o'r fath yn cynnwys datblygu coridorau natur trwy adfer gwrychoedd, gweithredu gerddi dan arweiniad y gymuned, a chreu clwb garddio a oedd yn cynyddu diiddordeb a dealltwriaeth y cyhoedd o fioamrywiaeth (gan gynnwys rôl pryfed peillio).
- 5.28 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth ac, wrth wneud hynny, hyrwyddo cadernid ecosystemau. Dyma yw pwyslais, uniongyrchol neu anuniongyrchol, prosiectau a gyllidir o dan y thema 'bioamrywiaeth'. Mae enghreifftiau yn cynnwys adfer, gwella, a rheoli gwarchodfeydd natur o fewn dalgylch afon Gwy; gwella cynefinoedd blaendraeth Bagillt mewn partneriaeth â'r gymuned leol; a chynnal arolwg hyd-llawn Afon Rheidol i ddewis a blaenoriaethu cynlluniau ar gyfer gwella cynefinoedd.

Cefnogaeth i Flaenoriaethau Lleihau Gwastraff Llywodraeth Cymru

Cwestiwn Ymchwil

13. Sut mae'r grant wedi cefnogi nodau Llywodraeth Cymru o safbwynt lleihau gwastraff?

- 5.29 Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru'n crybwyll yr angen i'r Cynllun ddilyn polisi a blaenoriaethau gwastraff Llywodraeth Cymru, gan fod cyllid y Cynllun yn deillio o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi.
- 5.30 Roedd swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru'n tynnu sylw at y buddion a gyflawnwyd o'r canolbwyntio deublyg ar ddargyfeirio gwastraff o

³¹ Llywodraeth Cymru (2013). [Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio](#).

safleoedd tirlenwi ochr yn ochr â lleihau gwastraff. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn esbonio bod gan Gymru eisoes gyfradd ailgylchu uchel ac yn ychwanegu bod y Cynllun yn edrych y tu hwnt i ailgylchu trwy annog arferion atgyweirio ac ailddefnyddiol Mae hyn yn unol â'r strategaeth Mwy na Ailgylchu.³² Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at fentrau fel y prosiect Caffi Trwsio Cymru. Nod y prosiect oedd lleihau gwastraff, rhannu sgiliau ymarferol, a chryfhau cymunedau trwy ddarparu canolfan leol i wirfoddolwyr drwsio eitemau fel dillad, nwyddau electronig cartref a beiciau. Ers derbyn cyllid y Cynllun, mae'r prosiect wedi ehangu i tua deg ar hugain o leoliadau ledled Cymru a chyfeirir ato yn y Rhaglen Lywodraethu fel enghraifft o gynllun mentro cymdeithasol arloesol.

- 5.31 Er mwyn sicrhau cydnawsedd prosiectau a gyllidir gan y Cynllun ag egwyddorion lleihau gwastraff, roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn esbonio bod arbenigwyr polisi perthnasol yn mynychu cyfarfodydd chwarterol gyda Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Yn y cyfarfodydd, caiff rhoddir cyflwyniadau byr i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i ddiweddarau eu gwybodaeth am gyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru.
- 5.32 Mae'r Cynllun wedi cefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ynghylch lleihau gwastraff i dirlenwi a chynyddu cyfraddau ailgylchu. Mae'r rhain yn themâu amlwg o fewn Symud Cymru Ymlaen, Ffyniant i Bawb,³³ a Tuag at Ddyfodol Diwastraff.³⁴ Gellir gweld y cydnawsedd hwn trwy brosiectau megis gweithredu 'llyfrgell pethau' (gwasanaeth benthyg cymunedol ar gyfer nwyddau cartref) i leihau gwastraff, ehangu Ail-lenwi Cymru (i annog a helpu pobl i fyw gyda llai o blastig a symud tuag at systemau ail-lenwi ac ailddefnyddio) a datblygu cynhyrchion hir oes i'r gymuned leol wedi eu gwneud o blastigau o'r môr.

³² Llywodraeth Cymru (2021). [Mwy nag Ailgylchu 2021](#)

³³ Llywodraeth Cymru (2019). [Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n effro i'r hinsawdd.](#)

³⁴ Llywodraeth Cymru (2019). [Tuag at Ddyfodol Diwastraff: ein strategaeth wastraff.](#)

Cefnogaeth i Flaenoriaethau Eraill Llywodraeth Cymru

Cwestiwn Ymchwil

13. Sut mae'r grant wedi cefnogi blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru?

- 5.33 Er bod aelodau o'r panel yn mynegi pryderon fod ymgeiswyr i'r Cynllun yn aml heb ystyried ffyrdd o gyflawni buddion cyfannol o'u prosiectau ac o fanteisio i'r eithaf arnynt (Adran 4), mae dadansoddiad o brosiectau a gyllidwyd gan y Cynllun (trwy adroddiadau monitro prosiectau) ochr yn ochr â pholisïau a deddfwriaeth ehangach Llywodraeth Cymru yn dangos bod effeithiau ehangach wedi eu cyflawni.
- 5.34 Fe wnaeth prosiectau'r Cynllun gyfraniadau at gyflawni Cymru *lewyrchus*, fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a gwireddu cymunedau gwledig llwyddiannus, cynaliadwy, yn unol â Symud Cymru Ymlaen. Roedd prosiectau'n rhoi cyfleoedd i wirfoddolwyr ddatblygu sgiliau a gwella'u cyflogadwyedd yn y dyfodol. Mae enghreifftiau yn cynnwys anfon gwirfoddolwyr ar gyrsgiau torwyr brws a helpu datblygu sgiliau atgyweirio. Roedd prosiectau hefyd yn cyfrannu at eu heconomi leol trwy gaffael nwyddau a gwasanaethau gan fusnesau lleol, crefftwyr a chyflenwyr adeiladu i gyflawni gwelliannau cymunedol. Roedd prosiectau lleihau gwastraff a oedd yn aiddosbarthu bwyd dros ben a galluogi defnyddwyr i leihau costau bwyd, yn ymestyn defnyddioldeb eitemau trwy gaffis a gwasanaethau trwsio, hefyd yn cefnogi ffyniant lleol. Roedd prosiectau hefyd yn cefnogi ynni cymunedol ac economi carbon isel (hefyd yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a Ffyniant i Bawb) trwy gamau a oedd yn cynnwys gweithredu system wresogi effeithlon o ran ynni ac inswleiddio mewn pencadlys Sgowtiaid a chanolfan hamdden dan ofal y gymuned.
- 5.35 Mae nod *cydnherthedd* Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn canolbwyntio ar gynnal a gwella bioamrywiaeth, yr amgylchedd naturiol a sicrhau gweithrediad ecosystemau. Roedd prosiectau'n gwneud hyn trwy fentrau plannu coed, garddio er lles byd natur a thyfu bwyd ac iddo effaith isel, gyda phob un o'r rhain yn cyfrannu at fioamrywiaeth wrth wella'r amgylchedd lleol. Yn ogystal, roedd prosiectau'n hwyluso cynyddu gwybodaeth ac ymddiddori mewn byd natur, gydag enghreifftiau megis cyflwyno cyrsiau ar fioamrywiaeth a chrefftau gan ddefnyddio deunyddiau o'r goedwig.

- 5.36 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Symud Cymru Ymlaen (2016 i 2021) ill dau yn nodi'r amcan o *wella llesiant corfforol a meddyliol*. Roedd prosiectau'r Cynllun yn cyfrannu'n amlwg at y nod hwn trwy gynig cyfleoedd am ffyrdd llesol ac iach o fyw trwy chwaraeon a gweithgareddau megis pêl-droed, nofio, rygbi a dringo. Roedd prosiectau bioamrywiaeth, megis rheoli gwarchodfeydd natur, yn gwneud cyfraniadau at iechyd a llesiant lleol trwy godi ymwybyddiaeth a gwella mynediad at lecynnau gwyrdd ar gyfer gweithgareddau hamdden awyr agored. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys darparu canllawiau ar gyfer paratoi bwyd iach, fel rhan o brosiect i leihau gwastraff bwyd, a oedd yn helpu defnyddwyr i gael dietau iachach a rhoi cyfleoedd am gysylltiad dynol i drechu ynysu ac unigrwydd.
- 5.37 Roedd prosiectau ac iddynt y bwriad o gefnogi *cymunedau cydlynus*, fel yr amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Ffyniant i Bawb. Roedd prosiectau, fel prosiect lleihau gwastraff bwyd, yn ei gwneud yn ofynnol i wirfoddolwyr cymunedol weithio gyda busnesau lleol i gasglu bwyd dros ben a gweithio gyda'i gilydd i gyflawni prosiect er budd cymuned. Mewn prosiect arall, cefnogwyd cydlyniant cymunedol trwy ddod ag adeilad a esgeuluswyd yn ôl i ddefnydd yn Rhondda Cynon Taf i ddarparu lle ar gyfer creadigrwydd cymunedol.
- 5.38 Roedd prosiectau'r Cynllun yn helpu cyflawni tuag at *Gymru gyfartal*, fel yr amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Ffyniant i Bawb, mewn nifer o ffyrdd. Yn aml, roedd canlyniadau prosiectau â'r nod o wella tegwch a mynediad, er enghraifft, roedd gwella llwybr bryngaer yng Ngheredigion yn ehangu mynediad at weithgarwch hamdden awyr agored i bobl a allai fod wedi'i chael yn anodd o'r blaen. Roedd prosiectau'n cynig cyfleoedd gwirfoddoli ac iddynt y bwriad o gyfrannu at Gymru sy'n fwy cyfartal, fel Caffi Trwsio yn cynig cyfleoedd i ffoaduriaid o Syria i ddatblygu sgiliau iaith Saesneg a sgiliau trwsio.
- 5.39 Roedd prosiectau'n cefnogi *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu*, fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Symud Cymru Ymlaen, trwy ddeunydd marchnata Cymraeg a sesiynau cyd-drafod trwy'r Gymraeg. Roedd rhai prosiectau'n galluogi mwy o ymwneud â diwylliant Cymreig trwy hyrwyddo a dathlu safleoedd hanesyddol Cymru megis trwy glirio llystyfiant i rwystro henebion rhag dirywio neu arddangos cloddiadau archaeolegol.

5.40 Roedd prosiectau'r Cynllun yn cefnogi'r amcan o *Gymru gyfrifol ar lefel fyd-eang*, sy'n ceisio sicrhau bod camau i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, hefyd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang fel y pennir yn Ffyniant i Bawb a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd prosiectau'r Cynllun i leihau gwastraff, megis oergelloedd cymunedol, dosbarthu bwyd dros ben a Chaffis Trwsio yn hyrwyddo ymddygiadau cynaliadwy a defnydd effeithlon o adnoddau. Roedd prosiectau hefyd yn codi ymwybyddiaeth o faterion byd-eang ac yn ennyn diddordeb ynddynt, er enghraifft roedd City to Sea yn gweithio i leihau gwastraff ac annog ail-lenwi yng Nghaerdydd, gan hefyd ymdrin â phroblem fyd-eang llygredd plastig a seilio digwyddiadau o gwmpas Diwrnod Ail-lenwi'r Byd.

Ychwanegedd

Cwestiwn Ymchwil

Ychwanegedd. I ba raddau mae Cynllun y Dreth Gwarediadau wedi peri i brosiectau, a'u canlyniadau ac effeithiau dilynol, ddigwydd, na fyddai wedi digwydd fel arall?

- 5.41 Yn ystod arolygon a chyfweliadau, gofynnwyd i ddeiliaid grantiau ac ymgeiswyr aflwyddiannus ynghylch y gwerth ychwanegol a ddarparwyd gan y Cynllun. Roedd hyn yn canolbwyntio ar sut, pe na bai cyllid y Cynllun ar gael, y byddai prosiectau'r ymgeisydd wedi datblygu (gan gynnwys newidiadau posibl i thema, lleoliad, cyllideb a chwmpas) ac wedi cael ei gyllido.
- 5.42 O ran ymgeiswyr aflwyddiannus, dywedodd 1 ymatebydd a gyfwelwyd a 2 o 7 o'r rhai a arolygwyd, nad oedd eu prosiect wedi gallu mynd yn ei flaen yn absenoldeb cyllid y Cynllun. Ar y llaw arall, dywedodd 1 ymgeisydd aflwyddiannus a gyfwelwyd a 5 o'r saith o ymatebwyr a arolygwyd fod eu prosiect wedi mynd yn ei flaen heb gyllid y Cynllun. Dywedodd un ymatebydd fod hyn o ganlyniad i'w prosiect fod wedi sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor trwy weithredu 2 Siop Hinsawdd sy'n ailgylchu ac ailwerthu nwyddau cartref a chyfrannu'r enillion at fenter dal a storio carbon trwy blannu coed yn Kenya. O'r 5 ymatebydd i'r arolwg yr aeth eu prosiectau ymlaen, ychwanegodd 2 fod elfennau o'u prosiectau angen newidiadau yn absenoldeb cyllid y Cynllun. Roedd angen y newidiadau hyn yn sgil cyllideb is (yn

arwain at leihau cwmpas y prosiect) a COVID-19 yn ysgogi'r angen am gadw pellter cymdeithasol.

- 5.43 O ran deiliaid grantiau, dim ond un ymatebydd i'r arolwg a gredai y byddai eu prosiect wedi parhau fel y bwriadwyd heb gyllid Cynllun y Dreth Gwarediadau. Ar y llaw arall, teimlai 9 o'r 19 o ymatebwyr na fyddai eu prosiect wedi gallu parhau heb gyllid y Cynllun (trafodir y rhesymau hyn ymhellach yn 5.46 i 5.47). Roedd ymatebwyr eraill i arolwg y deiliaid grantiau yn esbonio y byddai, heb gyllid y Cynllun, angen newidiadau i'w prosiectau gan gynnwys cwmpas (6 o ymatebwyr), cyllideb (7 o ymatebwyr), a ffynhonnell cyllid (8 o ymatebwyr). Ymddengys y ffigurau hyn yn uchel o gofio'r canfyddiadau a gyflwynir ym mharagraff 5.42. Fodd bynnag, mae meintiau bach y samplau ar gyfer yr arolygon hyn yn golygu na ddylid gor-ddadansoddi patrymau o'r fath yn y canfyddiadau.
- 5.44 Roedd ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus, yn rhai a gyfwelwyd ac yn rhai a arolygwyd, yn ogystal â swyddogion Llywodraeth Cymru a gyfwelwyd, yn nodi ffynonellau eraill o gyllid gan gynnwys:

- Cronfa Cadernid Economaidd
- Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
- Cronfa Cymunedau'r Arfordir
- ENRaW (Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant)
- Lleoedd Lleol ar gyfer Natur
- Cynllun Rheoli Cynaliadwy
- Cynllun Grant Gwirfoddoli Cymru
- Sefydliad Waterloo
- Cyllid preifat

Fodd bynnag, roedd cynrychiolwyr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn amheus o'r graddau y gellid cymharu'r ffynonellau cyllid hyn. Ailadroddwyd hyn gan swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn nodi nad oedd y mwyafrif o'r ffynonellau hyn yn cael eu gyrru gan ddiben penodol i wella cymunedau lleol, a'u bod o ganlyniad yn amherthnasol i brosiectau arfaethedig y Cynllun. Fel y dywedodd un deiliad grant:

“Mae cyn lleied [o grantiau] yn cyllido grwpiau cymunedol felly mae’r ffaith fod Cynllun y Dreth Gwarediadau yn caniatáu grwpiau cymunedol i ymgeisio wedi bod yn wych.”

Ymatebydd i’r Arolwg Deiliaid Grantiau, 2021

- 5.45 Ar draws y sector gwirfoddol, teimlai cynrychiolwyr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru fod diffyg sylweddol o gyllid ar gael i brosiectau cymunedol a oedd yn canolbwyntio’n benodol ar yr amgylchedd. Felly, roeddent yn credu bod llawer o brosiectau a gyllidwyd na fyddent wedi digwydd heb y Cynllun.
- 5.46 Yn ogystal, dywedodd un deiliad grant fod anawsterau wrth ymgeisio am ffynonellau eraill o gyllid yn wir hefyd am brosiectau sy’n canolbwyntio ar fioamrywiaeth. Roeddent yn credu bod eu prosiect – a oedd yn canolbwyntio ar adfer, gwella a rheoli gweirglodd hanesydd – yn annhebygol o fod wedi derbyn cyllid o grant amgylcheddol / bioamrywiaeth yn sgil ei ddiffyg dynodiad na gwarchodaeth swyddogol o safbwynt cadwraeth.
- 5.47 Roedd deiliaid grantiau eraill mewn cyfweiliadau yn crybwyll mwy o gystadleuaeth am ffynonellau eraill o gyllid a lleihad yn y cyllid a dderbyniwyd (o gymharu â Chynllun y Dreth Gwarediadau). Teimlai un deiliad grant fod y cysylltiad daearyddol rhwng y Cynllun a phrosiectau a gyllidwyd (o safbwynt safleoedd tirlenwi lleol yn helpu cymunedau lleol) yn gwneud canlyniadau prosiectau yn fwy lleol nag y byddid wedi’i gyflawni o ffynonellau cyllid eraill. Roedd swyddog o Lywodraeth Cymru yn cyfeirio at hyn, gan ddweud bod y Cynllun yn:

“Haws ei gyrraedd, llai biwrocraidd, ac wedi’i dargedu’n benodol mewn ardaloedd ac iddynt anfantais [o’i gymharu â ffynonellau eraill o gyllid].”

Cyfweiliad â Llywodraeth Cymru, 2021

6. Canfyddiadau Allweddol: Adolygiad o Werth am Arian

- 6.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau allweddol yr adolygiad o werth am arian. Mae'r adolygiad yn ymdrin â chostau Cynllun y Dreth Gwarediadau hyd yma, gan gynnwys cyfanswm yr arian grant a ddyfarnwyd a chostau gweinyddol. Mae'r adolygiad hefyd yn cynnwys y buddion a ddeilliodd o'r Cynllun, ar lefel y Cynllun ac ar lefel prosiectau (ar gyfer 9 o brosiectau a ddewiswyd lle mae'r buddion wedi cael eu cyflawni yng Nghymru). Mae'r adolygiad hefyd yn nodi pa randdeiliaid a dderbyniodd fuddion ac mae'n rhoi cymarebau cost a budd y Cynllun a phrosiectau unigol. Yn ogystal, caiff cyllid ychwanegol a buddion ehangach a sicrhawyd eu nodi hefyd (lle bo'n berthnasol), a gwneir cymhariaeth gyda chynlluniau cyfatebol eraill yn y Deyrnas Unedig (Cronfeydd Cymunedau Tirlenwi Lloegr a'r Alban).
- 6.2 Roedd cwmplas yr adolygiad hwn yn cynnwys rhoi gwerth ariannol ar gostau 9 o brosiectau o'r Cynllun; amlinellu, mewn modd ansoddol, buddion 9 o brosiectau o'r Cynllun; a chymharu'r costau (â gwerth ariannol) a buddion (â gwerth anariannol) cynlluniau cyfatebol Lloegr a'r Alban ar lefel cynllun. Er nad oedd rhoi gwerth ariannol ar fuddion yn rhan o gwmpas yr adolygiad, mae gwerth ariannol rhai buddion wedi cael ei gynnwys er mwyn ychwanegu mwy o werth i'r adolygiad gwerth am arian ac adolygiad cyffredinol Llywodraeth Cymru o'r Cynllun.

Costau a Buddion y Cynllun

Cwestiwn Ymchwil

V1A. Beth yw costau ac arbedion y Cynllun?

- 6.3 **Costau'r Cynllun – Gwariant a Ddyrannwyd i Brosiectau (cylchoedd 1 i 5):** Bob blwyddyn, roedd gan y Cynllun gyllideb o £1.4 miliwn ar gyfer cyllido prosiectau a £100,000 at gostau gweinyddu. Yn ôl Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, gan y gall rhai prosiectau gael oes o 3 blynedd, caiff 80% o'r cyllid ei ddarparu ar gychwyn y prosiect a rhoddir yr 20% sy'n weddill pan gwblheir y prosiect. Caiff y cyllid ei strwythuro fel hyn oherwydd caiff grantiau Llywodraeth Cymru eu talu mewn ôl-daliadau. Gan y gall hyn achosi problemau llif arian sylweddol i grwpiau llai nad oes ganddynt gyllid craidd na modd o gynhyrchu incwm, roedd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn annog y dylid talu'r rhan helaethaf o lawer o'r grant rhag blaen

gydag adrodd interim trwy gydol y prosiect. Ar ddiwedd y prosiect, mae'n ofynnol i ddeiliad y grant gyflwyno adroddiad terfynol, pryd maent yn derbyn y 20% sydd ar ôl. Golyga hyn y gall fod angen, mewn unrhyw un flwyddyn, i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ddyfarnu grantiau y tu hwnt i'r gyllideb gyllido, ond ni fydd ond hyd at £1.4 miliwn yn cael ei dalu allan mewn blwyddyn. Wrth i'r prosiectau mwy hirdymor ddatblygu, bydd y taliadau terfynol 20% hefyd yn dod allan o'r dyraniad o £1.4 miliwn ar gyfer pob blwyddyn.

- 6.4 Rhwng cychwyn y Cynllun (mis Ebrill 2018) a mis Hydref 2020, dyfarnwyd a dyrannwyd cyllid grant i 112 o brosiectau (gan gynnwys 2 grant o arwyddocâd cenedlaethol). Roedd gwariant a ddyranwyd i brosiectau yn dod i gyfanswm o £4.64 miliwn (mewn termau enwol). Dengys gwerthoedd o Dabl 6-1 mai'r swm cyfartalog (cymedrig) o arian grant o gymeradwywyd ym mhob cylch yn y 5 cylch cyntaf o gyllido oedd £928,307.

Tabl 6-1: Gwariant a ddyranwyd i brosiectau

Cylch cyllido	Blwyddyn	Arian grant a gymeradwywyd
Cylch 1	2018 to 2019	£1,006,716
Cylch 2	2018 to 2019	£ 728,631
Cylch 3	2019 to 2020	£ 719,674
Cylch 4	2019 to 2020	£ 848,860
Cylch 5	2020 to 2021	£ 1,336,805
Cyfanswm		£ 4,640,686

Ffynhonnell: Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (Dim dyddiad). Cylchoedd Dyfarniadau Grantiau 1 i 5, 2018-21.

- 6.5 Cost cyllido pob prosiect ar gyfer cylchoedd 1 i 5 yw £4.94 ar gyfer y 3 blwyddyn (Mai 2018 – Mehefin 2021) ers i'r Cynllun ddechrau (Tabl 6-2).

Tabl 6-2: Cyfanswm Cost Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, Mai 2018 i Fehefin 2021

Math o gost	Cost
Cyfanswm cyllid grant y cytunwyd arno (cylchoedd 1 i 5)	£ 4,640,686
Costau gweinyddu Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru / Cyngorau Gwirfoddol Sirol (£100,000 y flwyddyn)	£ 300,000
Cyfanswm costau'r Cynllun dros 3 blynedd	£ 4,940,686

Ffynhonnell: Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (Dim Dyddiad). Cylchoedd Dyfarniadau Grantiau 1-5, 2018-21. Gohebiaeth gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

- 6.6 **Costau'r Cynllun – Gwariant gwirioneddol hyd yma:** Mae gwariant a ddyrannwyd yn cyfeirio at swm y cyllid a ddyfarnwyd ac a ddyrannwyd gan y Cynllun i brosiectau – ac mae hyn yn ffurfio cyfanswm o £4.64 miliwn. Mae gwariant a ddyrannwyd yn wahanol i'r swm o wariwyd mewn gwirionedd hyd yma. Nid oedd gwariant gwirioneddol hyd yma ar lefel y Cynllun, fodd bynnag, ar gael. Dywedodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru fod prosiectau'n adrodd gwariant trwy adroddiadau gwariant unigol ond nad yw'r wybodaeth hon wedi ei chrynhai eto.
- 6.7 **Buddion y Cynllun:** Caiff buddion uniongyrchol – yn hytrach na rhai ychwanegol – a nodir gan ddeiliaid grantiau a holwyd ar gyfer eu prosiectau penodol eu rhestru yn Atodiad C. Noder bod y buddion uniongyrchol yn wahanol i fuddion ychwanegol, a gaiff eu trafod yn yr Adolygiad o'r Effaith (Adran 5).
- 6.8 **Buddion â gwerth ariannol:** I ateb y cwestiwn "A yw buddion y Cynllun yn gwrthbwysu'r holl gostau", rhaid i gostau'r Cynllun gael eu cymharu â'r buddion mae'r Cynllun wedi eu cyflawni. Rhoddir costau mewn gwerthoedd ariannol (£) ac felly i gymharu buddion yn erbyn costau mewn gwirionedd, rhaid i fuddion hefyd gael eu rhoi mewn gwerthoedd ariannol (£). Mae rhoi gwerth ariannol ar fuddion, fodd bynnag, yn ymarferiad anodd – gellir rhoi gwerth ariannol yn haws ar rai buddion nac eraill. Mae llawer o fuddion na ellir rhoi gwerth ariannol o gwbl iddynt mewn modd dibynadwy, yn sgil ffactorau megis nad yw'r buddion yn ddigon penodol, amwysedd ynghylch sut y caiff y buddion eu rhestru neu fesur, neu eu bod yn ansoddol eu natur.

- 6.9 Cafodd yr holl fuddion (neu ddangosyddion perfformiad allweddol) a restrir yn Nogfennaeth y Rhaglen a'r Adroddiadau Monitro eu dadansoddi i benderfynu pa fuddion y gellid rhoi gwerth ariannol iddynt a pha rai na ellid gwneud hynny. Cafodd wyth dangosydd perfformiad allweddol eu dewis i roi gwerth ariannol iddynt oherwydd bod dulliau rhoi gwerth ariannol iddynt eisoes ar gael yn y llenyddiaeth. Ni roddwyd gwerth ariannol fodd bynnag i'r 47 o ddangosyddion perfformiad allweddol eraill, am 2 brif reswm: naill ai a) mae diffyg dulliau rhoi gwerth ariannol ar gael yn y llenyddiaeth, neu b) nid oedd y dangosyddion perfformiad allweddol fel y'u rhestrwyd yn ddigon penodol ac ni ellid eu mesur hyd yn oed. Er enghraifft, nid yw dangosydd perfformiad allweddol sydd â "nifer o fentrau" neu "nifer o safleoedd" neu "nifer o ardaloedd" fel uned yn caniatáu ar gyfer mesur a rhoi gwerth ariannol o ganlyniad, gan y gall "mentrau" amrywio'n fawr iawn mewn graddfa.
- 6.10 Dengys Tabl 6-3 y buddion â gwerth ariannol a ddangoswyd ar gyfer yr 8 dangosydd perfformiad allweddol dros y cyfnod 3-blynedd rhwng Mai 2018 a Mehefin 2021.

Tabl 6-3: Buddion â Gwerth Ariannol

Dangosydd Perfformiad Allweddol	Uned Mesur a Hunan- adroddwyd	Dangoswyd	Buddion â gwerth ariannol a ddangoswyd
Allyriadau nwyon tŷ gwydr a arbedwyd ³⁵	Tunelli o CO ₂ e	34,790	£ 8,384,390
Incwm a gynhyrchwyd	£	214,484	£214,484
Nifer o swyddi a grewyd ³⁶	Nifer o swyddi	44	£3,691,459
Arbedion costau rhagamcanol	£	1,516,941	£1,516,941
Ymwelwyr a ddenwyd ³⁷	Nifer o ymwelwyr	518,865	£1,820,351
Coed cynhenid a blannwyd ³⁸	Nifer o goed	13,867	£13,543,422
Tunelli o wastraff a ddargyfeiriwyd o safleoedd tirlenwi ³⁹	Tunelli	25,536	£6,928,249
Tunelli o wastraff a ailgylchwyd	Tunelli	4,364	£1,158,380
		Cyfanswm	£37,257,677
		Cyfanswm ac eithrio swyddi a grewyd	£33,566,218

Ffynhonnell ffigurau 'a ddangoswyd': Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (Dim Dyddiad). Adroddiadau Monitro a Dogfennaeth y Rhaglen.

³⁵ I fesur yr arbedion mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n deillio o'r Cynllun, defnyddiwyd gwerth carbon canolog yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer y flwyddyn 2020, sef **£241/tCO₂e**.

³⁶ Rhoddwyd gwerth ariannol i swyddi trwy ddefnyddio cyflogau cyfartalog yng Nghymru. Enillion wythnosol gros canolrifol i oedolion yn gweithio'n llawn-amser yng Nghymru ym mis Ebrill 2020, yn ôl ystadegau swyddogol Llywodraeth Cymru, oedd £537.80.

³⁷ Cafodd hyn ei gyfrifo trwy ddefnyddio gwerthoedd fesul ymweliad o Gronfa Ddata Gwasanaethau ENCA. Tybiwyd mai'r dangosydd perfformiad allweddol oedd "nifer o ymweliadau" yn hytrach nag ymwelwyr a ddenwyd, lle mae pob ymweliad yn defnyddio gwerthoedd ymweliadau diwrnod hamdden (gydag amser teithio heb fod yn fwy na 60 munud), ar sail meta-ddadansoddiad. (Sen, A. et al (2014), Economic Assessment of the Recreational Value of Ecosystems: Methodological Development and National and Local Application. Environmental and Resource Economics) Mae cymryd gwerth cyfartalog i bob ymweliad â'r 6 math o gynefin yn rhoi gwerth cyfartalog o £3.51 yr ymweliad.

³⁸ Defnyddiwyd dull cyfrifo 'Metrig Bioamrywiaeth' Defra i drosi'r ffigur o 13,867 o goed cynhenid a blannwyd yn 56 hectar o goed trefol, sy'n cynrychioli 451 o unedau bioamrywiaeth a enillwyd. Cafodd pris cyfartalog o uned bioamrywiaeth o £30,000 ei ddefnyddio wedyn, a oedd yn ffigur seiliedig ar asesiad effaith enillion net bioamrywiaeth Defra, a gyfunwyd â data a gafwyd o drafodaethau Eunomia ag awdurdodau lleol mewn gwaith blaenorol..

³⁹ Mae gwaith blaenorol Eunomia i DG Environment wedi cyfrifo cost allanolion tirlenwi fel €316/tunnell, a gaiff ei gyfrifo fel £265/tunnell.

- 6.11 Roedd y dadansoddiad yn tybio bod y ffigur “Cyffredinol – Swyddi a grewyd” ar gyfer swyddi llawn-amser, parhaol. Fodd bynnag, heb wybodaeth a manylion pellach am y swyddi hyn, yn ymarferol, mae’n debygol y gallai cyfran sylweddol o’r swyddi hyn fod yn rhan-amser, neu’n swyddi dros dro a barhaodd am gyfnod o rai misoedd (yn hytrach na’r flwyddyn lawn neu 3 blynedd lawn). Felly, gall y gwerth ariannol o £3.69 miliwn fod yn or-amcangyfrif. Os tynnir y dangosydd perfformiad allweddol “Cyffredinol – Swyddi a grewyd” o’r ymarferiad rhoi gwerth ariannol cyffredinol hwn, yna mae cyfanswm y buddion â gwerth ariannol a ddangoswyd yn dod i £33.56 miliwn, fel y dangosir gan ail res y cyfansymiau uchod.
- 6.12 **Buddion heb werth ariannol:** Yn ogystal â’r buddion y rhoddwyd gwerth ariannol iddynt yn Nhabl 6-3, mae’r Cynllun wedi cyflawni amrywiaeth helaeth o fuddion (dangosyddion perfformiad allweddol na roddwyd gwerth ariannol iddynt, ond sydd â gwerth sylweddol er hynny, ac y dylid felly eu cynnwys o dan “buddion y Cynllun”. Caiff rhestr lawn y dangosyddion perfformiad allweddol eu rhestru yn Atodiad C.

Costau a Buddion Prosiectau Dethol

- 6.13 Cafodd naw o brosiectau eu dewis o’r 4 cylch cyntaf o gyllido (mis Ebrill 2018 i fis Hydref 2019) ar gyfer y dadansoddiad gwerth am arian. Cafodd dau brosiect eu dewis o bob thema, yn ogystal â 3 prosiect gyda themâu lluosog sy’n cynnwys bioamrywiaeth a gwelliannau amgylcheddol ehangach (1) a bioamrywiaeth a lleihau gwastraff a gwelliannau amgylcheddol ehangach (2).
- 6.14 I bob un o’r 5 categori o brosiectau, cyfrifwyd canolrif y dyfarniadau a ganiatawyd, a dewiswyd un prosiect llai (mewn maint) na’r canolrif hwn, ac un prosiect mwy (mewn maint) na’r canolrif hwn (ac eithrio ar gyfer y thema Bioamrywiaeth / Gwelliannau Amgylcheddol Ehangach lle dewiswyd 1 prosiect yn unig, o £47,099).
- 6.15 Ar gyfer y 9 o brosiectau, cafodd costau (â gwerth ariannol iddynt) eu cymharu â’r buddion a gyflawnwyd. Cafodd costau pob prosiect eu rhannu’n gostau gwirioneddol a chostau o fath arall, a dangosir hefyd unrhyw gyllid cyfatebol ychwanegol a sicrhawyd, i dalu’r costau nad yw grant y Cynllun yn eu cynnwys. Dim ond i’r un 8 o fuddion y rhoddwyd gwerth ariannol iddynt ar lefel y Cynllun y rhoddwyd gwerth ariannol iddynt ar lefel Prosiectau. Mae manylion y 9 o brosiectau i’w cael yn Atodiad I.

Dadansoddiad Daearyddol

Cwestiwn Ymchwil

V1B. Ym mhle digwyddodd y costau a'r arbedion hyn?

- 6.16 Dengys Tabl 6-4 ddisbarthiad daearyddol grantiau a ddyfarnwyd ym 5 cylch cyntaf y Cynllun, gan ddangos y ganran o'r cyfanswm a ddyfarnwyd i brosiectau ym mhob un o siroedd Cymru. Caerdydd a dderbyniodd y swm uchaf gyda £590,671 o arian grant (13% o'r cyfanswm), a ddilynwyd gan Sir y Fflint (£360,394; 8% o'r cyfanswm) a Gwynedd (£357,775; 8% o'r cyfanswm). Gellir cymharu'r tabl hwn â Tabl 4-2, sy'n dangos nifer y ceisiadau yn ôl sir rhwng cylchoedd 1 a 5. Er i Abertawe dderbyn 50 o geisiadau (14% o'r cyfanswm), ni dderbyniodd ond 6% o'r cyllid grant. Fe wnaeth Casnewydd, ar y llaw arall, dderbyn 5 cais (1% o'r cyfanswm), ond dyrannwyd 7% o gyfanswm y cyllid iddi.

Tabl 6-4: Dosbarthiad Daearyddol o Grantiau a Ddyfarnwyd, Cylchoedd 1 i 5

Sir	Cyfanswm	%
Blaenau Gwent	£88,823	2%
Caerffili	£99,598	2%
Caerdydd	£590,671	13%
Sir Gaerfyrddin	£294,842	6%
Ceredigion	£219,912	5%
Conwy	£82,949	2%
Sir Ddinbych	£147,625	3%
Sir y Fflint	£360,394	8%
Gwynedd	£357,775	8%
Ynys Môn	£224,197	5%
Merthyr Tudful	£132,013	3%
Castell-nedd Port Talbot	£89,274	2%
Casnewydd	£347,634	7%
Sir Benfro	£314,269	7%
Powys	£298,793	6%
Rhondda Cynon Taf	£105,830	2%
De Cymru	£49,976	1%
Abertawe	£293,598	6%
Torfaen	£42,826	1%
Bro Morgannwg	£17,356	0.4%
Wrecsam	£254,466	5%
Aml-sirol	£227,864	5%
Cyfanswm llawn	£4,640,686	

Ffynhonnell: Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (Dim Dyddiad). Cylchoedd Dyfarnu Grantiau 1 i 5, 2018-21.

Dadansoddiad o Randdeiliaid

Cwestiwn Ymchwil

V1C. Pwy a dderbyniodd y buddion?

- 6.17 Roedd deiliaid grantiau, yn rhai a gyfwelwyd a rhai a arolygwyd, yn nodi amrywiaeth helaeth o fuddiolwyr o'r prosiectau a gyllidwyd gan y Cynllun sydd wedi cael eu cyflawni hyd yma. Amlinellir y buddiolwyr yn Nhabl 6-5.

Tabl 6-5: Buddiolwyr Cynllun y Dreth Gwarediadau

Thema	Grwpiau Rhanddeiliaid
Pobl a	Y cyhoedd yn gyffredinol
Chymunedau	Teuluoedd pobl anabl Cymunedau lleol sydd wedi cymryd rhan yn y prosiect neu sydd wedi derbyn buddion megis rhyngweithio cymdeithasol a mynediad at gyfleusterau Trigolion lleol sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol Defnyddwyr coetir a byd natur Ymwelwyr â'r ardal <ul style="list-style-type: none"> • Ffoaduriaid a cheiswyr lloches • Defnyddwyr canolfannau (ee o blant i'r henoed)
Sector Preifat	Busnesau bach lleol a phrosiectau cymunedol Ffermwyr lleol yn yr ardal (ee trwy gnydau'n cael eu peillio'n well) <ul style="list-style-type: none"> • Yr eglwys leol
Sefydliadau	Cyrff anllywodraethol lleol (yr Ymddiriedolaeth Natur a'r
Trydydd	Ymddiriedolaeth Genedlaethol)
Sector	<ul style="list-style-type: none"> • Elusennau lleol (ee Elusen Cadwraeth Tiroedd Gwyllt)
Sector	Y sector gofal (trwy fwy o ymwybyddiaeth cyhoeddus o'r sector)
Cyhoeddus	Ysgolion meithrin lleol <ul style="list-style-type: none"> • Ysgolion cynradd lleol sydd wedi ennill dealltwriaeth o 1 o'r 3 thema allweddol ac sydd wedi defnyddio cyfleusterau sydd ar gael (ee pwll nofio a wal ddringo)
Grwpiau	Timau cadwraeth a'r gymuned gadwraeth ehangach
Cadwraeth	Ecolegwyr (ee ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a'r Prosiect Wiwerod Coch yng Nghoedwig Clocaenog) Aelodau grwpiau coetiroedd <ul style="list-style-type: none"> • Ciperiaid lleol

Dadansoddiad Ansoddol o Gost a Budd y Cynllun

Cwestiwn Ymchwil

V1D. A yw buddion y Cynllun yn gwrthbwysu'r holl gostau yn eu cyfanrwydd?

- 6.18 Caiff cymhareb cost a budd y Cynllun ei chyfrifo trwy rannu cyfanswm y buddion â chyfanswm cost y Cynllun. Po uchaf y gymhareb cost a budd, yr uchaf yw'r gwerth am arian. Mae cymhareb cost a budd o >1 yn golygu bod y buddion a gyflawnwyd gan y Cynllun wedi codi'n uwch na chostau cyflawni'r Cynllun. Golyga hyn fod y Cynllun wedi cyflawni gwerth am arian, os mai'r diffiniad syml a ddefnyddir ar gyfer gwerth am arian yw bod y buddion yn fwy na'r costau, waeth o faint y bo hynny. Mae cymhareb cost a budd o <1 yn golygu bod costau'r Cynllun yn fwy na'r buddion a gyflawnwyd gan y Cynllun, a bod y Cynllun wedi methu â chyflawni gwerth am arian.⁴⁰
- 6.19 Wrth ddefnyddio'r 8 dangosydd perfformiad allweddol y rhoddwyd gwerth ariannol iddynt yn y cyfrifiad cost a budd, mae cymhareb cost a budd y Cynllun yn dod allan yn ffafriol fel >1 (Tabl 6-6).

⁴⁰ Adran Trafnidiaeth (2020). [Value for Money Indicator 2019](#) (Cyrchwyd 09 Chwefror 2022)

Tabl 6-6: Cymhareb Cost a Budd

Senario	Manylion	Gwerthoedd
Senario 1 (gan gynnwys y dangosydd perfformiad allweddol “Swyddi a grewyd”)	Buddion a gyflawnwyd gan y Cynllun (sy’n cynnwys: arbedion nwyon tŷ gwydr, incwm a gynhyrchwyd, swyddi a grewyd, arbedion costau rhagamcanol, ymwelwyr a ddenwyd, coed cynhenid a blannwyd, tunelli a ddargyfeiriwyd o safleoedd tirlenwi a thunelli a ailgylchwyd)	£37,257,677
	Costau'r Cynllun	£4,941,533
	Cymhareb Cost a Budd	7.5
Senario 2 (gan hepgor y dangosydd perfformiad allweddol “Swyddi a grewyd”)	Buddion a gyflawnwyd gan y Cynllun (sy’n cynnwys: arbedion nwyon tŷ gwydr, incwm a gynhyrchwyd, arbedion costau rhagamcanol, ymwelwyr a ddenwyd, coed cynhenid a blannwyd, tunelli a ddargyfeiriwyd o safleoedd tirlenwi a thunelli a ailgylchwyd)	£33,566,218
	Costau'r Cynllun	£4,941,533
	Cymhareb Cost a Budd	6.8

6.20 Mae'r buddion a gyflawnwyd gan y Cynllun hyd yma yn debygol o fod yn llawer uwch na'r hyn mae'r dadansoddiad wedi ei ddangos hyd yma, am y rhesymau canlynol. Yn gyntaf, dim ond i 8 o'r dangosyddion perfformiad allweddol y rhoddwyd gwerth ariannol. Pe gellid rhoi gwerth ariannol i'r holl fuddion mae'r Cynllun wedi eu cyflawni hyd yma (ar sail y 55 o ddangosyddion perfformiad allweddol), yna byddai cymhareb cost a budd y Cynllun yn uwch.⁴¹ Yn ail, y buddion yw'r rheini yr adroddwyd arnynt hyd yma – erbyn amser yr adroddiad terfynol, bydd y buddion a gaiff eu hadrodd yn uwch. Yn drydydd, bydd llawer o'r buddion yn parhau i'r dyfodol (ee coed cynhenid a blannwyd). Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, y byddai'r costau hefyd yn uwch ar gyfer y Cynllun, gan fod llawer o'r prosiectau nad ydynt wedi gwario'u holl gyllid eto. Yn gyffredinol, byddai'r gymhareb cost a budd yn debygol o

⁴¹ Mae'n holl bwysig nodi bod rhai buddion sy'n anodd neu'n amhosibl rhoi gwerth ariannol iddynt. Byddai hyn yn cyfyngu ar ddealltwriaeth lawn o'r buddion wrth ddefnyddio dull seiliedig ar werth ariannol.

fod yn uwch, yn enwedig pe gellid rhoi gwerth ariannol i weddill y dangosyddion perfformiad allweddol.

- 6.21 **Byddai defnyddio'r gwariant gwirioneddol hyd yma yn gwneud y gymhareb Cost a Budd yn uwch:** Yn ogystal, dylai gwir gost y Cynllun hyd yma (i gyflawni'r buddion) fod yn seiliedig ar y gwariant gwirioneddol *hyd yma*, yn hytrach na'r gwariant *a ddyrannwyd*. Pe defnyddid y gwariant gwirioneddol hyd yma, yna byddai'r gost yn debygol o fod yn is, ac felly byddai'r gymhareb cost a budd yn uwch.

Cyfleoedd am Gyllid Ychwanegol

Cwestiwn Ymchwil

V1E. A yw'r Cynllun wedi gallu defnyddio cyfleoedd am gyllid ychwanegol neu gyfatebol?

Crynodeb

- Sicrhawyd cyfanswm o £9.13 miliwn o gyllid cyfatebol gan y prosiectau hynny a gyllidwyd gan Gynllun y Dreth Gwarediadau.
- O'r 112 o brosiectau a gyllidwyd gan y Cynllun, fe wnaeth 107 ddarparu cyllid cyfatebol (ychwanegol) neu gyfraniad o fath arall i ategu'r cyllid a dderbyniwyd o grantiau'r Cynllun.
- Fe wnaeth prosiectau llai dderbyn, mewn termau canrannol, mwy o gyllid cyfatebol na phrosiectau mwy.

Ar lefel y Cynllun

- 6.22 Fe wnaeth 5 cylch cyntaf y Cynllun ddarparu cyfanswm o £4.64 miliwn o gyllid. Roedd y cyllid cyfatebol (ychwanegol) a dderbyniwyd gan yr un prosiectau hyn a gyllidwyd gan y Cynllun yn dod i gyfanswm o £9.13 miliwn. O'u cronni, roedd y prosiectau wedi mwy na threblu cyfanswm eu cyllid trwy sicrhau cyllid ychwanegol (roedd cyllid cyfatebol yn hafal i 211% ar lefel y Cynllun)

Ar lefel Prosiectau

- 6.23 O'r 112 o brosiectau a gyllidwyd gan y Cynllun o Gylchoedd 1 i 5, derbyniodd 96% rywfaint o gyllid cyfatebol (dim ond 5 na chafodd ddim). Roedd cyfartaledd y cyllid cyfatebol a dderbyniwyd gan y prosiectau a dderbyniodd gyllid cyfatebol yn 209%.

- 6.24 Fe wnaeth y 55 o brosiectau llai (y rheini a dderbyniodd gyllid o rhwng £5,084 a £47,195) derbyn 235% o gyllid cyfatebol ar gyfartaledd, lle gwnaeth y 55 o brosiectau mwy (y rheini a dderbyniodd gyllid o rhwng £47,288 a £49,999, ond heb gynnwys y prosiectau o arwyddocâd cenedlaethol) dderbyn 167% o gyllid cyfatebol ar gyfartaledd. Felly, ar gyfartaledd, derbyniodd prosiectau llai fwy o gyllid cyfatebol, mewn termau canrannol, na phrosiectau mwy.

Buddion Ehangach

Cwestiwn Ymchwil

V1F. Pa fuddion ehangach mae'r Cynllun wedi eu darparu y tu hwnt i'r rheini a nodir yn y Theori Newid?

- 6.25 Roedd cynrychiolwyr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn nodi bod y Cynllun wedi cael effaith sylweddol ar oriau gwirfoddoli a chyd-drafod cymunedol, a'u gobaith yw adeiladu ar hynny er mwyn sicrhau bod gwirfoddoli yn parhau i gynyddu. Dywedodd CGGC hefyd bod gwirfoddolwyr, trwy gyflawni prosiectau a gyllidir gan y Cynllun, yn datblygu eu sgiliau a derbyn hyfforddiant, sy'n cynnwys ennill cymwysterau, profiad ar lawr gwlad a gweithio gyda chyrrff hyfforddi (ee dysgu defnyddio lli gadwyn, sy'n sgil werthfawr ar gyfer cyflogaeth yn y Gymru wledig). Cefnogir y farn hon gan y dystiolaeth a ddangosir yn yr adroddiadau monitro, sy'n dangos bod cyfanswm o 4,757 o gyfleoedd hyfforddiant neu waith wedi eu cynnig ar lefel y Cynllun yn ei grynsyth. Er mai anaml y ceir cadarnhad o'r effeithiau hyn, gan fod y dystiolaeth yn anecdotaidd yn bennaf, mae'r Cynllun wedi cael buddion nas rhagwelwyd ynghylch cyrhaeddiad a chyflogadwyedd unigolion.
- 6.26 Roedd rheoleiddwyr yr SLCF yn credu bod ymgeisio i'r Cynllun a gweithredu prosiectau (os oeddent yn llwyddiannus) wedi cael effeithiau cadarnhaol ar gydlyniant a chymorth cymunedol yn yr Alban.
- 6.27 Dywedodd un deiliad grant fod eu prosiect wedi cynorthwyo bioamrywiaeth a hefyd wedi gwella llesiant buddiolwyr. Roedd un arall yn nodi bod eu prosiect wedi cyflawni buddion iechyd trwy sefydlu pwll nofio a ffrâm ddringo. Roedd ei wahanol glybiau (ee acro aerobeg) wedi arwain at ryngweithio cymdeithasol.

6.28 Tynnwyd sylw at fuddion ehangach, y tu hwnt i'r dangosyddion perfformiad allweddol, gan ddeiliaid grantiau a gyfwelwyd. Roeddent yn nodi bod effeithiau cadarnhaol ehangach eu prosiectau yn cynnwys gwella rhwydweithiau cymdeithasol, lleihau unigrwydd cymdeithasol (yn enwedig yng nghyd-destun COVID-19), gweithio tîm, buddion iechyd meddwl, amlygu sefydliadau trydydd sector, a chysylltiadau â rhwydweithiau newydd ledled Cymru (megis gyda mentrau eraill rhannu bwyd). Mae'r rhwydweithio hwn yn gydnaws â dyhead Llywodraeth Cymru i gynyddu effaith y Cynllun trwy rannu gwybodaeth a datblygu cysylltiadau rhwng cymunedau a phrosiectau i roi ysbrydoliaeth a hyrwyddo partneriaethau. Dywedodd un cynrychiolydd cyngor gwirfoddol sirol a ymatebodd i'r arolwg: *“Mae llawer o brosiectau ysbrydoledig wedi codi yn sgil y cyllid a ddyrannwyd.”*

Ymatebydd i Arolwg y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, 2021

Cymharu â Chynlluniau Cyfatebol yn y Deyrnas Unedig

Cwestiwn Ymchwil

V1G. Sut mae'r Cynllun wedi cymharu â'r cynlluniau cyfatebol iddo yn y Deyrnas Unedig?

6.29 Mae'r adran hon yn cymharu Cynllun y Dreth Gwarediadau â chynlluniau cyfatebol y Deyrnas Unedig o safbwynt ei gostau a'i fuddion. Gwneir cymhariaeth ansoddol o fewn Adran 7.

Cymharu costau

6.30 Mae Tabl 6-7 yn cymharu costau Cynllun Cymru â chostau cynlluniau cyfatebol y Deyrnas Unedig – Cronfa Cymunedau Tirlenwi yr Alban (SLCF) a Chronfa Cymunedau Tirlenwi Lloegr (LCF).

Tabl 6-7: Cymharu Costau Cynlluniau

Cynllun	Cyfnod a aseswyd	Blynyddoedd o ddata	Nifer o brosiectau a gyllidwyd	Cyfanswm costau prosiectau a gyllidwyd	Cost cyfartalog fesul prosiect
Cynllun Cymru (Cynllun y Dreth Gwarediadau)	Mai 2018 - Mehefin 2021	3	112	£ 4,641,533	£ 41,442
Cynllun yr Alban (SLCF)	2017/18 - 2019/20	3	1,426	£ 24,000,000	£ 16,830
Cynllun Lloegr (LCF)	2018/19 - 2020/21	3	3,806	£ 121,968,385	£ 32,046

Ffynhonnell: Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (Dim Dyddiad) Cylchoedd Dyfarnu Grantiau 1 i 5, 2018-21; SEPA (2020) [SLCF Five Year Review](#); ENTRUST (2021) [LCF Value for Money Report](#). (Cyrchwyd 5 Ionawr 2022)

- 6.31 Mae Cynllun Cymru wedi cyllido 112 o brosiectau mewn 3 blynedd ar gyfanswm cost o £4.64 miliwn, gyda chost cyfartalog fesul prosiect dros y cyfnod hwnnw o £41,442. Mae cynllun Lloegr, sef y mwyaf o'r tri, wedi cyllido 3,806 o brosiectau dros 3 blynedd ar gyfanswm cost o £122 miliwn, gyda chost cyfartalog fesul prosiect dros y cyfnod hwnnw o £32,046. Mae cynllun yr Alban wedi cyllido 31,426 o brosiectau dros 3 blynedd ar gyfanswm cost o £24 miliwn, gyda chyfartaledd cost fesul prosiect dros y cyfnod hwnnw o £16,830. Ar gyfartaledd, felly, prosiectau a gyllidwyd gan gynllun yr Alban yw'r rhai lleiaf, a phrosiectau a gyllidwyd gan gynllun Cymru yw'r rhai mwyaf.
- 6.32 Yn 2018-19, cafodd 3.9% o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi a oedd yn ddyledus yng Nghymru ei ddyrannu i'r Cynllun; yn 2019-20 roedd y ffigur hwn yn 4.2% ac yn 2020-21 roedd yn 4.2% (ar sail y £1.5 miliwn y flwyddyn a ddyrannwyd i'r Cynllun, sy'n 80% o gyfanswm cost prosiectau a gyllidwyd ar ddiwedd oes y prosiectau). Yn yr Alban, yn 2018-19, cafodd 5.7% o gyfanswm Treth Tirlenwi Datganedig Taladwy ei ddyrannu i'r SLCF, yn 2019-20 roedd y ffigur hwn yn 5.3% ac yn 2020-21 roedd yn 5.0%. Oherwydd diffyg gwybodaeth ar gael ar gyllid treth tirlenwi ar gyfer Lloegr, nid yw'n bosibl cadarnhau'r gwerthoedd ar hyn o bryd.

6.33 Yn nhermau costau gweinyddu, gwariodd Cynllun Cymru amcangyfrif o £300,000 mewn costau gweinyddu dros 3 blynedd (£100,000 y flwyddyn) i dalu costau rhedeg y Cynllun i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r cynghorau gwirfoddol sirol. Mae hyn yn ffurfio canran costau gweinyddol o 6.1%. Mae cynllun yr Alban wedi gwario amcangyfrif o £2.52 miliwn mewn costau gweinyddu dros 3 blynedd (£4.2 miliwn dros y 5 mlynedd ddiwethaf). Mae hyn yn rhoi canran costau gweinyddu o 9.5%, sy'n ganran uwch na chynllun Cymru. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y gwahaniaeth hwn i'w briodoli i'r gwahaniaeth yn strwythurau'r 2 gynllun (cyfeirier at Adran 0, Cymharu Cynllun y Dreth Gwarediadau â Chynlluniau a Modelau Tebyg, am fanylion ar hyn).

Tabl 6-8: Cymharu Costau Gweinyddu Cynlluniau

Cynllun	Cyfnod a aseswyd	Blynyddoedd o ddata	Costau gweinyddu'r Cynllun	Cyfanswm costau	Gweinyddu %
Cymru (Cynllun y Dreth Gwarediadau)	Mai 2018 - Mehefin 2021	3	£ 300,000	£ 4,941,533	6.1%
Yr Alban (SLCF)	2017/18 - 2019/20	3	£ 2,520,000	£ 26,520,000	9.5%
Lloegr (LCF)	2018/19 - 2020/21	3	Anhysbys	Anhysbys	Anhysbys

Ffynhonnell: Gohebiaeth gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; SEPA (2020) [SLCF Five Year Review](#) (Cyrchwyd 5 Ionawr 2022)

6.34 Mae costau gweinyddu cynllun yr Alban yn cynnwys taliadau rheoleiddio grantiau (i SEPA fel rheoleiddiwr cynllun yr Alban) a chostau rhedeg y Cyrff Cymeradwyo (sy'n dosbarthu'r dyfarniadau grantiau). Caiff holl gynllun Cymru, fodd bynnag, ei reoli'n ganolog gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (nid yw'r cyrff rheoleiddio a dosbarthu wedi eu gwahanu). Dyma yw'r rheswm tebygol pam fod costau gweinyddu yng nghynllun Cymru yn is. Ni ellid canfod costau gweinyddu cynllun Lloegr.

Cymharu themâu

6.35 Mae'r adran hon yn cymharu'r mathau o brosiectau a gyllidwyd gan gynllun Cymru o gymharu â'r cynlluniau eraill cyfatebol. Mae gan gynllun Cymru 3 thema, lle bo gan gynllun yr Alban 6 amcan, ac mae gan gynllun Lloegr bellach 5 amcan (Tabl 6-9). Mae'r canrannau'n cyfeirio at y % o gyfanswm y prosiectau o dan bob Cynllun a gyllidwyd i bob thema.

Tabl 6-9: Dadansoddiad Cyllid fesul Thema ar draws y Cynlluniau

Cynllun Cymru	Cynllun yr Alban	Cynllun Lloegr
-	Adfer tir (2%)	Tir ac adferiad (0.1%)
Lleihau Gwastraff (33%)	Ailgylchu/Ailddefnyddio ⁴²	Atal llygredd (0%)
Bioamrywiaeth (22%)	Bioamrywiaeth (6%)	Gwarchod Bioamrywiaeth (11%)
Gwelliannau Amgylcheddol Ehangach (17%)	Adeiladau Hanesyddol (12%)	Adfer mannau addoli ac adeiladau hanesyddol (4%)
	Amwynderau cyhoeddus (80%)	Parciau ac amwynderau cyhoeddus (85%)
	Gwasanaethau (Dim)	
Cyfuniad o 2 neu 3 thema (28%)	-	-

6.36 Mae'r thema Bioamrywiaeth yng Nghynllun Cymru yn cyfateb yn uniongyrchol ag amcanion bioamrywiaeth y 2 gynllun arall, tra bod y thema lleihau gwastraff yn debyg i amcanion ailgylchu/ailddefnyddio ac atal llygredd y 2 gynllun arall.

6.37 O gymharu â'r cynlluniau eraill, fe wnaeth cynllun Cymru gyllido canran uwch o brosiectau bioamrywiaeth (22% o gymharu â 6% a 11%) a lleihau/ailgylchu gwastaff (33% o gymharu â 2% a 0%) na'r 2 gynllun arall. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad oes gan gynllun Cymru ond 3 thema lle bo gan y cynlluniau eraill 5 neu 6.

⁴² Aeth 2% o gyllid at Adfer Tir a phrosiectau Ailgylchu/ailddefnyddio.

Cymharu buddion

- 6.38 Mae cymharu'r buddion a gyflawnwyd gan gynllun Cymru â'r buddion a gyflawnwyd gan gynlluniau cyfatebol y Deyrnas Unedig yn anodd am rai rhesymau allweddol.
- 6.39 Yn gyntaf, mae gan gynllun Cymru 3 thema, lle bo gan gynlluniau'r Alban a Lloegr 5 neu 6 o amcanion, gyda rhai ohonynt â phwyslais gwahanol.
- 6.40 Yn ail, mae gan gynllun Cymru gyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol a thargedau y mae'n gofyn i brosiectau a gyllidir eu cofnodi wrth olrhain gwaith eu prosiectau. Mae'r dangosyddion perfformiad allweddol a'r targedau hyn yn rhoi arwydd o'r buddion mae eu prosiectau yn eu cyflawni. Nid oes gan gynlluniau cyfatebol y Deyrnas Unedig, fodd bynnag, yr un system, ac felly nid ydynt yn adrodd ar fuddion yn yr un ffordd (os os ydynt yn gwneud hynny, nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn gyhoeddus). Mae cynlluniau'r Alban a Lloegr yn cyhoeddi set o ddangosyddion perfformiad allweddol yn eu hadroddiadau blynyddol ac adroddiadau gwerth am arian, ond mae'r rhain yn canolbwyntio ar berfformiad y cyrff dyfarnu yn hytrach na'r prosiectau eu hunain. Mae'r ddau gynllun yn ddatganoledig, felly mae'n bosibl fod gan weithredwyr cynlluniau unigol a chyrrff dyfarnu eu dangosyddion perfformiad allweddol a system gasglu gwybodaeth a allai gynnwys mwy o fanylder ar y buddion a gyflawnir gan brosiectau.
- 6.41 I ddibenion cymharu, fodd bynnag, caiff rhai enghreifftiau o fuddion a gyflawnir gan y ddau gynllun eu dangos isod. Mae'r astudiaethau achos a gyhoeddwyd yn Adolygiad Pum Mlynedd yr SLCF yn dangos y buddion mae cynllun yr Alban wedi eu cyflawni (Ffigur 6-1).

Ffigur 6-1: Buddion a Wireddwyd o Brosiectau a Gyllidwyd gan yr SLCF

Prosiectau Adfer Tir:

- Darparu parc busnes 0.8 hectar hyblyg, a adeiladwyd i'r pwrpas, a feddiennir gan fusnesau lleol, sydd wedi cefnogi swyddi a chyfleoedd eraill i bobl leol yn byw ar ynys Mull.
- Adfer gorsaf lenwi a oedd wedi cau i'r gymuned leol, sydd wedi cyflawni arbedion disgwylidig o tua £300 y flwyddyn i gartrefi lleol mewn costau tanwydd, creu 2 swydd ran-amser barhaol ac mae pob litr o danwydd a werthir yn cynhyrchu ceiniog i'r gymuned ei buddsoddi mewn mentrau lleol.
- Creu perllan gymunedol ar ddarn diffaith o dir sydd wedi darparu seddau maint, llwybrau, arwyddion a choed perllannau.

Prosiectau Ailgylchu / Ailddefnyddio

- Mae creu siop newydd wedi rhoi cyfleoedd i wirfoddolwyr ddysgu sgiliau newydd, cefnogi cyfleoedd profiad gwaith a gwella iechyd meddwl.
- Mae cyllid tuag at gostau fan drydan, costau staff ac offer gweithdy ar gyfer prosiect ailddefnyddio beiciau wedi dargyfeirio beiciau a waredwyd o dirlenwi, rhoi cyfle i gael beiciau am gost isel yn yr ardal, gwella iechyd a llesiant, a lleihau allyriadau carbon.

Amwynderau Cyhoeddus

- Mae adeiladu parc beiciau asffalt wedi gwella iechyd corfforol cymunedau, lleihau ynysu ac adeiladu cydlyniant cymunedol.

Bioamrywiaeth

- Mae prosiectau naill ai wedi gwarchod rhywogaeth yn ei chynefin brodorol neu wella cynefin i annog bioamrywiaeth. Mae'r rhywogaethau Albanaidd sydd wedi cael eu helpu yn cynnwys Cornchwiglen, Gylfinir, Rhegen yr Yd, Ceiliog y Coed, Môr-wennol, Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las, Cregyn Gleision Perlau Dwr Ffres, Gwyfyn Burnet, Brithyll y Môr, Eog Môr Iwerydd, Aethnen, Ystlumod, Wiwerod Goch a Dyfrgwn.
- Prosiectau sydd wedi rheoli rhywogaethau estron (planhigion).

Adeiladau Hanesyddol

- Mae prosiectau wedi adfer a chynnal nodweddion adeiladau megis toeau, meindyrau a ffenestri.

Ffynhonnell: SEPA (2020). [SLCF Five Year Review](#) (Cyrchwyd 5 Ionawr 2022)

6.42 Mae adroddiad Gwerth am Arian LCF 2020/21 yn dangos y buddion a'r canlyniadau a nodir yn Figur 6-2.

Ffigur 6-2: Buddion a Chanlyniadau a Wireddwyd o Brosiectau a Gyllidwyd â'r LCF

Amwynderau Cyhoeddus

- 262 o neuaddau/canolfannau cymunedol
- 203 o gyfleusterau chwaraeon
- 101 o gaeau chwarae cyhoeddus
- 90 o fathau eraill o amwynderau
- 68 o barciau
- 63 o eglwysi / manau addoli
- 37 o warchodfeydd natur
- 22 o lwybrau ceffylau / llwybrau cyhoeddus
- 12 o ganolfannau gweithgareddau

Cyflawni Canlyniadau a Fwriadwyd

- Cyflawnodd 99.8% o brosiectau y nodau a fwriadwyd.
- Fe wnaeth 97.7% o brosiectau wella bywydau pobl yn y gymuned neu gyflawni buddion amgylcheddol.
- Daeth 82.4% o brosiectau â phobl o wahanol gefndiroedd at ei gilydd.

Ffynhonnell: ENTRUST (2021). [Value for Money Report 2020/2021](#) (Cyrchwyd 5 Ionawr 2022)

7. Canfyddiadau Allweddol: Cyfeiriad yn y Dyfodol

- 7.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno'r canfyddiadau allweddol ar gyfeiriad Cynllun y Dreth Gwarediadau yn y dyfodol.

Cyllid yn y Dyfodol

Cwestiwn Ymchwil

F1. I ba raddau y bydd cyllid a gynhrychir trwy'r dreth ar gael yn y dyfodol a pha ystyriaethau a ddaeth i'r amlwg ar sail datganiadau gwirioneddol ac amcanestyniadau o refeniw yn y dyfodol o'r dreth a ddarparwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidol?

- 7.2 O fis Ebrill 2018, cafodd y Dreth Tirlenwi yng Nghymru ei disodli gan y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, a reolir gan Awdurdod Cyllid Cymru. Caiff rhaglen grantiau Cynllun y Dreth Gwarediadau ei gyllido trwy refeniw'r Llywodraeth – gan gynnwys y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. O refeniw'r Llywodraeth, caiff £1.5 miliwn mewn cyllid ei ddyrannu i Gynllun y Dreth Gwarediadau yn flynyddol (gweler paragraff 2.6). Felly, er bod effaith refeniw cyfnewidiol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar y Cynllun yn cael ei drafod isod, dylid cydnabod nad dyma'r unig elfen a fydd yn effeithio ar gyllid yn y dyfodol.
- 7.3 Mae refeniw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn seiliedig ar y swm sy'n ddyledus i Awdurdod Cyllid Cymru (Tabl 7-1).

Tabl 7-1: Refeniw y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a Gwariant ar y Cynllun

	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22 (Blwyddyn rannol)
Treth Dyledus (£ miliwn)	44.7	37.0	31.9	26.2 ⁴³
Gwariant ar y Cynllun (£miliwn)	1.5	1.5	1.5	1.5
Treth a wariwyd ar y Cynllun	3.9%	4.2%	4.2%	Dd/B

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru. <https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-gwarediadau-tirlenwi-ebryll-mehefin-2021-html#content> (Cyrchwyd 12 Rhagfyr 2021)

- 7.4 Yn y cyfnod mis Ebrill hyd fis Medi 2020, roedd Treth Gwarediadau Tirlenwi dyledus yn £26.2 miliwn, a oedd 24% yn uwch nag yn yr un cyfnod yn 2019. Gwneir y gymhariaeth yn erbyn 2019 ac nid 2020 yn sgil effeithiau COVID-19 yn 2020.⁴⁴
- 7.5 Cafodd rhagamcanion refeniw yn y dyfodol ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi eu darparu gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Mae rhagolygon refeniw'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o'r dreth yn cael eu penderfynu trwy (i) cyfraddau treth a gyhoeddwyd am y flwyddyn i ddod, ac yna eu codi'n unol â chwyddiant a ragwelir am flynyddoedd canlynol a (ii) swm rhagamcanol y gwastraff i dirlenwi. Caiff y ffigur hwn ei gyfrifo gan ddefnyddio'r ffigurau diweddaraf am y swm o wastraff a gaiff ei dirlenwi ac yna ei ragamcanu ymlaen gan ddefnyddio gwybodaeth ar gynlluniau rheoli gwastraff awdurdodau lleol, datblygiadau seilwaith gwastraff, a thybiaeth am lwybr gwastraff arall yn y dyfodol.
- 7.6 Yn y tymor byr i'r tymor canolig (1 i 4 blynedd) – sy'n ymwneud â gweddill cyfnod y Cynllun presennol – rhagamcenir y bydd y symiau a ragwelir o wastraff a gaiff ei dirlenwi yn lleihau, ond wrth i gyfraddau treth gynyddu, er bod disgwyl i refeniw'r

⁴³ Mae hyn yn seiliedig ar drethi sy'n ddyledus rhwng mis Ebrill a mis Medi 2021, gan nad yw treth sy'n ddyledus y tu hwnt i fis Medi 2021 ar gael eto. Hefyd, mae'r ffigurau a ddyfynnir yma yn amodol ar gael eu hadolygu.

⁴⁴ Llywodraeth Cymru (2021). <https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-gwarediadau-tirlenwi-ebryll-mehefin-2021-html#content> (Cyrchwyd 12 Rhagfyr 2021).

Dreth Gwarediadau Tirlenwi leihau y flwyddyn nesaf, yna rhagamcenir y byddant yn parhau'n sefydlog tan 2025. Mae'n debygol y bydd amrywiadau bach oherwydd y pandemig COVID-19 ac effeithiau ar gynhyrchu gwastraff, yn enwedig ar wastraff masnachol a diwydiannol.

- 7.7 Mae Tabl 7-2 o Ragolwg Trethi Cymreig y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn rhagweld y bydd refeniw treth yn lleihau o £45 miliwn yn 2021-22 i £35 miliwn yn 2026-27. Pe bai gwariant y Cynllun yn parhau i fod yn £1.5 miliwn y flwyddyn, byddai hyn yn gyfwerth â 3.3% yn 2021-22 a 4.5% yn 2026-27 o gyfanswm y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cael ei wario ar y Cynllun. Gall unrhyw ystyriaethau allweddol sy'n ymwneud â chyllid ddigwydd y tu hwnt i 2025-26.⁴⁵

Tabl 7-2 Rhagolwg Treth Gwarediadau Tirlenwi – Rhagfyr 2021

	Alldro Rhagolwg (£ miliwn)						
	(£ miliwn)						
	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27
Diweddariad mis Rhagfyr	32	45	36	36	36	35	35
Gwariant Treth ar Gynllun y Dreth Gwarediadau⁴⁶	4.7%	3.3%	4.2%	4.2%	4.2%	4.3%	4.3%

Ffynhonnell: Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (2021). [Rhagolwg trethi Cymreig Rhagfyr 2021](#). (Cyrchwyd 2 Mawrth 2022)

- 7.8 Mae refeniw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn debygol o ostwng gan fod disgwyl i symiau tirlenwi leihau yn y cyfnod mwy hirdymor. Mae hyn o dan senario sy'n tybio bod cyfraddau treth yn aros yn gyson neu'n profi codiadau bach wrth i symiau tirlenwi leihau. Gall hyn effeithio ar gyllid y Cynllun yn y dyfodol.

⁴⁵ Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (2021). [Rhagolwg Trethi Cymreig – Diweddariad Mehefin – Rhagfyr 2021](#) (Cyrchwyd 2 Rhagfyr 2021).

⁴⁶ Mae hyn yn tybio parhad cyllideb flynyddol o £1.5 miliwn i'r Cynllun.

Cynnwys a Dichonoldeb yn y Dyfodol

- 7.9 Mae'r adran hon yn trafod dichonoldeb rhaglen grantiau Cynllun Treth Gwarediadau yn y dyfodol, gan ystyried y canfyddiadau a drafodir yn Adran 7, *Cyllid yn y Dyfodol* yn ogystal â newidiadau i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a goblygiadau ar y Cynllun. Mae'r adran hon yn rhoi sylw hefyd i ddewisiadau eraill ar gyfer cyllido'r Cynllun yn y dyfodol a gofynion gweithredu a chefnogi'r Cynllun yn y dyfodol.

Cwestiynau Ymchwil

F2. Beth yw'r dewisiadau ar gyfer cynnwys y Cynllun yn y dyfodol a dichonoldeb rhaglen grantiau yn y dyfodol?

- F2A. Beth yw dichonoldeb rhaglen grantiau yn y dyfodol?
- F2B. Beth yw'r dewisiadau cyllido ar gyfer y prosiectau yn y dyfodol?
- F2C. Gofynion gweithredu yn y dyfodol?
- F2D. Gofynion cymorth yn y dyfodol?
- F2E. Unrhyw drefniadau ehangach yn y dyfodol?

Cynnwys a Dichonoldeb Rhaglen Grantiau yn y Dyfodol

- 7.10 Bu rhanddeiliaid yn trafod dyfodol y Cynllun o safbwynt y newidiadau mewn rheoli gwastraff ledled Cymru a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru wrth iddynt esblygu. Roedd rhai yn awgrymu y gellid ehangu'r cwmpas i gynnwys cymunedau yr effeithir arnynt gan gyfleusterau llosgi ac amariadau lleol eraill o'r fath, neu newid eu pwyslais i ymdrin â phryderon amgylcheddol ehangach. Mae archwilio dichonoldeb y dewisiadau hyn y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn gan fod iddynt oblygiadau polisi ehangach a byddai arnynt angen tystiolaeth fanylach y tu hwnt i'r hyn a awgrymir yn yr adoddiad hwn.
- 7.11 Roedd swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru yn pwysleisio sut y bydd angen i'r Cynllun addasu wrth i'r stoc/safleoedd tirlenwi presennol nesáu at ddiwedd eu hoes, a niferoedd safleoedd tirlenwi gweithredol, a'r defnydd ohonynt, leihau yn unol â blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru. Er bod y Llywodraeth wedi gosod targedau ailgylchu uchelgeisiol, roedd swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod ei bod yn debygol y bydd yn dal i fod angen tirlenwi a llosgi ar gyfer ffrydiau anodd eu hailgylchu a/neu gwastraff peryglus (megis asbestos). Roedd rhanddeiliaid yn ceisio dyfalu a oedd potensial i'r Cynllun esblygu i gynnwys

cymunedau sydd o fewn radiws cyfatebol i gyfleusterau llosgi. Roedd swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru yn ansicr a fydd niferoedd gorsafoedd trosglwyddo gwastraff yn cynyddu neu'n lleihau wrth i arferion rheoli gwastraff newid. Felly, bydd angen i nifer y gorsafoedd trosglwyddo gwastraff gael ei fonitro'n aml er mwyn asesu'r effaith ar gymunedau lleol cyfagos iddynt.

7.12 O ran yr angen i addasu, roedd rhanddeiliaid eraill a gyfwelwyd (a oedd yn dymuno aros yn ddiennw) yn pwysleisio mai un o agweddau cryfaf y Cynllun hyd yma yw ei hyblygrwydd. Roeddent yn awgrymu y bydd angen i gynnwys unrhyw Gynllun yn y dyfodol adlewyrchu'r heriau mae cymunedau a'u hamgylcheddau lleol yn eu hwynebu ac y bydd angen ymateb i'r anghenion cyfnewidiol hyn. O ganlyniad, gall cynllun yn y dyfodol gael themâu ychwanegol y tu hwnt i fioamrywiaeth, lleihau gwastraff, a gwelliannau amgylcheddol ehangach (megis ansawdd aer a'r argyfwng hinsawdd). Mae i Lywodraeth Cymru'r nod hefyd o sicrhau bod cymunedau'n cael eu cefnogi'n gymdeithasol ac economaidd, yn ogystal ag er budd i'r amgylchedd lleol. Yn wyneb hyn, roedd rhai rhanddeiliaid yn awgrymu y dylai'r Cynllun barhau i ganolbwyntio ar gyflawni'r nodau hyn yn gydamserol, pe na bai'n cael ei ddirymu. Ar y llaw arall, teimlai cynrychiolwyr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru y dylai fod pwyslais cryfach ar lesiant – gan gysylltu â'r nodau polisi a deddfwriaethol o Gymru deg a llewyrchus a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy.

7.13 Roedd un gweithredwr tirlenwi yn awgrymu y dylai daearyddiaeth chwarae mwy o ran wrth ddisbarthu cyllid y Cynllun, a chynigiodd yr argymhelliad canlynol:

“Pe bai safle yn darparu 10% o gyfanswm tunelli a waredir, yna gellid gwario 10% o gwmpas y safle hwnnw. Pe deuai'r gwastraff hwn trwy orsaf trosglwyddo yng Nghymru, yna gallai'r orsaf drosglwyddo rannu yn y budd hwnnw, efallai ar raniad 75/25% (tirlenwi/trosglwyddo). Ar hyn o bryd gallai gorsaf drosglwyddo anfon 10 tunnell i safle tirlenwi yn Lloegr, a gallai prosiect yng nghyffiniau'r orsaf drosglwyddo gwastraff hon gael cyllid sylweddol.”

Cyfweliad â Gweithredwr Tirlenwi, 2021

7.14 Fodd bynnag, byddai'r argymhelliad hwn yn cyflwyno cymhlethdodau (gan gynnwys problemau ynghylch cydberthynas â chyflenwad a galw ymgeiswyr) pe gweithredid hyn i broses ddyrannu cyllid y Cynllun.

Dewisiadau Cyllido yn y Dyfodol

- 7.15 Rhagwelir y gallai'r cwestiwn a fydd cyllid y Cynllun ar gael yn y dyfodol ddibynnu ar fod referniw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar gael, gan gynnwys y cysylltiad rhwng trethu niwed amgylcheddol i gefnogi cynllun llesol:

“Byddwn yn tybio y gallai fod dewisiadau eraill fel cynyddu'r swm o dreth a godir ar tirlenwi. Yn sicr, wrth inni symud tuag at ddyfodol diwastraff, yr uchelgais yn amlwg yw peidio â thirlenwi dim deunyddiau yng Nghymru. Dw i'n meddwl bod hyn yn bwysig ar hyn o bryd, oherwydd bod gennych chi'n cysylltiad hwnnw rhwng tirlenwi fel rhywbeth drwg, ac felly mae enillion rhywfaint o hynny yn mynd tuag at gefnogi rhywfaint o ddaioni yn y gymuned.”

Cyfweliad gydag Unigolyn Dienw, 2021

- 7.16 Cafodd dewisiadau posibl i sicrhau cyllid hirdymor i'r cynllun eu hawgrymu hefyd yn ystod cyfweliadau, gan gynnwys:

- atodiad o'r gyllideb a neilltuir i'r Gweinidog Newid Hinsawdd neu fel yr uchod yn cynyddu'r gyfran o gyllid a godir o dan y dreth a ddyrennir i'r Cynllun
- ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr geisio am gyllid cyfatebol o ffynonellau cyllid eraill megis y Loteri Genedlaethol (er bod pryderon y gallai hyn fod yn rhwystr rhag cymryd rhan)
- ehangu'r Cynllun i ardal ehangach (os nad yw ffynonell y cyllid yn gysylltiedig â thirlenwi mwyach ac wedi'i gyfyngu i gymunedau mae eu hagosrwydd at safleoedd tirlenwi yn effeithio arnynt)
- addasu'r maint y Cynllun er mwyn sicrhau ei fod yn gydnaws ag amlen y costau presennol – a fyddai'n debygol o arwain at gyflwyno rhaglen grantiau llai, gyda llai o gyllideb, sy'n gweithredu ar sail flynyddol

- 7.17 Awgrymwyd hefyd y gellid ehangu'r Cynllun i ardal ehangach (os nad yw ffynhonnell y cyllid yn gysylltiedig mwyach â thirlenwi ac wedi'i gyfyngu i gymunedau mae eu hagosrwydd at safleoedd tirlenwi yn effeithio arnynt). Roedd rhanddeiliad arall yn awgrymu y gallai mentrau bioamrywiaeth yn y dyfodol, fel mae'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cael ei ddefnyddio i ariannu lleihau gwastaff, gael eu cyllido trwy weithredu treth gyfatebol ar weithgareddau sy'n niweidiol i fioamrywiaeth (megis treth nitradau neu blaladdwyr). Byddai angen i drethi o'r fath gael eu hystyried yng nghyd-destun agenda ehangach trethi Cymru.

- 7.18 Mewn cyfweiliadau, roedd cynrychiolwyr o SEPA, sy'n rheoli'r SLCF yn yr Alban, yn credu yn yr un modd y bydd tirlenwi yn cyrraedd pwynt tyngedfennol o fewn y 5 mlynedd nesaf; gyda symiau'r gwastraff a dirlenwir yn lleihau'n raddol, byddant yn cyrraedd pwynt pan na fydd bellach yn hyfyw'n ariannol i gyllido'r prosiectau o fewn cynllun yr Alban. Roeddent yn amlinellu dewisiadau gan gynnwys newid y model credydau treth i alluogi dyrannu cyfran mwy o refeniw i'r Cynllun. Dewis arall fydd cyfuno'r cyllid ar gyfer y cynllun hwn â mecanwaith treth arall, megis yr Ardoll Agregau.
- 7.19 Roedd rheoleiddiwr yr LCF yn Lloegr, ENTRUST, yn trafod sut nad ydynt yn disgwyl i'r LCF ddod i ben yn sydyn a rhedeg allan o gyllid, gan y bydd bob amser wastraff y bydd angen ei dirlenwi. Codwyd y pwynt hwn hefyd gan randdeiliaid yng nghyswllt Cynllun y Dreth Gwarediadau yng Nghymru. Fodd bynnag, roeddent yn cydnabod y bydd angen llenwi'r bwch refeniw yn sgil y lleihad mewn refeniw Treth Tirlenwi. Roedd cynrychiolydd ENTRUST yn nodi hefyd nad oedd unrhyw drwyddedau tirlenwi newydd yn cael eu rhoi gan Defra yn Lloegr, ac y byddai hyn yn effeithio ar gyllid yr LCF yn y dyfodol. Roedd y farn hon yn seiliedig ar yr adborth roeddent wedi'i dderbyn yn ystod eu trafodaethau gyda Gweithredwyr Rheoli Gwastraff. Yn ogystal, roeddent yn sylweddoli hefyd fod rhan Gweithredwyr felly yn ailagor safleoedd tirlenwi a oedd wedi eu datgomisiynu yn Lloegr.

Gofynion Gweithredu a Chymorth yn y Dyfodol

- 7.20 Mae awgrymiadau ar gyfer gofynion gweithredu a chymorth a amlinellir gan randdeiliaid yn yr *Adolygiad o'r Broses* (Adran 4). Caiff yr awgrymiadau allweddol eu hailadrodd yn yr adran hon.
- 7.21 Er mwyn sicrhau y gellir gwireddu hynny ag y gellir o fuddion o brosiectau a gyllidir gan y Cynllun, roedd swyddogion Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac aelodau'r panel yn argymhell yn ystod cyfweiliadau y dylid newid saernïaeth y grant. Yn benodol, roedd aelodau'r panel yn pwysleisio'r angen am fwy o gymorth yn y broses cyn-ymgeisio er mwyn sicrhau bod ceisiadau sydd wedi eu llunio'n dda a'u hystyried yn drylwyr ac sy'n archwilio holl bosibiliadau prosiectau yn cael eu cyflwyno. Mae hyn yn ymwneud â phryderon ynghylch effaith cyfoeth a maint sefydliadau ar ansawdd ceisiadau (*Gweler Heriau Eraill*, Adran 4). Roedd awgrymiadau ar sut i gyflawni hyn yn cynnwys:

- cyfeirio at gymorth sydd ar gael gan sefydliadau perthnasol (megis ymddiriedolaethau natur)
- mynd ati i rannu astudiaethau achos o arferion gorau prosiectau (mae astudiaethau achos ar gael hefyd yn adrodiadau blynyddol y Cynllun i ymgeiswyr eu gweld)
- rhedeg gweithdai i ddangos astudiaethau achos a/neu enghreifftiau o arferion gorau prosiectau i roi ysbrydoliaeth
- datblygu cyflwyniad rhyngweithiol ar-lein o 'brosiect perffaith'

7.22 Roedd aelodau'r panel yn awgrymu mwy o bwysau ar ddeiliaid grantiau i wneud mwy i gynnwys rhanddeiliaid yn y Cynllun a'i effeithiau trwy rannu gwybodaeth. Roedd y panel yn awgrymu defnyddio byrddau hysbysu neu arwyddion i ddangos buddion nodweddion prosiectau penodol y gall prosiectau eraill dysgu oddi wrthynt. Un ffordd o ganiatáu ar gyfer yr amser ychwanegol i gyd-drafod ac ennyn diddordeb fyddai treulio llai o amser ar ddiwydrwydd dyladwy.

7.23 Roedd cynrychiolwyr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn cyfleu'r farn y gallai pwyslais yr adrodd blynyddol symud oddi wrth edrych a yw'r Cynllun wedi cyflawni ei amcanion polisi at holi a yw'r canlyniadau wedi bod o fudd i gymunedau lleol ai peidio. Y teimlad oedd bod cynnwys yr adrodd yn canolbwyntio'n gryf ar bolisi, a dywedodd cynrychiolwyr CGGC fod rhywfaint o'r agwedd fwy 'dynol' yn cael ei golli. Yn lle canolbwyntio ar ddangosyddion perfformiad allweddol (sy'n digwydd o ganlyniad i gyllid), credai cynrychiolwyr CGGC y gallai'r adrodd fod yn fwy cyfannol ac yn ennyn mwy o ddiddordeb, gyda thystiolaeth anecdotaidd o effaith y Cynllun ar gymunedau. Dywedodd cynrychiolwyr CGGC hefyd 'nad oes ar gymunedau sy'n ymgeisio am gyllid eisiau mesur sut mae'r prosiectau unigol yn cyfrannu at bolisi; mae arnom eisiau dangos y buddion i'r cymunedau maent yn gweithredu ynddynt'. Trafodir y pryderon a godwyd ynghylch y defnydd o ddangosyddion perfformiad allweddol yn Adran 5.

7.24 Yn ogystal â mewnbynnau gan y panel, rhoddodd cynrychiolwyr cynghorau gwirfoddol sirol a gweithredwyr tirlenwi awgrymiadau pellach yn yr arolwg am welliannau i'r Cynllun yn y dyfodol. Dywedodd cynrychiolwyr cynghorau gwirfoddol sirol y dylid gwella'r cydweithio rhyngddynt a sefydliadau. Gallai hyn fod:

- ar y cam cyn cyflwyno cais, lle bo swyddogion cynghorau gwirfoddol lleol yn rhoi argymhellion i'r panel asesu

- wrth weithredu'r prosiect, lle gall cynghorau gwirfoddol sirol gysylltu prosiectau llwyddiannus perthnasol â'i gilydd

- 7.25 Yn ogystal, roedd cynrychiolwyr cynghorau gwirfoddol sirol yn awgrymu y gallai'r ffurflen gais beidio â bod yn gymaint o draul ar adnoddau i'w chwblhau. Wrth ystyried yr awgrymiadau uchod, dylid nodi bod rôl y cynghorau gwirfoddol sirol yn rhan o fodel presennol y Cynllun ac efallai na fydd hyn yn parhau i fod os ailgaffaelir y gwasanaeth.
- 7.26 O'r arolwg gweithredwyr tirlenwi, roedd 2 gynrychiolydd yn credu bod angen gwella'r rhyngweithio rhwng y gweithredwyr safleoedd tirlenwi a'r gymuned leol. Teimlai un y dylid cydnabod y cyswllt rhwng y cyllid a gynhyrchir o'r safle (yn ffurf treth) a'i ddefnydd a'i fuddion o ganlyniad yn y gymuned leol, yn hytrach na bod safleoedd tirlenwi yn cael eu gweld fel y 'cymydog drwg'. Ychwanegodd un arall na allai gweithredwyr tirlenwi ryngweithio gyda'r gymuned a sefydliadau lleol gyda'r Cynllun presennol (o gymharu â hen gynllun CThEM /ENTRUST). Felly, ni ellid cyfleu'r buddion roedd y safleoedd tirlenwi wedi eu cael ar y gymuned leol (trwy ddyrannu cyllid a chyflawni prosiectau). Er hynny, dywedodd Llywodraeth Cymru y gofynnwyd i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru gyd-drafod â gweithredwyr ond mai cyfyngedig oedd yr ymatebion a gawsant gan y grŵp hwn o randdeiliaid.

Cysylltiadau â Pholisiau Amgylcheddol ac Argyfwng Hinsawdd yn y Dyfodol

F3. Pa argymhellion y gellir eu gwneud ar gyfer cysylltiadau yn y dyfodol â blaenoriaethau a strategaethau Llywodraeth Cymru ym maes yr amgylchedd a'r argyfwng hinsawdd?

- 7.27 Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru'n amlinellu sut mae ei blaenoriaethau allweddol yn ymwneud yn sylweddol â'r hinsawdd, datgarboneiddio, bioamrywiaeth, a'r economi gylchol (atal gwastraff, ac aildefnyddio ac atgyweirio). Roeddent yn cyfeirio at nifer o ffyrdd y gall y Cynllun gydweddu â'r blaenoriaethau hyn.
- 7.28 Roeddent yn esbonio bod pwyslais penodol ar brosiectau sy'n helpu mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth, gan fod y rhain yn feysydd strategol o flaenoriaeth i'r llywodraeth. Fodd bynnag, hyd yma, mae'r themâu hyn wedi derbyn llai o geisiadau a phrosiectau na'r thema amgylcheddol ehangach. Yn ogystal,

roeddent yn esbonio bod, o ganlyniad i esblygiad polisïau – gan gynnwys y Rhaglen Lywodraethu newydd – ar y Cynllun angen rhywfaint o amser i ddal i fyny â pholisi. Roedd awgrymiadau o'r fath ar gyfer newidiadau yn cynnwys diffinio'r gwahanol feysydd blaenoriaeth mewn ffordd wahanol neu ehangu cwmas y Cynllun.

- 7.29 Roedd swyddogion yn amlinellu'r system bresennol o gyfarfodydd chwarterol rhwng Llywodraeth Cymru a gweinyddwr y Cynllun i sicrhau bod prosiectau'n gyson â pholisi'r llywodraeth:

“Mae'r swyddogion o'r llywodraeth sy'n trefnu'r cyfarfodydd wedi sefydlu system ar hyn o bryd lle maent yn rhoi 5 munud i arweinwyr polisi'r llywodraeth gyflwyno'r polisi, ffurf a chyfeiriad presennol ... Cyn belled ag y gall [gweinyddwr y Cynllun] ddal i fyny â pholisi mewn system sy'n symud, ac yn gallu cyfleu'r polisi cyfnewidiol hwnnw, mae hynny'n mynd i helpu arwain rhai o'r rhaglenni i fod yn gyfredol (yn gyfoes).”

Cyfweliad â Llywodraeth Cymru, 2021

- 7.30 Roedd swyddogion yn awgrymu felly, gan fod polisi'n datblygu'n parhaus, ei bod yn allweddol bwysig dal ati i adeiladu'r berthynas a'r cyfathrebu hwn rhwng Llywodraeth Cymru a gweinyddwr y Cynllun.

- 7.31 Roedd swyddogion yn nodi bod pryder bod y prosiectau o dan y thema lleihau gwastraff wedi cyllido nifer o weithgareddau ailgylchu, pan mai blaenoriaeth Llywodraeth Cymru mewn gwirionedd oedd rhwystro gwastraff, sicrhau bod gwastraff yn cael ei weld fel adnodd, ac annog aildefnyddio ac atgyweirio. Gellid ymdrin â hyn trwy sicrhau bod y Cynllun yn cael ei ddiweddarau'n gyson â pholisi a therminoleg Llywodraeth Cymru, megis yr hyn a ddefnyddir yn 'Mwy nag Ailgylchu'. Roedd y swyddog yn awgrymu hefyd:

“Dylai fod cyswllt clir iawn â'r agenda datgarboneiddio a'r datganiad o argyfwng hinsawdd. Gwyddom fod bron i hanner yr holl allyriadau yn dod o'r cynhyrchion rydym yn eu gwneud a'u defnyddio bob dydd.”

Cyfweliad â Llywodraeth Cymru, 2021

- 7.32 Mae'r pwyntiau hyn yn tynnu sylw at berthnasedd themâu'r Cynllun a sut y gall fod angen archwilio cysylltiadau â themâu eraill wrth i flaenoriaethau'r llywodraeth newid.

Effaith Ffactorau Allanol

Cwestiwn Ymchwil

F4. Sut mae ffactorau allanol wedi effeithio ar y Cynllun?

- 7.33 COVID-19 oedd y ffactor allanol a grybwyllwyd amlaf o gryn dipyn. Adroddwyd am effeithiau cadarnhaol a negyddol.
- 7.34 Dywedodd deiliaid grantiau fod COVID-19 wedi arwain at newidiadau yng ngwaith eu prosiectau. Fel y dywedodd un deiliad grant, fe wnaeth COVID-19 orfodi eu prosiect (a oedd yn canolbwyntio ar ennyn diddordeb mewn bioamrywiaeth a dysgu amdano) i gael ei gyflwyno ar-lein yn hytrach na wyneb yn wyneb. Roedd hyn wedi arwain at allgáu rhai buddiolwyr a fwriadwyd (yn sgil tlodi digidol neu'r rheini a oedd yn llai cysurus gyda chyfryngau digidol). Dywedodd deiliad grant arall na allai eu prosiect, o ganlyniad i gyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol, ryngweithio â'r gymuned ehangach fel y bwriadwyd. Felly, mae COVID-19 wedi cael effaith niweidiol ar gyflawni'r dangosyddion perfformiad allweddol a gynlluniwyd ar gyfer eu prosiect.
- 7.35 Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru fod, yn y tymor byr, gadael yr Undeb Ewropeaidd a COVID-19 wedi cael effaith negyddol ar y gwaith o gyflwyno prosiectau'r Cynllun trwy darfu ar gadwyni cyflenwi. Esboniodd deiliad grant arall fod COVID-19 wedi cael effaith cadarnhaol ar gyflawni eu prosiect. Roedd gwelliannau a gynlluniwyd i ganolfan hamdden gymunedol wedi digwydd yn haws gan iddi gael ei gorfodi i gau. Yn ogystal, cyflawnwyd camau ychwanegol (na chafodd eu cynllunio'n wreiddiol) megis ail-selio'r pwll, gan arwain at arbedion ynni sylweddol. Adleisiwyd y teimlad hwn gan y panel arbenigol a esboniodd fod COVID-19 wedi hwyluso diwylliant o wirfoddoli:

“Mae COVID-19 wedi arwain at lawer o barodrwydd i wirfoddoli ... ac rydym wedi cael graddau uchel iawn o weithgarwch gwirfoddolwyr.”

Cyfweliad â'r Panel Arbenigol, 2021

- 7.36 Mae absenoldeb unrhyw ffactorau allanol canfyddedig eraill (y tu hwnt i COVID-19 a gadael yr Undeb Ewropeaidd) yn ganfyddiad diddorol. Efallai fod amlygrwydd llethol y pandemig COVID-19 ers mis Mawrth 2020 wedi effeithio ar allu rhanddeiliaid i

gofio ffactorau allanol eraill a allai fod wedi effeithio ar eu prosiectau cyn y pandemig.

Cymharu Cynllun y Dreth Gwarediadau â Chynlluniau a Modelau Tebyg

Cwestiynau Ymchwil

F5. Sut mae Cynllun y Dreth Gwarediadau yn cymharu â modelau posibl eraill a luniwyd i gyflawni canlyniadau ac effeithiau tebyg?

F6. Sut mae Cynllun y Dreth Gwarediadau yn cymharu â chynlluniau eraill y Deyrnas Unedig – Cronfa Cymunedau Tirlenwi Lloegr, a Chronfa Cymunedau Tirlenwi yr Alban?

- 7.37 Fel y crybwyllwyd yn *Ychwanegedd* (Adran 5), roedd deiliaid grantiau, er yn cydnabod bod cynlluniau cyllido eraill yn bod (megis Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol neu Sefydliad Waterloo), yn pwysleisio eu bod yn aml yn gystadleuol iawn. Mae'r potiau cyllido hyn (sy'n aml yn fwy adnabyddus) yn agored i ddetholiad ehangach o ymgeiswyr, tra bod Cynllun y Dreth Gwarediadau yn canolbwyntio'n benodol ar fentrau cymunedol a'i bod felly yn fwy hygyrch. Ychwanegodd swyddog o Lywodraeth Cymru nad yw cynlluniau cyllido eraill (fel Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles yng Nghymru) wedi eu targedu ar gyfer gweithredu cymunedol ar raddfa fach a'i bod yn ofynnol i'r trydydd sector a'r sectorau cyhoeddus a phreifat fod yn gweithio gyda'i gilydd ar raddfa sylweddol ar eu cyfer. Roedd un deiliad grant yn nodi pwysigrwydd grantiau megis Cynllun y Dreth Gwarediadau yng ngyd-destun diwedd y mynediad at gyllid yr Undeb Ewropeaidd.
- 7.38 Er bod gan Gynllun y Dreth Gwarediadau nodau tebyg i'r cynlluniau cyfatebol yn Lloegr (LCF) a'r Alban (SLCF), mae amryw o wahaniaethau hefyd. Dywedodd cynrychiolwyr SEPA ac ENTRUST, y 2 reoleiddiwr, mai'r gwahaniaeth sylweddol oedd y modd y caiff cyllid ei ddyrannu. Mae gan Gynllun y Dreth Gwarediadau un corff (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar hyn o bryd) sy'n dyrannu a dosbarthu cronfeydd. Ar y llaw arall, mae gan yr LCF gannoedd o gyrff amgylcheddol a'r SLCF 12 corff cymeradwy, sy'n dyrannu a dosbarthu cronfeydd. Roedd y ddau reoleiddiwr yn cydnabod yr aneffeithlonrwydd wrth ddefnyddio cyrff lluosog – gan gynnwys yr anawsterau a'r costau sydd ynglŷn â'u rheoleiddio. Fodd

bynnag, ychwanegodd cynrychiolydd ENTRUST fod cael nifer o gyrrff amgylcheddol yn arwain at amrywiaeth o fuddion gan gynnwys gwell dealltwriaeth o gyd-destun ac anghenion lleol.

- 7.39 Gwahaniaeth sylweddol arall rhwng Cynllun y Dreth Gwarediadau a'r 2 gynllun cyfatebol yw eu strwythurau cyllido. Yng nghynlluniau Lloegr a'r Alban, caiff y swm o gyllid a ddosberthir i'r cynlluniau bob blwyddyn eu gosod fel canran o Dreth Dirlenwi (a osodwyd ar 5.3%) a Threth Tirlenwi yr Alban (a osodwyd ar 5.6%). Felly, mae'r swm o gyllid mae'r cynlluniau hyn yn ei dderbyn yn flynyddol yn amrywio yn unol â'r swm o dreth tirlenwi a gesglir. Mae'r Cynllun yng Nghymru, ar y llaw arall, yn cynnig sicrwydd a pharhad yn y swm o gyllid sydd ar gael ganddo trwy osod y swm ar £1.5 miliwn y flwyddyn. Felly, nid yw unrhyw newidiadau yn y refeniw a gynhrychir gan y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cael effaith tebyg ar gyllid y Cynllun.
- 7.40 Roedd cynrychiolwyr ENTRUST a SEPA yn cydnabod diffyg cydweithio rhwng y 3 chynllun ac yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol rhannu'r arferion gorau er mwyn gwella'n barhaus. Mae dealltwriaeth fod y cynlluniau yn wahanol yn eu cynnwys (gan gynnwys y ffordd nad yw'r SLCF yn gorfodi dangosyddion perfformiad allweddol penodol) ac iddynt gael eu ffurfio o dan wahanol ddeddfwriaethau.
- 7.41 Mae'r arferion gorau a rennir gan y 2 reoleiddiwr arall yn cynnwys:
- creu holiadur cymhwysedd ar-lein ar gyfer y broses ymgeisio i arbed amser ymgeiswyr anghymwys
 - mapio cyllid sy'n gysylltiedig ag amddifadedd cymdeithasol yn ôl cod post i ddangos ym mha ardaloedd o amddifadedd roedd prosiectau wedi digwydd, fel mae'r LCF wedi'i wneud
- 7.42 Gellir adolygu'r rhain i weld a yw arferion gorau o'r fath yn ddefnyddiol ac yn berthnasol i Gynllun y Dreth Gwarediadau yng Nghymru.
- 7.43 Dywedodd cynrychiolydd ENTRUST y gallai fod lle i wella'r wybodaeth, sydd ar wefan Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a thudalennau penodol ar wefan y Cynllun, ynghylch y broses ymgeisio yn ogystal â sut y cafodd cyllid y Cynllun ei wario hyd yma. Roeddent yn ychwanegu fod yr wybodaeth ar weithrediad y Cynllun yn gyfyngedig ac y gellid ei bywiogi trwy ddarparu mwy o wybodaeth ar y cymorth a'r gwerth ychwanegol mae'r Cynllun yn ei ddarparu. Roeddent hefyd o dan yr

argraff nad yw proses y Cynllun o ddsbarthu cyllid prosiectau mor gyflym ag y credent y dylai fod. Roeddent yn ychwanegu bod hyn ar sail yr wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd, a oedd yn dangos nad oedd yr holl gyllid sydd ar gael fel pe bai'n cael ei ddyrannu'n llawn i brosiectau.

Cynaliadwyedd Effeithiau Cynllun y Dreth Gwarediadau

Cwestiwn Ymchwil

- F7. Pa mor gynaliadwy yw'r effeithiau sydd wedi deillio o'r prosiectau?

7.44 Roedd cynrychiolwyr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn esbonio mai eu nod oedd cyllido prosiectau a oedd yn gallu cynnal buddion ac effeithiau dros amser. Roeddent yn ychwanegu:

“Does arnom ni ddim eisiau ariannu pethau lle mae popeth yn mynd ar chwâl unwaith mae'r cyllid wedi dod i ben.”

Cyfweliad â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, 2021

7.45 O'r 7 o ddeiliaid grantiau a atebodd gwestiwn yr arolwg, dywedodd 5 fod eu prosiectau wedi parhau i bael 'effeithiau mawr cadarnhaol' ar ôl diwedd cyllid y Cynllun, tra dywedodd 2 fod eu prosiectau wedi parhau i gael 'rhai effeithiau cadarnhaol'. Fodd bynnag, roedd un deiliad grant yn nodi'r anawsterau mewn cynnal parhad buddion. Roeddent yn esbonio bod y Cynllun yn cyllido cyflogi staff i weithredu eu prosiect. Yn absenoldeb cyllid, nid oedd cyflogi staff, y prosiectau a'i effeithiau dilynol yn gallu parhau.

7.46 Gwnaed y sylw gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru fod ceisiadau prosiectau fwyfwy yn cynnwys elfen gynhyrchu incwm. Fel yr esboniodd un deiliad grant, roedd y Cynllun wedi galluogi buddsoddi mewn mesurau effeithlonrwydd ynni ar gyfer eu canolfan hamdden leol. Roedd y buddsoddiad hwn wedi lleihau eu gorbenion a galluogi'r arian a arbedwyd i gael ei gyfeirio at hwyluso gweithgareddau cymunedol.

8. Casgliadau

8.1 Caiff y casgliadau o fewn yr adran hon eu hamlinellu yn ôl pob adolygiad.

Proses y Cynllun

8.2 Profodd 5 cylch cyntaf y Cynllun niferoedd uchel o geisiadau, gan arwain yn aml at bwysau gormodol am y rhaglen gyllido o gymharu â'r swm o gyllid a oedd ar gael. Mae hyn, ynghyd ag adborth rhanddeiliaid, yn dangos galw mawr am y Cynllun. Roedd mwyafrif y ceisiadau'n anelu tuag at y thema gwelliannau amgylcheddol ehangach, o bosibl oherwydd hyblygrwydd y thema hon o gymharu â'r themâu eraill. Mae dosbarthiad y ceisiadau yn ôl rhanbarthau yn amrywio, gyda'r nifer mwyaf o geisiadau yn dod o Ogledd Cymru a'r nifer isaf o geisiadau o Ddwyrain De Cymru, a ddilynwyd gan ymgeiswyr aml-ranbarthol.

8.3 Roedd cyfweiliadau gydag aelodau'r panel, deiliaid grantiau, ac ymgeiswyr aflwyddiannus yn tynnu sylw at bryderon bod gan sefydliadau ac iddynt adnoddau gwell – sy'n tueddu i fod wedi eu lleoli mewn rhanbarthau mwy llewyrchus – well siawns o gael at gyllid. Cafodd sicrhau amrywiaeth mewn deiliaid grantiau ei nodi fel her, gan sicrhau hefyd bod gan sefydliadau sydd â llai o adnoddau y gallu i weithredu eu prosiectau yn effeithiol ac effeithlon.

8.4 Mae'r cylchoedd cyllido ar gyfer y prif grant wedi digwydd yn rheolaidd yn hanesyddol ac maent wedi gweddu'n dda i ymgeiswyr. Ar y llaw arall, mae'r ffordd mae grantiau o arwyddocâd cenedlaethol wedi cydamseru â'r prif grantiau wedi arwain at rai ymgeiswyr yn ceisio am y grant anghywir. Ers i newidiadau gael eu gwneud i'r porth ymgeisio, nid oes achosion tebyg wedi digwydd.

8.5 Nodwyd nifer o gryfderau. Mae'r rhain yn cynnwys cymorth da i geisiadau; proses ymgeisio gymharol hawdd; gwybodaeth dechnegol a lleol gref gan gynghorau gwirfoddol sirol a'r panel i ddeall perthnasedd ceisiadau am brosiectau; a strwythur llywodraethu sy'n caniatáu ar gyfer rheoli effeithlon. Yn ogystal â hyn, roedd adborth gan rhanddeiliaid yn dangos diwylliant o wella parhaus yn y Cynllun o safbwynt ymgeisio, dyfarnu a rheoli parhaus, fel y caiff ei gynnal gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

8.6 Roedd gofynion y Cynllun i ymgeiswyr hefyd yn dangos rhai heriau allweddol. Roedd y rhain yn ymwneud â'r broses ymgeisio yn draul ar amser, gydag

awgrymiadau gan randdeiliaid yn cynnwys rhoi mwy o hyblygrwydd yn y broses honno, a gwell adborth am geisiadau aflwyddiannus i helpu datblygu trydydd sector Cymru. Nid oedd adborth cadarnhaol a negyddol am ddull rheoli'r Cynllun yn cael ei gofnodi'n ffurfiol gan ymgeiswyr aflwyddiannus a deiliaid grantiau drwy gydol oes y Cynllun.

Effaith y Cynllun

- 8.7 Roedd adroddiadau monitro yn datgelu cynnydd tuag at y dangosyddion perfformiad allweddol diwygiedig, tra bod cyfweiliadau gyda deiliaid grantiau, swyddogion Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, a swyddogion Llywodraeth Cymru yn dangos sut mae prosiectau a gyllidwyd gan y Cynllun wedi arwain at effeithiau sy'n rhychwantu dros y 3 thema. Mae hyn yn gyson ag amcan bwriadol y Cynllun iddo fod yn gyfannol ei natur. Fodd bynnag, y farn oedd nad oedd y dangosyddion perfformiad allweddol roedd deiliaid grantiau yn mesur cynnydd tuag atynt yn cyfleu'n ddigonol ddyfnder yr effaith, gan ei gwneud yn anodd penderfynu graddau llawn effeithiau uniongyrchol y Cynllun dros y cyfnod adolygu.
- 8.8 Er hyn, roedd cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid yn tynnu sylw at werth y Cynllun fel ffynhonnell allweddol o gyllid i brosiectau cymunedol. Caiff sefydliadau cymunedol eu hanbwybyddu'n aml gan gynlluniau cyllido eraill, gan wneud y Cynllun yn holl bwysig i'r grŵp hwn o randdeiliaid. Yn ogystal, canfyddir bod cyllid y Cynllun yn haws cael ato na ffrydiau cyllido eraill perthnasol, a'i fod yn enwedig yn galluogi prosiectau i gyflawni effeithiau sy'n gysylltiedig â'r cymunedau lleol. Ar yr un pryd, mae'r Cynllun wedi cefnogi amrywiaeth helaeth o nodau Llywodraeth Cymru (yn ystod y cyfnod adolygu) fel y dangosir trwy'r amrywiaeth o brosiectau a dderbyniodd gyllid ac a adroddodd ar eu heffeithiau.

Gwerth am Arian

- 8.9 Mewn 5 cylch o gyllido (mis Ebrill 2018 hyd fis Ebrill 2020), roedd cyfanswm y gwariant a ddyrannwyd i brosiectau yn £4.64 miliwn, gyda chyfanswm cost gweinyddu yn ystod y cyfnod hwn yn £300,000 (£100k pa). Sicrhawyd cyfanswm o £9.13 miliwn o gyllid cyfatebol gan y prosiectau hynny a gyllidwyd gan y Cynllun. Wrth roi gwerth ariannol i'r dangosydd perfformiad allweddol, roedd y buddion a gyflwynwyd gan y Cynllun rhwng mis Mai 2018 a mis Mehefin 2021 yn dod i

gyfanswm o tua £37.3 miliwn. Gallai'r gwerth hwn fod yn uwch pe rhoddid gwerth ariannol i ddangosyddion perfformiad allweddol eraill yn y dyfodol, fodd bynnag, mae'n werth cadw mewn cof effaith costau eraill posibl â gwerth ariannol iddynt o ganlyniad, yn ogystal â chyfyngiadau mewn methodolegau i roi gwerth ariannol ar rai buddion.

- 8.10 Mae'r prosiectau a gyllidwyd o dan y Cynllun wedi cael effaith cadarnhaol ar amrywiaeth helaeth o fuddiolwyr ledled Cymru. O safbwynt buddion ehangach, mae'r Cynllun wedi dangos cynnydd cadarnhaol mewn oriau gwirfoddoli, effaith cadarnhaol ar weithgarwch a chydlyniant cymunedol, gwelliannau mewn iechyd meddwl, a chyfleoedd uwchsgilio a hyfforddiant i fuddiolwyr.
- 8.11 O ran cymharu'r tri chynllun sy'n ymwneud â thirlenwi, er bod Cynllun Cymru yn llai na Chynlluniau cyfatebol yr Alban a Lloegr o safbwynt nifer o brosiectau a chyfanswm costau'r Cynlluniau, mae cost cyfartalog fesul prosiect a gyllidwyd yn uwch. Mae'r gost gweinyddu fel canran o gyfanswm costau yn llai yng Nghynllun Cymru nag yng Nghynllun yr Alban, i raddau helaeth yn sgil y gwahaniaeth yn strwythurau'r ddau gynllun. O ran y ganran o refeniw trethi tirlenwi a ddyrennir i bob un o'r cynlluniau, mae hyn yng Nghymru wedi amrywio rhwng 3.9% a 4.2% yn y blynyddoedd 2018-21, o gymharu â rhwng 5.0% a 5.7% yn yr Alban yn yr un cyfnod. Yn sgil diffyg gwybodaeth ar gael ar refeniw trethi tirlenwi yn Lloegr, nid oedd yn bosibl sicrhau'r canrannau hyn ar gyfer Lloegr.

Cyfeiriad yn y Dyfodol

- 8.12 Pe bai'r Cynllun yn parhau yn y tymor canolig ac yn dal gafael ar gyllideb flynyddol sefydlog, mae rhagamcanion ar gyfer refeniw Trethi Gwarediadau Tirlenwi (mewn perthynas â stoc tirlenwi) yn awgrymu y gall fod cyllid digonol ar gael. Dylid nodi y gall ffynonellau eraill o refeniw Llywodraeth Cymru effeithio ar gyllid y Cynllun. Y tu hwnt i 2026-27, mae potensial am refeniw is gan dybio y bydd stociau tirlenwi yn lleihau a bydd y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn profi codiadau bach ar y mwyaf; fodd bynnag, bydd angen i set nesaf rhagamcanion y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol gael ei hadolygu er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r effaith hwn. O safbwynt cyllido, roedd rhanddeiliaid yn tynnu sylw at amrywiaeth o syniadau ar gyfer cyllid hirdymor sy'n hyfyw gan ddibynnu ar newidiadau i gwmpas y Cynllun.

- 8.13 Roedd rhanddeiliaid yn cynnig safbwyntiau ar yr hyn y gallai'r Cynllun fod wrth symud ymlaen. Roedd hyn yn cynnwys y potensial yn y dyfodol i gynyddu cwmpas y Cynllun i esblygu o gwmpas newidiadau mewn anghenion cymunedol, ystyried pwyslais cryfach ar lesiant, cysoni â newidiadau ym mlaenoriaethau'r llywodraeth wrth ymateb i'r argyfyngau bioamrywiaeth a hinsawdd, a symud i fyny haenau'r hierarchaeth gwastraff i ganolbwyntio mwy ar atal ac ailddefnyddio. Rhagwelwyd y gall rôl tirlenwi leihau yn yr hirdymor. Roedd rhanddeiliaid felly'n awgrymu y dylid archwilio ffyrdd o gefnogi cymunedau eraill sy'n wynebu amariadau eraill (megis effaith byw gerllaw cyfleusterau llosgi). Fodd bynnag, mae archwilio dewisiadau o'r fath y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn gan fod y rhain yn oblygiadau polisi ehangach a byddai arnynt angen tystiolaeth fanylach y tu hwnt i'r hyn yr awgrymir yn yr adroddiad hwn.
- 8.14 Mae'n bwysig fod y Cynllun yn ariannu prosiectau sy'n gallu cynnal eu hunain unwaith y mae eu cyllid wedi dod i mewn er mwyn cynnal a pharhau effeithiau. Roedd mwyafrif y deiliaid grantiau a arolygwyd yn tynnu sylw at fuddion sydd wedi ymestyn ymhell y tu hwnt i'r pwynt y daethant i ben.
- 8.15 O ran gofynion ceisiadau a chymorth yn y dyfodol, cynigwyd amrywiaeth o awgrymiadau gan wahanol rhanddeiliaid a oedd yn cynnwys (ymysg pethau eraill) gwneud y broses ymgeisio yn haws a chynnig mwy o gymorth, annog rhannu gwybodaeth, a phwyslais ychwanegol ar ddeall buddion i gymunedau lleol, gwneud mwy o ddefnydd o gynghorau gwirfoddol sirol, ac ymwneud a chyd-drafod mwy â gweithredwyr tirlenwi.
- 8.16 COVID-19 a gadael yr Undeb Ewropeaidd oedd yr unig ffactorau allanol a nodwyd fel rhai a gafodd effaith ar y Cynllun. Gall fod ffactorau eraill wedi bod ar waith, ond gall fod amlygrwydd y ddau hyn wedi gwthio eraill o'r neilltu. Roedd cymorth Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i ddeiliaid grantiau yn ystod COVID-19 yn adlewyrchu'r hyblygrwydd a gynigiwyd er mwyn sicrhau y gall prosiectau barhau lle bo'n bosibl.

8.17 Mae'r Cynllun yn wahanol yn y ffordd y caiff cyllid ei ddyrannu a'i strwythuro o gymharu â'r LCF a'r SLCF. Mae dull y Cynllun yn dangos manteision ynghylch symlrwydd mewn cyllido dyraniadau gan ei fod yn cael ei drin gan un corff yn hytrach na llawer, a cyllid cyson ar gael iddo yn sgil cyllideb flynyddol a gaiff ei gosod.

9. Argymhellion

9.1 Mae'r argymhellion a amlinellir yn yr adran hon yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r adolygiad hwn.

Argymhellion ar gyfer y Cynllun yn Gyffredinol

- 9.2 **Argymhelliad 1:** Argymhellir bod y Cynllun yn parhau yn y tymor byr i'r tymor canolig (2021-22 i 2026-27). Mae hyn o ystyried ei rôl gref a chadarnhaol wrth rymuso cymunedau trwy wneud sefydliadau cymunedol yn gymwys am gyllid, y cyfraniad at flaenoriaethau Llywodareth Cymru mae wedi'i ddangos hyd yma, a'r gwerth am arian mae wedi'i ddangos. Nid yw'n addas gwneud argymhellion mwy hirdymor, gan nad yw rhagamcanion y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidol ar gyfer referniw Trethi Gwarediadau Tirlenwi yn mynd y tu hwnt i 2026-27.
- 9.3 **Argymhelliad 2:** Gellid ehangu cwrpas y Cynllun i symud i fyny'r hierarchaeth gwastraff (gyda mwy o bwyslais ar yr economi gylchol) a chanolbwyntio ar lesiant, a'r argyfwng hinsawdd. Dylid canolbwyntio ar dynnu sylw at weithgareddau a chanlyniadau'r prosiectau er mwyn ysbrydoli gweithredu a dysgu ehangach. Gellid roi mwy o bwyslais ar y thema bioamrywiaeth i gydnabod yr argyfwng bioamrywiaeth presennol.
- 9.4 **Argymhelliad 3:** Argymhellir parhau â'r dull o osod cyllideb i'r cynllun ar gyfer cyllido. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer ffrwd gyson o gyllid. Gall Llywodraeth Cymru hefyd ddymuno ystyried a ddylid clustnodi swm penodol o gyllid i ariannu prosiectau a gyflwynir gan sefydliadau llai sydd â llai o adnoddau. Trafodir hyn ymhellach yn yr adran nesaf (*Argymhellion ar gyfer y broses*).
- 9.5 **Argymhelliad 4:** Mae'n bwysig fod y gwaith o weinyddu'r Cynllun yn dal i wella a datblygu gan gadw costau gweinyddol yn isel. Canfu'r arolwg fod Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi dangos diwylliant o wella parhaus a hyblygrwydd o ran anghenion ymgeiswyr a deiliaid grantiau. Yn gyffredinol, maent wedi derbyn adborth cadarnhaol gan amrywiaeth helaeth o randdeiliaid.
- 9.6 **Argymhelliad 5:** Yn wyneb anamllder y grantiau o arwyddocâd cenedlaethol a'r nifer cyfyngedig o geisiadau amdanynt, gallai fod potensial i gyllido mwy nag un grant o arwyddocâd cenedlaethol bob blwyddyn. Bydd hyn yn dibynnu ar y paramedrau ar gyfer sut y bydd y cyllid ar gyfer y grantiau hyn yn cael ei reoli.

Byddai hyn yn cynnwys penderfynu a ddylid dyfarnu uchafswm nifer o grantiau o arwyddocâd cenedlaethol yn flynyddol, a ddylai fod uchafswm cyllideb cyffredinol bob blwyddyn ar gyfer grantiau o'r fath, etc.

9.7 **Argymhelliad 6:** Dylai cyfathrebu rheolaidd ddigwydd gyda gweinyddwyr cynlluniau'r Alban a Lloegr er mwyn annog rhannu gwybodaeth (ac felly wella cynlluniau), yn ogystal â chyfathrebu cyson rhwng gweinyddwyr y Cynllun a Llywodraeth Cymru er mwyn cadw ar y blaen i bolisïau allweddol a sut y gall hyn effeithio ar y Cynllun.

Argymhellion ar gyfer y Broses

9.8 **Argymhelliad 7:** Roedd diffyg amrywiaeth mewn sefydliadau a oedd yn derbyn cyllid yn bryder sylweddol a godwyd. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, argymhellir:

- Yn hytrach na darparu adborth ehangach i'r gronfa ehangach o ymgeiswyr aflwyddiannus (sy'n golygu baich ychwanegol ar weinyddwr y Cynllun), gellid gweithredu'r mesurau a amlinellir ym mharagraff 7.21. Bydd hyn yn helpu datblygu'r trydydd sector yng Nghymru, helpu ymdrin â'r pryderon am y sefydliadau llai sydd â llai o adnoddau heb fod yn gallu caffael cyllid, adeiladu ar natur cyfannol y Cynllun, a sicrhau bod prosiectau yn adnabod cysylltiadau â themâu eraill o fewn eu prosiectau.
- Yn lle cynnig dewis o gyflwyno profforma ar gyfer y prif grant a grantiau o arwyddocâd cenedlaethol fel yr awgrymwyd gan rai rhanddeiliaid, gellid darparu templed o ofynion a phrif gwestiynau i ymgeiswyr. Bydd hyn yn galluogi ymgeiswyr i weithio gyda'i gilydd ar yr un ddogfen, ac yna gwblhau eu hymatebion ar y porth ar-lein.
- Os caiff grant llai ei greu (gweler paragraff 9.4), gellid symleiddio'r broses ymgeisio lle bo'n bosibl. Yn yr achos hwn, gall hyn gynnwys caniatáu hyblygrwydd rhwng cyflwyno ceisiadau drwy'r porth neu drwy brofforma.

9.9 **Argymhelliad 8:** Mae cyfleoedd posibl i wneud gwell defnydd o randdeiliaid presennol y Cynllun.

- Gallai cyngorau gwirfoddol sirol chwarae rhan ffurfiol ym mhroses y Cynllun gyda chyfrifoldebau wedi eu diffinio'n glir. Byddai eu gwybodaeth leol o fudd i'r broses asesu o ran deall anghenion a chyd-destun yr ardaloedd lleol – o safbwynt anghenion cymunedol ac amgylcheddol.
- Gellid ailennyn diddordeb gweithredwyr tirlenwi i roi trosolwg iddynt o'r Cynllun ac esbonio sut mae eu cyfraniadau treth o fudd i'r Cynllun.

- 9.10 **Argymhelliad 9:** Gallai gweinyddwr y Cynllun gynnwys proses i gofnodi'n ffurfiol unrhyw anawsterau, cwynion ac adborth (cadarnhaol a negyddol) a godir gan ymgeiswyr aflwyddiannus a deiliaid grantiau ynghylch y modd y caiff y Cynllun ei reoli'n gyffredinol. Bydd hyn yn rhoi tystiolaeth o unrhyw bwyntiau allweddol a godwyd trwy oes y Cynllun a fydd yn gofyn am newid a thystiolaeth ynghylch pam y gwnaed gwelliannau.
- 9.11 **Argymhelliad 10:** Gellid cyflwyno proses gliriach i ddarpar ymgeiswyr sydd eisiau deall a ydynt yn gymwys am gyllid a pha grant maent yn gymwys amdano. Gellid gwneud hyn mewn ffordd debyg i'r SLCF sy'n defnyddio holiadur cymhwysedd. Byddai hyn y lleihau ymhellach y risg yn y dyfodol o sefydliadau'n ymgeisio am y grant anghywir, yn ogystal â lleihau baich gweinyddol ar ymgeiswyr.
- 9.12 **Argymhelliad 11:** Yn olaf, gellid gwella'r ffordd y caiff effeithiau uniongyrchol eu monitro. Mae darparu data ystyrlon yn bwysig er mwyn mesur dyfnder a rhychwant llawn effeithiau'r Cynllun. Bydd cyfleu data y tu hwnt i 'nifer o fentrau' a phethau tebyg trwy gasglu data mwy penodol (megis nifer yr hectarau a ailgoedwigwyd, etc) yn ategu data a gasglwyd o'r dangosyddion perfformiad allweddol. Gellir arwain hyn gan fframwaith gwerthuso i gyfleu effeithiau a buddion y Cynllun. Yn ogystal, gellid darparu templedi neu offerynnau casglu data i ddeiliaid grantiau a fydd yn eu galluogi i ddangos sut mae eu prosiectau wedi effeithio'n gadarnhaol ar eu hardal leol ar sail safbwynt rhanddeiliaid (megis cymunedau lleol). Gallai hyn gynnwys datblygu arolygon (neu dempled arolygon) y gall deiliaid grantiau eu lledaenu.

Adran Cyfeiriadau

Yr Adran Drafndiaeth (2020). [Value for Money Indicator 2019](#) (Cyrchwyd 09 Chwefror 2022).

ENTRUST (2021). [LCF Value for Money Report](#) (Cyrchwyd 5 Ionawr 2022)

Panel Cyngori Arbenigol (2018). Adroddiad Cylch 1 y Panel.

Panel Cyngori Arbenigol (2019). Adroddiad Cylch 2 y Panel.

Panel Cyngori Arbenigol (2019). Adroddiad Cylch 3 y Panel.

Panel Cyngori Arbenigol (2020). Adroddiad Cylch 4 y Panel.

Panel Cyngori Arbenigol (2021). Adroddiad Cylch 5 y Panel.

OBR (2021). [Rhagolwg Trethi Cymreig – Diweddariad Mehefin 2021](#) (Cyrchwyd 12 Rhagfyr 2021).

Senedd Cymru (Dim Dyddiad). [Mapiau o etholaethau a rhanbarthau'r Senedd](#) (Cyrchwyd 19 Ionawr 2022).

SEPA (2020). [SLCF Five Year Review](#) (Cyrchwyd 5 Ionawr 2022)

WCVA (2020). [Adroddiad Blynyddol Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi 2018/19](#) (Cyrchwyd 21 Rhagfyr 2021).

WCVA (2021). [Adroddiad Blynyddol Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi 2019/20](#) (Cyrchwyd 21 Rhagfyr 2021).

WCVA (2021). [Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi](#) (Cyrchwyd 13 Ionawr 2022).

WCVA (2021). Dangosyddion Perfformiad Allweddol Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi – Pob Dyfarniad.

WCVA (Dim Dyddiad). Adroddiadau Monitro a Dogfennaeth Rhaglenni.

Llywodraeth Cymru (2010). [Tuag at Ddyfodol Diwastraff](#)

Llywodraeth Cymru (2015). [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#)

Llywodraeth Cymru (2016). [Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#).

Llywodraeth Cymru (2016). <https://www.yumpu.com/en/document/read/55957145/symud-cymru-ymlaen>

Llywodraeth Cymru (2017). [Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi \(Cymru\) 2017](#)

Llywodraeth Cymru (2018). [Polisi Adnoddau Naturiol](#)

Llywodraeth Cymru (2020). [Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2021). [Mwy nag Ailgylchu 2021](#)

Llywodraeth Cymru (2021). [Ystadegau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi: Ebrill i Fehefin 2021](#)
(Cyrchwyd 12 Rhagfyr 2021).

Atodiad A – Canllawiau Pwnc

Canllawiau wrth holi Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cyflwyniad

Deallwn eich bod chi i gyd yn gweithio neu'n gwirfoddoli i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a bod gennych brofiad/gwybodaeth sy'n ymwneud â Chynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, y broses ymgeisio, dyfarnu a rheoli a montro parhaus. Rydym yn gyfarwydd â'r prosesau hyn o'n hadolygiad o ddogfennaeth ond hoffem ddysgu mwy am eich profiadau.

1. Allwch chi ddweud wrthym beth mae eich rôl gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn ei olygu a sut mae'n ymwneud â Chynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi?

(Holi ynghylch: ceisiadau, gweinyddu, dyfarnu, rheoli, monitro)

Cwestiynau Gwerthuso'r Broses

Mae gennym ddiddordeb mawr yn eich profiad o weinyddu'r cais, y dyfarniad a rheolaeth barhaus y broses.

2. Beth oedd cryfderau proses ymgeisio Cynllun y Dreth Gwarediadau?
(Holi ynghylch: enghreifftiau, adborth cadarnhaol a dderbyniwyd)

3. Beth oedd cryfderau proses ddyfarnu'r Cynllun?
(Holi ynghylch: enghreifftiau, adborth cadarnhaol a dderbyniwyd)

4. Beth oedd heriau'r broses ddyfarnu?
(Holi ynghylch: enghreifftiau, adborth negyddol a dderbyniwyd)

5. Beth oedd y cryfderau o ran rheoli parhaus y cynllun?
(Holi ynghylch: effeithlonrwydd, adnoddau oedd ar gael, cymorth, defnydd o ddata)

6. Beth oedd yr heriau o ran rheoli parhaus y cynllun?
(Holi ynghylch: effeithlonrwydd, adnoddau oedd ar gael, cymorth, defnydd o ddata)

7. Mae'r broses ymgeisio i'r Cynllun yn cynnwys cylchoedd cyllido gyda dwy alwad am geisiadau y flwyddyn, neu un alwad y flwyddyn am brosiectau sy'n ceisio mwy na £50,000.

Yn eich barn chi, ydych chi'n meddwl bod amllder y cylchoedd cyllido yn addas?

(Holi ynghylch: enghreifftiau, agweddau cadarnhaol, agweddau negyddol)

Cwestiynau Gwerthuso Effeithiau / Ychwanegedd

Hoffem sôn am ganlyniadau ac effeithiau'r prosiectau a gefnogwyd gan y Cynllun.

8. Ar sail eich arsylwadau, i ba raddau mae'r prosiectau a gefnogwyd gan y Cynllun wedi hyrwyddo ymddygiadau, canlyniadau ac effeithiau amgylcheddol cadarnhaol?
(Holi ynghylch: enghreifftiau, lleihau gwastraff, gwella llecynnau gwyrdd, bioamrywiaeth, ymwybyddiaeth amgylcheddol, manteision cymdeithasol/cymunedol)
9. Yn dilyn ymlaen o'r drafodaeth honno, yn eich barn chi, a fu unrhyw ganlyniadau ac effeithiau negyddol o'r Cynllun?
(Holi ynghylch: enghreifftiau, cystadleuaeth â gwasanaethau a oedd yn bod eisoes, prosiect ddim wedi cael ei ddefnyddio fel y bwriadwyd)
10. A oedd unrhyw ganlyniadau ac effeithiau na wnaethoch eu rhagweld?
(Holi ynghylch: canlyniadau anfwriadol negyddol, canlyniadau anfwriadol cadarnhaol)
11. Yn eich barn chi, pa mor gynaliadwy oedd y prosiectau a gefnogwyd gan y Cynllun?
(Holi ynghylch: Ar ôl i gyllid y Cynllun ddod i ben, a yw'r prosiectau wedi parhau? Beth yw'r heriau o gynnal effeithiau prosiectau? Sut ellir parhau i gynnal effeithiau prosiectau?)
12. Yn eich barn chi, yn absenoldeb cyllid y Cynllun, a fyddai'r prosiectau hyn wedi mynd ymlaen?
(Holi: pam/pam ddim? O le fyddai cyllid wedi dod? Pa gymorth fyddai ar goll?)

Cwestiynau Cyfeiriad y Cynllun yn y Dyfodol

Hoffem hefyd ddeall sut mae ffactorau y tu hwnt i'ch rheolaeth wedi effeithio ar y Cynllun a beth ydych chi'n ei feddwl am gyfeiriad y Cynllun i'r dyfodol.

13. A oedd unrhyw ffactorau allanol a effeithiodd ar Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'i waith o weinyddu'r Cynllun ynghyd ag effeithio ar waith, canlyniadau ac effeithiau prosiectau?
(Ffactorau allanol yw pethau sydd y tu hwnt i reolaeth y Cynllun a allai fod wedi effeithio arno a gallent gynnwys: Covid-19, lleihad yn y defnydd o dirlenwi, newid agweddau at fyd natur a'r amgylchedd lleol, polisïau a rhaglenni Llywodraeth Cymru, mentrau cymunedol eraill)
(Holi ynghylch: Yr effaith ar geisiadau prosiectau, effaith ar weithredu prosiectau, effaith ar ganlyniadau prosiectau, sut yr effeithiodd y ffactorau hyn ar weinyddiaeth y Cynllun?)

14. Sut ydych chi'n rhagweld y bydd y Cynllun yn datblygu yn y dyfodol?

(Holi ynghylch: dyfodol cyllido, blaenoriaethau Llywodraeth Cymru)

15. Wrth symud ymlaen, pa newidiadau hoffech chi eu gweld yn y Cynllun?

(Holi ynghylch: y newidiadau pwysicaf/ newidiadau sy'n cael yr effaith mwyaf, y newidiadau symlaf)

Cwestiynau olaf

16. I chi, beth oedd y canlyniadau a'r effeithiau mwyaf cadarnhaol mae'r Cynllun wedi eu cael?

17. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ychwanegu am y Cynllun?

Canllawiau wrth holi'r Panel Arbenigol

Cyflwyniad

Deallwn eich bod chi i gyd yn gwirfoddoli i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru fel Panel Cynghori Arbenigol Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Deallwn fod gennych brofiad/gwybodaeth sy'n ymwneud â'r Cynllun, yn benodol y broses ymgeisio, a'r broses o benderfynu ar ddyfarniadau, a bod gwirfoddolwyr a oedd ag arbenigedd mewn cyd-drafod â'r gymuned wedi cael eu recriwtio i'r rolau hyn.

1. Allwch chi ddisgrifio sut y daethoch i ymwneud â'r Cynllun?
(Holi ynghylch: Ers pa bryd ydych chi'n rhan o'r panel arbenigol?)
2. Beth yw eich rôl fel rhan o banel arbenigol y Cynllun?
(Holi ynghylch: Beth mae cymryd rhan yn y panel arbenigol yn ei olygu?)

Cwestiynau Gwerthuso'r Broses

3. Sawl cylch grantiau ydych chi wedi adolygu ceisiadau ar eu cyfer yn y Cynllun?
4. Pa mor dda oedd ansawdd y ceisiadau?
(Holi ynghylch: Pa mor hir mae'n ei gymryd i adolygu cais ar gyfartaledd?)
5. Pa feini prawf wnaethoch chi eu defnyddio i sgorio ceisiadau?
(Holi ynghylch: A roddwyd canllawiau ichi gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru? Beth yw eich barn ar y meini prawf a ddefnyddiwyd?)
6. Beth oedd cryfderau (os oedd rhai o gwbl) proses benderfynu dyfarniadau'r Cynllun?
(Holi ynghylch: Beth oedd cryfderau (os oedd rhai o gwbl) proses adolygu ceisiadau'r Cynllun? Allwch chi ddweud ychydig mwy sut (os o gwbl) mae'r ddau'n wahanol i'w gilydd?)
7. Pa heriau (os o gwbl) ydych chi wedi eu profi gyda phroses benderfynu dyfarniadau'r Cynllun?
(Holi ynghylch: Beth oedd cryfderau (os oedd rhai o gwbl) proses adolygu ceisiadau'r Cynllun?)

Cwestiynau Cyfeiriad y Cynllun yn y Dyfodol

8. Pa effeithiau allanol ydych chi'n meddwl sydd wedi effeithio ar broses ymgeisio'r Cynllun?
(Holi ynghylch: ffactorau allanol sydd y tu hwnt i reolaeth y Cynllun a allai fod wedi effeithio arno. Ee Covid-19, lleihad yn y defnydd o dirlenwi, newid agweddau at fyd natur a'r amgylchedd lleol, polisïau Llywodraeth Cymru a mentrau cymunedol eraill)

9. Sut mae'r ffactorau allanol hyn wedi effeithio ar y cais a'r mathau o brosiectau sydd wedi ymgeisio am gyllid?

10. Pa welliannau fydddech chi wedi eu gwneud i'r broses ymgeisio a phenderfynu ar ddyfarniadau?

(Holi ynghylch: Ydych chi'n ymwneud, neu wedi ymwneud, â chynlluniau eraill mewn rôl debyg? Os felly, a oes unrhyw arferion gorau y gellir eu trosglwyddo neu eu gweithredu i'r cynllun hwn nad ydynt wedi eu defnyddio eto? Sut oedd y broses ymgeisio yn gweithio o gymharu â phrosesau ymgeisio eraill rydych wedi ymwneud â nhw?)

Cwestiwn olaf

11. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ychwanegu am y Cynllun?

Canllawiau wrth holi'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

Cyflwyniad

1. Allwch chi ddisgrifio'ch rôl o fewn y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol?
2. A yw'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn ymwneud â'r Cynllun o gwbl? Os felly, pa berthynas gyda'r Cynllun sydd gennych?
(Bob blwyddyn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi data i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru o'r ffurflenni gwastraff a gyflwynwyd gan bob gweithredwr safleoedd tirlenwi a gorsafoedd trosglwyddo gwastraff ledled Cymru. Dengys y data hwn y safleoedd hynny sydd wedi adrodd am dros 2,000 o dunelli dros y flwyddyn flaenorol. Mae'r map o safleoedd cymwys wedyn yn cael ei ddiweddarau gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru mewn pryd ar gyfer y cylch nesaf o gyllido. Sut mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn cyfrif am yr wybodaeth hon?)

Cwestiynau ynghylch Cyfeiriad y Cynllun yn y Dyfodol

3. Sut y cyfrifir am amcanestyniadau o newidiadau mewn tunelli o wastraff wrth benderfynu ar yr amcanestyniadau refeniw ar gyfer y dreth?
4. Mae rhagolygon trethi Cymru yn rhagamcanu y bydd refeniw treth o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDT) yn lleihau ychydig o £34 miliwn yn 2021-22 i £32 miliwn yn 2025-26.
Beth ydych chi'n feddwl o'r amcanestyniadau hyn? Pam fod disgwyl i'r refeniw treth tirlenwi leihau?
5. Oes gennych chi farn ar y tueddiadau ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi y tu hwnt i 2025-26?
6. Sut yn eich barn chi y bydd y lleihad a ragamcener yn refeniw Treth Gwarediadau Tirlenwi Cymru yn effeithio ar y Cynllun?
7. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ychwanegu?

Canllawiau wrth holi Ymgeiswyr Llwyddiannus

Cyflwyniad

Deallwn eich bod wedi ymgeisio'n llwyddiannus am grant Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi i gefnogi'r prosiect. Mae gennym ddiddordeb mawr yn eich profiad a sut yr aeth pethau.

1. Allwch chi ddweud wrthym sut y daethoch chi i ymgeisio am grant y Cynllun?
(Holi ynghylch: Sut daethoch chi i wybod am y cynllun grant? Beth oedd eich symbyliad i ymgeisio?)

Cwestiynau Gwerthuso'r Broses

Mae gennym ddiddordeb mawr yn eich profiad o'r broses ymgeisio a dyfarnu, yn ogystal â'r cymorth a gawsoch chi drwy gydol y prosiect.

2. Beth oedd eich profiad o broses y Cynllun?
(Holi ynghylch: Profiad o'r broses ymgeisio / proses ddyfarnu? Y graddau o gymorth a ddarparwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru drwy gydol oes y prosiect? Agweddau cadarnhaol, agweddau negyddol, cwynion, adborth)
3. Mae'r broses ymgeisio i'r Cynllun yn cynnwys dau gylch cyllido gyda dwy alwad am geisiadau bob blwyddyn, neu un alwad y flwyddyn am brosiectau sy'n ceisio dros £50,000.
A wnaeth y cylchoedd grantiau hyn effeithio ar eich cais ar gyfer y Cynllun?
(Holi ynghylch: agweddau cadarnhaol, agweddau negyddol, cwynion, adborth)

Cwestiynau Gwerthuso Effeithiau

4. O ganlyniad i gymryd rhan gyda'r Cynllun, beth oedd canlyniadau ac effeithiau cadarnhaol eich prosiect?
(Holi ynghylch: Enghreifftiau o: lleihau gwastraff, gwella llecynnau gwyrdd, bioamrywiaeth, ymwybyddiaeth amgylcheddol, buddion cymdeithasol/cymunedol. Pa fuddion uniongyrchol mae eich prosiect wedi eu cyflawni? Sut wnaeth y grant/cymorth a ddarparwyd gan y Cynllun hwyluso'r canlyniadau cadarnhaol hyn? Pwy sydd wedi derbyn buddion eich prosiect?)
5. Yn dilyn ymlaen o'r drafodaeth honno, a fu unrhyw ganlyniadau neu effeithiau negyddol o'ch prosiect?
(Holi ynghylch: enghreifftiau, cystadleuaeth gyda gwasanaethau sy'n bod eisoes, prosiect heb fod yn cael ei ddefnyddio fel y bwriadwyd)

6. A oedd unrhyw ganlyniadau neu effeithiau na wnaethoch eu rhagweld?
(Holi ynghylch: Canlyniadau anfwriadol negyddol? Canlyniadau anfwriadol cadarnhaol)

7. Beth oedd profiad eich tîm o gynnal canlyniadau ac effeithiau eich prosiect yn ystod, a'r tu hwnt i gyfnod y cyllid a ddarparwyd gan y Cynllun?
(Holi ynghylch: Beth oedd yr heriau wrth gynnal canlyniadau ac effeithiau eich prosiect? Sut mae cyllid yn dylanwadu ar gynaliadwyedd y canlyniadau a'r effeithiau? Beth yw'r pethau ynglŷn â'ch prosiect sy'n golygu ei fod yn debygol o gynnal ei effeithiau?)

8. [Os yw cyllid y prosiect wedi dod i ben] A yw'r prosiect wedi newid ar ôl i gymorth cyllid y Cynllun ddod i ben?
(Holi ynghylch: A yw'r prosiect wedi parhau? A yw'r prosiect yn cynhyrchu incwm hunan-gynhaliol?)

9. Sut mae cymunedau a'r rheini fu'n ymwneud â'r prosiect wedi elwa?
(Holi ynghylch: adeiladu capasiti, ffurfio grwpiau, ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth, ymddygiadau cynaliadwy, gwella iechyd, llecynnau gwyrdd, ymgeisio am grantiau cyllid eraill, sgiliau a ddysgwyd, cyflogaeth a enillwyd)

Cwestiynau Ychwanegedd

Rydym wedi sôn am eich cais i'r Cynllun a'r canlyniadau a'r effeithiau mae eich prosiect a gyllidwyd wedi eu cael. Hoffem nawr ystyried beth allai fod wedi digwydd pe na bai'r Cynllun yn bod.

10. Heb y Cynllun, sut fyddai eich prosiect wedi datblygu?
(Holi ynghylch: A oedd y prosiect yn ymateb i'r Cynllun neu a oedd yn bod o'r blaen? A fyddai thema a chwmpas eich prosiect wedi bod yn wahanol?)

11. Sut fydddech chi wedi cyllido'r prosiect heb y Cynllun?
(Holi ynghylch: Pa ffynonellau eraill o gyllid sydd ar gael? Pa mor hawdd yw cael atynt? Pa swm o gyllid ydych chi'n meddwl a fyddai wedi bod ar gael?)

Cwestiwn Cyfeiriad y Cynllun yn y Dyfodol

Hoffem hefyd ddeall sut mae ffactorau y tu hwnt i'ch rheolaeth wedi effeithio ar eich prosiect.

12. Sut wnaeth ffactorau allanol effeithio ar eich prosiect?

(Holi ynghylch: ffactorau allanol sydd y tu hwnt i reolaeth y Cynllun a allai fod wedi effeithio arno. Ee Covid-19, lleihad yn y defnydd o dirlenwi, newid agweddau at fyd natur a'r amgylchedd lleol, polisiâu Llywodraeth Cymru a mentrau cymunedol eraill)

(Holi ynghylch: yn ystod y broses ymgeisio, yn ystod gwaith y prosiect)

Cwestiynau olaf

13. Fyddech chi'n ymgeisio i'r Cynllun eto?

(Holi ynghylch: Pam/pam ddim? Fyddech chi'n annog eraill i ymgeisio?)

14. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ychwanegu am y Cynllun?

Llywodraeth Cymru

Cyflwyniad

Deallwn fod eich gwaith i Lywodraeth Cymru yn golygu bod gennych arbenigedd sylweddol o ran polisi ac o safbwynt ymarferol yn y meysydd mae Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn ceisio cyfrannu tuag atynt. Gobeithiwn y bydd y cyfweiliad hwn yn ein galluogi i fanteisio ar yr arbenigedd hon a deall yn well y Cynllun, ei effeithiau, ei gydnawsedd â pholisi Llywodraeth Cymru a chyfeiriad posibl y Cynllun yn y dyfodol.

1. Beth yw eich rôl a'ch profiad yn Llywodraeth Cymru?
(Holi ynghylch: Sut mae hyn yn ymwneud â'r Cynllun?)
2. Sut mae eich rôl yn cysylltu â'r Cynllun?
(Holi ynghylch: Themâu – bioamrywiaeth/lleihau gwastraff/gwelliannau amgylcheddol ehangach; cymunedau mae tirlenwi/trosglwyddo gwastraff yn effeithio arnynt; amcanion/rhanddeiliaid tebyg)

Cwestiynau Gwerthuso Effeithiau

Hoffem fanteisio ar eich arbenigedd a phrofiad i helpu deall effeithiau'r Cynllun.

3. Yn eich barn chi, beth oedd canlyniadau ac effeithiau cadarnhaol y Cynllun a phrosiectau mae wedi eu cefnogi?
(Holi ynghylch: Enghreifftiau o: lleihau gwastraff; gwella llecynnau gwyrdd; bioamrywiaeth; ymwybyddiaeth amgylcheddol; buddion cymdeithasol/cymunedol; cyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru)
4. Yn dilyn ymlaen o'r drafodaeth honno, ydych chi'n gwybod am unrhyw ganlyniadau neu effeithiau negyddol o'r Cynllun a'r prosiectau mae wedi eu cefnogi?
(Holi ynghylch: Rhowch enghreifftiau. Cystadleuaeth gyda gwasanaethau sy'n bod eisoes. Prosiect heb fod yn cael ei ddefnyddio fel y bwriadwyd. Gwrthdaro â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.)
5. Sut mae'r prosiectau a gyllidwyd trwy'r Cynllun wedi cefnogi nodau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â Bioamrywiaeth?
(Holi ynghylch: Effeithiau uniongyrchol / effeithiau anuniongyrchol / canlyniadau anfwriadol)
(Anogaethau: Beth yw'r effeithiau negyddol anfwriadol ar nodau bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru, os oes rhai o gwbl? Mae polisiâu a deddfwriaeth berthnasol Llywodraeth Cymru yn cynnwys: Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016; Cynllun Adfer Natur Cymru 2020-21; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015)

6. Sut mae'r prosiectau a gyllidwyd trwy'r Cynllun wedi cefnogi nodau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â lleihau gwastraff?
(Holi ynghylch: Effeithiau uniongyrchol / effeithiau anuniongyrchol / canlyniadau anfwriadol)
(Anogaethau: Beth yw'r effeithiau negyddol anfwriadol ar nodau lleihau gwastraff Llywodraeth Cymru, os oes rhai o gwbl? Mae polisiâu a deddfwriaeth berthnasol Llywodraeth Cymru yn cynnwys: Mwy nag ailgylchu; y Rhaglen Lywodraethu; Tuag at Ddyfodol Diwastraff: ein strategaeth wastraff; Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon)
7. Sut mae'r prosiectau a gyllidwyd trwy'r Cynllun wedi cefnogi blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru?
(Holi ynghylch: Effeithiau uniongyrchol / effeithiau anuniongyrchol / canlyniadau anfwriadol)
(Anogaethau: Beth yw'r effeithiau negyddol anfwriadol ar flaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru, os oes rhai o gwbl? Mae polisiâu a deddfwriaeth berthnasol Llywodraeth Cymru yn cynnwys: Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016; Allyriadau Sero Net erbyn 2050; y Rhaglen Lywodraethu; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015)

Cwestiynau Ychwanegedd

Rydym wedi sôn am ganlyniadau a'r effeithiau'r Cynllun a'r prosiectau mae wedi eu cefnogi. Hoffem nawr ystyried beth allai fod wedi digwydd pe na bai'r Cynllun yn bod.

8. Ydych chi'n gwybod am unrhyw ddewisiadau eraill o gyllid a chymorth i'r prosiectau rydym wedi eu trafod?
(Holi ynghylch: Pa ffynonellau eraill o gyllid a chymorth sydd ar gael? Pa mor hawdd yw cael atynt? Beth yw eu manteision/anfanteision o gymharu â'r Cynllun?)

Cwestiynau Cyfeiriad y Cynllun yn y Dyfodol

Yn dilyn ein trafodaeth uchod ynghylch effeithiau a chydawnsedd Cynllun y Dreth Gwarediadau â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, hoffem drafod cyfeiriad y Cynllun yn y dyfodol.

9. Yn y dyfodol, sut ydych chi'n meddwl y gallai'r Cynllun gynyddu ei gysylltiadau â blaenoriaethau a strategaethau Llywodraeth Cymru ym meysydd yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd?
(Anogaeth: Meddylwch am eich rôl a'ch profiad.)

10. Ar sail eich profiad a dealltwriaeth o'r Cynllun, beth fydddech chi'n ei awgrymu fel dewisiadau ar gyfer cyllido'r Cynllun yn y dyfodol?

(Anogaeth: Beth yw'r dewisiadau eraill o ran cyllido?)

(Holi ynghylch: Beth yw manteision y rhain? Beth yw'r anfanteision?)

Cwestiwn olaf

11. Ar sail eich arbenigedd a phrofiad, sut hoffech chi weld y Cynllun yn datblygu yn y dyfodol?

Ymgeiswyr Aflwyddiannus

Cyflwyniad

Deallwn eich bod wedi ymgeisio am grant Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi i gefnogi prosiect ond na fuoch yn llwyddiannus. Mae gennym ddiddordeb mawr yn eich profiad o ymgeisio i'r Cynllun.

1. Allwch chi ddweud wrthym sut y daethoch chi i ymgeisio am grant y Cynllun?
(Holi ynghylch: Sut daethoch chi i wybod am y cynllun grant? Beth oedd eich symbyliad i ymgeisio? Wnaethoch chi ymgeisio ar ran sefydliad? Ynglŷn â beth oedd eich prosiect. Allwch chi gofio'r thema'r oedd eich prosiect yn ei gwireddu? Pa bryd wnaethoch chi ymgeisio? Pa fath o grant wnaethoch chi geisio amdano?)

Cwestiynau Gwerthuso'r Broses

Mae gennym ddiddordeb mawr yn eich profiad o'r broses ymgeisio a dyfarnu, yn ogystal â'r cymorth a gawsoch chi drwy gydol y broses ymgeisio.

2. Beth oedd eich profiad o'r broses ymgeisio i'r Cynllun?
(Anogaethau: Agweddau cadarnhaol; agweddau negyddol; cwynion; adborth; enghreifftiau; oedd gennych chi unrhyw bryderon am y broses? Amser/eglurder/cymorth a roddwyd/ cyfathrebu/anawsterau technegol/dyddiadau cau/gwaith papur/cyflymder/gofynion clir)
3. Beth oedd eich profiad o broses ddyfarnu'r Cynllun?
(Anogaethau: Agweddau cadarnhaol; agweddau negyddol; cwynion; adborth; enghreifftiau. Pa mor hir cyn derbyn ymateb? Adborth a dderbyniwyd? Oedd gennych chi unrhyw bryderon am y broses? Wnaethoch chi godi'r pryderon hyn? A ymatebwyd iddyn nhw?)
4. Mae'r broses ymgeisio i'r Cynllun yn cynnwys dau gylch cyllido gyda dwy alwad am geisiadau bob blwyddyn, neu un alwad y flwyddyn am brosiectau sy'n ceisio dros £50,000 (grantiau o bwys cenedlaethol). Mae'r cylchoedd cyllido hyn yn dylanwadu ar faint o amser sydd gan ymgeiswyr i geisio i'r Cynllun a pha mor aml y caiff dyfarniadau eu gwneud. A wnaeth y cylchoedd grantiau hyn effeithio ar eich cais ar gyfer y Cynllun?
(Holi ynghylch: Sut/pam wnaeth y cylchoedd cyllido ddylanwadu ar eich cais? Amser/graddfeydd amser yn cydreddeg â'ch prosiect. Enghreifftiau.)

Cwestiynau Gwerthuso Effeithiau

Fel rhywun a gymerodd ran ym mhroses ymgeisio a dyfarnu'r Cynllun, mae gennym ddi-ddordeb yn sut mae hyn wedi effeithiau ar y prosiect roeddech chi wedi'i fwriadu a'ch bwriadau i ymgeisio am gyllid yn y dyfodol.

5. Fyddech chi'n ymgeisio i'r Cynllun eto yn y dyfodol?
(Holi ynghylch: Os byddech, pam? Os na, pam ddim? Neu fyddech chi'n annog sefydliad arall i ymgeisio?)

6. Sut ydych chi'n teimlo ynghylch ymdrechion yn y dyfodol i geisio cyllid a chyflawni prosiectau?
(Holi ynghylch: Graddau symbyliad; newidiadau a wnaed i'r dull; wnaethoch barhau i geisio cyflawni prosiectau a chael cyllid?)

Cwestiynau Ychwanegedd

Rydym wedi sôn am eich cais i'r Cynllun. Hoffem nawr ystyried beth ddigwyddodd i'ch prosiect ar ôl i'ch cais gael ei wrthod.

7. A oedd eich prosiect wedi cael ei greu'n benodol gyda'r Cynllun mewn cof?
(Holi ynghylch: A oedd y prosiect yn ymateb i'r Cynllun neu a oedd yn bod o'r blaen? A fyddai thema a chwmpas eich prosiect wedi bod yn wahanol?)

8. A yw eich prosiect wedi mynd yn ei flaen mewn rhyw ffurf?
*(Anogaeth: A wnaeth elfennau o'ch prosiect newid o'ch cais cychwynnol i'r Cynllun?)
(Holi ynghylch: Pa agweddau a newidiodd? Pam? Lleoliad; thema; cyllideb; cwmpas arall)*

9. Os aeth eich prosiect yn ei flaen, beth oedd ei effeithiau/canlyniadau allweddol?
(Anogaeth: Enghreifftiau o'r canlynol: Lleihau gwastraff; gwella llecynnau gwyrdd; bioamrywiaeth; ymwybyddiaeth amgylcheddol; buddion cymdeithasol/cymunedol. Lle gwnaeth y buddion hyn Gronni? Effeithiau cadarnhaol. Effeithiau negyddol (anfwriadol))

10. Ydych chi wedi llwyddo i sicrhau modd arall o gyllid i'ch prosiect?
*(Anogaethau: Pa ffynonellau eraill o gyllid sydd ar gael? Pa mor hawdd yw cael atynt? Pa ffynhonnell y gyllid wnaethoch chi lwyddo'i gael?)
(Holi ynghylch: Hunan-gyllido; cyllid preifat; rhaglen grantiau neu fenthyciadau)
Ydych chi'n gwybod am gynlluniau grant eraill perthnasol? Sut oedd y cyllid yn wahanol i Cynllun y Dreth Gwarediadau?
(Holi ynghylch: Swm; amodau; manteision/anfanteision y math arall o gyllid)*

Cwestiwn olaf

11. Ar sail eich profiad o'r Cynllun, oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer ei wella?

(Holi ynghylch: Y broses ymgeisio/dyfarfnu; themâu ac amcanion)

Gweithredwr yng Nghynlluniau Lloegr a Gogledd Iwerddon

Cyflwyniad

1. Allwch chi ddweud wrthym am rôl ENTRUST yng nghynllun y Gronfa Cymunedau Tirlenwi?
(Holi ynghylch: Ymgeisio; asesu; rheoli; monitro)
2. Deallwn fod Entrust yn cofrestru cyrff amgylcheddol. Allwch chi ddweud wrthym sut mae eich perthynas gyda'r cyrff amgylcheddol hyn yn gweithio o safbwynt y Gronfa Cymunedau Tirlenwi? A yw'r cyrff amgylcheddol yn gwneud penderfyniadau ar ddyfarnu cyllid a dosbarthu'r cronfeydd?
3. Beth yn eich barn chi yw'r manteision o gael amrywiol gyrrff amgylcheddol cymeradwy a all ddsbarthu'r cronfeydd, fel yng nghynllun Lloegr, o gymharu ag un yn unig fel yng Nghymru?
4. Beth yn eich barn chi yw'r anfanteision o gael amrywiol gyrrff amgylcheddol cymeradwy a all ddsbarthu'r cronfeydd, fel yng nghynllun Lloegr, o gymharu ag un yn unig fel yng Nghymru?
5. Deallwn fod cynlluniau eraill gyda phortholion ymgeisio ar wahân a gaiff eu rhedeg gan weithredwyr tirlenwi. Beth yw rôl y gweithredwyr safleoedd tirlenwi hyn? Beth yw cysylltiad y gweithredwyr hyn ag ENTRUST?

Cwestiynau Gwerthuso'r Broses

Mae gennym ddiddordeb mawr yn eich profiad o weinyddu'r cais, asesu a rheolaeth barhaus o'r broses.

6. Allwch chi roi disgrifiad byr inni o sut rydych chi'n rheoli a phrosesu ceisiadau, a sut ydych chi'n monitro'r rheini y dyfarnwyd cyllid iddyn nhw?
(Holi ynghylch: Ymgeisio; asesu; rheoli; monitro)
7. Beth oedd cryfderau proses ymgeisio'r Gronfa Cymunedau Tirlenwi? (Beth sydd wedi gweithio'n dda?)
(Holi ynghylch: A yw ymgeiswyr yn llenwi'r cais yn gywir? Enghreifftiau. Adborth cadarnhaol a dderbyniwyd?)
8. Beth oedd heriau proses ymgeisio'r Gronfa Cymunedau Tirlenwi? (Beth na wnaeth weithio cystal?)
(Holi ynghylch: Enghreifftiau. Adborth negyddol a dderbyniwyd?)

9. Beth oedd cryfderau proses asesu'r Gronfa Cymunedau Tirlenwi? (Beth sydd wedi gweithio'n dda?)
(*Holi ynghylch: Enghreifftiau. Adborth cadarnhaol a dderbyniwyd?*)
10. Beth oedd heriau proses asesu'r Gronfa Cymunedau Tirlenwi? (Beth na wnaeth weithio cystal?)
(*Holi ynghylch: Enghreifftiau. Adborth negyddol a dderbyniwyd?*)
11. Beth oedd y cryfderau o ran rheoli parhaus y cynllun? (Beth sydd wedi gweithio'n dda?)
(*Holi ynghylch: Effeithlonrwydd; adnoddau ar gael; cefnogaeth; defnyddio data. Sut ydych chi'n monitro perfformiad prosiectau a gymeradwywyd?*)
12. Beth oedd yr heriau o ran rheoli parhaus y cynllun?
(*Holi ynghylch: Effeithlonrwydd; adnoddau ar gael; cefnogaeth. Sut cafodd y data ei ddefnyddio?*)

Cwestiynau Gwerthuso Effeithiau

13. Ar sail eich arsylwadau, ydych chi o'r farn fod y prosiectau a gafodd eu cyllido wedi arwain yn gyffredinol at ganlyniadau amgylcheddol cadarnhaol?
(*Annog: Allwch chi nodi'r 3 phrif ganlyniad amgylcheddol a'u gosod mewn trefn?*)
(*Holi ynghylch: A gafodd amcanion y cynllun eu cyflawni? Amcan A – Adennill tir; Amcan B – Atal llygredd; Amcan D – Gwella amwynderau cyhoeddus; Amcan DA – Gwarchod bioamrywiaeth; Amcan E – Adfer adeiladau hanesyddol*)
14. Pam y cafwyd gwared ar Amcanion C (lleihau gwastraff), CC (ailgylchu gwastraff), ac F (gwasanaethau i Gyrrff Amgylcheddol eraill), a pham nad yw'r prosiectau hyn yn cael eu cyllido mwyach?
15. Ydych chi'n meddwl bod y buddion amgylcheddol a gyflawnwyd gan y cynllun yn gwrthbwysu'r gost (effeithlonrwydd)?
(*Annog: A oes unrhyw fathau neu feintiau (gwerth £) penodol o brosiectau lle mae'r buddion yn fwy na'r costau?*)
(*Holi ynghylch: A oes unrhyw fathau neu feintiau (gwerth £) penodol o brosiectau lle mae'r buddion yn is na'r costau?*)
16. Yn dilyn ymlaen o'r drafodaeth honno, a fu, yn eich barn chi, unrhyw ganlyniadau negyddol o gynllun y Gronfa Cymunedau Tirlenwi?

(Holi ynghylch: Rhowch enghreifftiau. Cystadleuaeth gyda gwasanaethau sy'n bod eisoes? Prosiect heb fod yn cael ei ddefnyddio fel y bwriadwyd?)

Cwestiynau Cyfeiriad y Cynllun yn y Dyfodol

17. Sut ydych chi'n gweld y Gronfa Cymunedau Tirlenwi yn datblygu yn y dyfodol?
(Holi ynghylch: Pam? Dyfodol cyllido? Gan fod cyfraniadau treth tirlenwi yn gostwng. Blaenoriaethau llywodraeth?)

18. Wrth edrych ymlaen, pa newidiadau hoffech chi eu gweld yn y Gronfa Cymunedau Tirlenwi?
(Holi ynghylch: Y newidiadau pwysicaf/rhai â effeithiau mawr; y newidiadau symlaf)

19. I ba raddau mae cydweithio/rhannu gwybodaeth rhwng cynllun Lloegr a chynlluniau Cymru a'r Alban?
(Holi ynghylch: Sut ydych chi'n meddwl y dylai hyn newid wrth symud ymlaen?)

20. Pa arferion da o Gronfa Cymunedau Tirlenwi Lloegr y gallai Cynllun Cymunedol Treth Gwarediadau Tirlenwi Cymru ddysgu ohonynt?
(Annog: ee rôl gweithredwyr tirlenwi megis SUEZ)

Cwestiwn olaf

21. A oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ychwanegu?

Gweithredwr yng Nghynllun yr Alban

Cyflwyniad

1. Allwch chi ddweud wrthym beth yw eich rôl a rôl SEPA yng nghynllun Cronfa Cymunedau Tirlenwi yr Alban?
(Holi ynghylch: Ymgeisio; asesu; rheoli; monitro)
2. Beth yw rôl y Cyrff Cymeradwy? Ai dosbarthu cronfeydd yn unig y maen nhw neu ydyn nhw hefyd yn ymwneud â phenderfynu pa brosiectau i'w cyllido, ac yn y monitro?
(Holi ynghylch: Sut mae'r cyrff cymeradwy a SEPA yn cydweithio â'i gilydd?)
3. Beth yn eich barn chi yw'r manteision o gael amrywiol gyrrff amgylcheddol cymeradwy a all ddsbarthu'r cronfeydd, fel yng nghynllun yr Alban, o gymharu ag un yn unig fel yng Nghymru?
4. Beth yn eich barn chi yw'r anfanteision o gael amrywiol gyrrff amgylcheddol cymeradwy a all ddsbarthu'r cronfeydd, fel yng nghynllun yr Alban, o gymharu ag un yn unig fel yng Nghymru?

Cwestiynau Gwerthuso'r Broses

5. Allwch chi roi disgrifiad byr inni o sut rydych chi'n rheoli a phrosesu ceisiadau, a sut ydych chi'n monitro'r rheini y dyfarnwyd cyllid iddyn nhw?
6. Beth oedd cryfderau proses ymgeisio Cronfa Cymunedau Tirlenwi yr Alban? (Beth sydd wedi gweithio'n dda?)
(Holi ynghylch: A yw ymgeiswyr yn llenwi'r cais yn gywir? Enghreifftiau. Adborth cadarnhaol a dderbyniwyd?)
7. Beth oedd heriau proses ymgeisio Cronfa Cymunedau Tirlenwi yr Alban? (Beth na wnaeth weithio cystal?)
(Holi ynghylch: Enghreifftiau. Adborth negyddol a dderbyniwyd?)
8. Beth oedd cryfderau proses asesu Cronfa Cymunedau Tirlenwi yr Alban? (Beth sydd wedi gweithio'n dda?)
(Holi ynghylch: Enghreifftiau. Adborth cadarnhaol a dderbyniwyd?)

9. Beth oedd heriau proses asesu Cronfa Cymunedau Tirlenwi yr Alban? (Beth na wnaeth weithio cystal?)
(*Holi ynghylch: Enghreifftiau. Adborth negyddol a dderbyniwyd?*)
10. Beth oedd y cryfderau o ran rheoli parhaus y cynllun? (Beth sydd wedi gweitho'n dda?)
(*Holi ynghylch: Effeithlonrwydd; adnoddau ar gael; cefnogaeth; defnyddio data. Sut ydych chi'n monitro perfformiad prosiectau a gymeradwywyd?*)
11. Beth oedd yr heriau o ran rheoli parhaus y cynllun?
(*Holi ynghylch: Effeithlonrwydd; adnoddau ar gael; cefnogaeth. Sut cafodd y data ei ddefnyddio?*)

Cwestiynau Gwerthuso Effeithiau

12. Ar sail eich arsylwadau, pa ganlyniadau amgylcheddol cadarnhaol mae'r prosiectau a gafodd eu cyllido wedi eu cyflawni?
(*Holi ynghylch: A gafodd amcanion y cynllun eu cyflawni? Amcan A – Adennill tir; Amcan B – Ailgylchu/ailddefnyddio; Amcan C – Gwella amwynderau cyhoeddus; Amcan D – Gwarchod bioamrywiaeth; Amcan E – Adfer adeiladau hanesyddol; Amcan F – Gwasanaethau. A oes rheswm pam fod prosiectau Amcan C wedi cymryd 80% (£26.6m o'r £32m) o gyllideb y cynllun hyd yma? Allwch chi nodi'r 3 phrif ganlyniad amgylcheddol a'u gosod mewn trefn?*)
13. Ydych chi'n meddwl bod y buddion amgylcheddol a gyflawnwyd gan y cynllun yn gwrthbwysu'r gost (effeithlonrwydd)?
(*Holi ynghylch: A oes unrhyw fathau neu feintiau (gwerth £) penodol o brosiectau lle mae'r buddion yn fwy na'r costau? A oes unrhyw fathau neu feintiau (gwerth £) penodol o brosiectau lle mae'r buddion yn is na'r costau?*)
14. Yn dilyn ymlaen o'r drafodaeth honno, a fu, yn eich barn chi, unrhyw ganlyniadau negyddol o gynllun Cronfa Cymunedau Tirlenwi yr Alban?
(*Holi ynghylch: Rhowch enghreifftiau. Cystadleuaeth gyda gwasanaethau sy'n bod eisoes? Prosiect heb fod yn cael ei ddefnyddio fel y bwriadwyd?*)

Cwestiynau Cyfeiriad y Cynllun yn y Dyfodol

15. Sut ydych chi'n gweld Cronfa Cymunedau Tirlenwi yr Alban yn datblygu yn y dyfodol?

(Annog: Mae cyfraniadau blynyddol wedi gostwng o £8.6m yn 2017-18 i £6m yn 2019-20 a rhagwelir y byddant yn gostwng ymhellach (i £5m y flwyddyn dros y 4 blynedd nesaf, gydag oedi i wahardd ar dirlenwi BMW).)

Holi ynghylch: Gan fod cyfraniadau treth tirlenwi yn gostwng, chwilio am gyllid arall. Blaenoriaethau Llywodraeth yr Alban?)

16. Wrth edrych ymlaen, pa newidiadau hoffech chi eu gweld yng Nghronfa Cymunedau Tirlenwi yr Alban?

(Holi ynghylch: Y newidiadau pwysicaf/rhai â effeithiau mawr; y newidiadau symlaf)

17. I ba raddau mae cydweithio/rhannu gwybodaeth rhwng cynllun yr Alban a chynlluniau Cymru a Lloegr?

(Holi ynghylch: Sut ydych chi'n meddwl y dylai hyn newid wrth symud ymlaen?)

18. Pa arferion da o Gronfa Cymunedau Tirlenwi yr Alban y gallai Cynllun Cymunedol Treth Gwarediadau Tirlenwi Cymru ddysgu ohonynt?

Cwestiwn olaf

19. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ychwanegu?

Awdurdod Cyllid Cymru / Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyflwyniad

1. Allwch chi ddisgrifio eich sefydliad a'ch rôl o fewn Awdurdod Cyllid Cymru?
(*Annog: Ydych chi'n weithredwr safle tirlenwi neu ydych chi'n gweithio i Cyfoeth Naturiol Cymru?*)
2. Sut mae eich sefydliad yn ymwneud â Chynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi?
(*Annog: Bob blwyddyn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi data i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru o'r ffurflenni gwastraff a gyflwynwyd gan bob gweithredwr safleoedd tirlenwi a gorsafoedd trosglwyddo gwastraff ledled Cymru. Dengys y data hwn y safleoedd hynny sydd wedi adrodd am dros 2,000 o dunelli dros y flwyddyn flaenorol. Mae'r map o safleoedd cymwys wedyn yn cael ei ddiweddarau gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru mewn pryd ar gyfer y cylch nesaf o gyllido.*)
(*Holi ynghylch: Allwch chi ddisgrifio eich gweithgareddau o ddydd i ddydd?*)

Cwestiynau Gwerthuso Effeithiau

3. Beth yn eich barn chi oedd canlyniadau cadarnhaol Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi?
(*Annog: Gallai canlyniadau cadarnhaol gynnwys: Ymysg cymunedau mae safleoedd tirlenwi a gorsafoedd trosglwyddo gwastraff wedi effeithio arnynt: mwy o ymwybyddiaeth amgylcheddol; mwy o ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth; mwy o ddefnydd o gynhyrchion cynaliadwy; grwpiau cymunedol newydd yn cael eu ffurfio o ganlyniad i'r cyllid*)
4. Pa ymddygiadau amgylcheddol cadarnhaol ydych chi'n meddwl sydd wedi cael eu hyrwyddo yn sgil gweithredu prosiectau a gyllidwyd gan y Cynllun, os o gwbl?
5. Beth yw'r canlyniadau cadarnhaol anfwriadol sydd wedi deillio o'r Cynllun, os o gwbl?
6. Beth oedd canlyniadau negyddol y Cynllun, os o gwbl?
7. Beth oedd y canlyniadau negyddol anfwriadol sydd wedi deillio o'r Cynllun?

Cwestiynau am Gyfeiriad y Cynllun yn y Dyfodol

8. Sut y rhagwelir y bydd nifer y tunelli o wastraff a anfonir i dirlenwi yn newid yng Nghymru? A ragwelir y byddant yn cynyddu neu leihau?
Sut mae'r amcanestyniad hwn yn effeithio ar ddichonoldeb y cynllun yn y dyfodol?

9. Mae'r nifer o safleoedd tirlenwi wedi gostwng o 24 yn 2015 i 19 yn 2019. Sut y rhagwelir y bydd y nifer o safleoedd tirlenwi yn newid yng Nghymru?
(Annog: A ragamcenir y byddant yn cynyddu neu leihau? Pam ydych chi'n meddwl fod hynny? Pa broblemau/buddion a ddaw o ganlyniad i'r cynnydd/lleihad hwn?)
10. Mae'r nifer o orsafoedd trosglwyddo gwastraff wedi aros fwy neu lai yn gyson rhwng 220 a 226 rhwng 2015 a 2019. Sut y rhagwelir y bydd nifer y gorsafoedd trosglwyddo gwastraff yn newid yng Nghymru?
(Annog: Pam ydych chi'n meddwl fod hynny? Pa broblemau/buddion a ddaw o ganlyniad i'r cynnydd/lleihad hwn?)
11. Mae rhagolwg trethi Cymru ([Diweddariad Mehefin 2021](#)) yn rhagamcanu y bydd refeniw treth o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn lleihau ychydig o £34 miliwn yn 2021-22 i £32 miliwn yn 2025-26. Sut mae'r rhagamcan hwn yn effeithio ar ddichonoldeb y Cynllun yn y dyfodol?
(Holi: Ydych chi'n meddwl bod rhaglen grantiau yn y dyfodol yn debygol?)
12. Pa ddewisiadau cyllido eraill sy'n bod i gyllido prosiectau tebyg yn y dyfodol pe bai Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cael ei ddiddymu?
13. O'ch arsylwadau, pa ffactorau allanol sydd wedi effeithio ar y Cynllun?
(Annog: Covid-19, lleihad yn y defnydd o dirlenwi, newid agweddau at fyd natur a'r amgylchedd lleol, polisiâu Llywodraeth Cymru a mentrau cymunedol eraill. Sut mae'r ffactorau allanol hyn wedi effeithio ar y Cynllun?)

Atodiad B – Theori Newid

<p>Nodiadau: Mae geiriad y Dangosyddion Perfformiad Allweddol wedi newid ychydig o'r testun gwreiddiol er mwyn eu dangos fel canlyniadau yn hytrach nag allbynnau. * ar sail dangosyddion perfformiad allweddol a ddiweddarwyd * as sail fersiwn hŷn o ddangosyddion perfformiad allweddol (ni chynhwyswyd yr holl fersiynau hŷn o ddangosyddion perfformiad allweddol yma) Mae'r testun sydd mewn llwyd yn rhoi cyd-destun ychwanegol.</p>
--

Ffactorau allanol

Ffactorau y tu hwnt i reolaeth y prosiect a allai fod ag effeithiau anfwriadol cadarnhaol a negyddol ar waith a/neu effeithiau'r prosiect

- COVID-19, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i rai prosiectau addasu i anghenion penodol neu ddod i ben yn gyfan gwbl (ee fe wnaeth rhai prosiectau addasu i ganolbwyntio eu gwaith ar aiddosbarthu bwyd i deuluoedd mewn angen; rhai prosiectau yn defnyddio rhywfaint o'r gyllideb i is-gontractwyr gan na allent ddefnyddio gwirfoddolwyr ar y pryd)
- Lleihad yn y swm o wastraff a oedd yn cael ei anfon i dirlenwi ac yn y nifer o safleoedd tirlenwi a gorsafoedd trosglwyddo gwastraff (> 2,000 o dunelli y flwyddyn) a fydd yn lleihau'r cyllid sydd ar gael a'r nifer o ardaloedd sy'n gymwys
- Newidiadau i bolisi Llywodraeth Cymru a allai effeithio ar amcanion Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ac ar gyflawni prosiectau, gan gynnwys newidiadau neu ddiweddiadau a wneir i'r Rhaglen Lywodraethu newydd, y Cynllun Gweithredu Adfer Natur, a strategaeth gwastraff Cymru
- Polisiâu, rhaglenni a pheynnau eraill o gymorth Llywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar weithredu meysydd tebyg (ee cyflwynodd Llywodraeth Cymru drydydd pecyn o gymorth COVID-19 i gynyddu ymwybyddiaeth busnesau o'r Cynllun, gan arwain at ymgeiswyr ychwanegol dros y flwyddyn ddiwethaf)
- Effeithiau prosiectau a sefydliadau eraill sydd ag amcanion tebyg (ee FareShare Cymru)
- Newid ymddygiad ac agweddau cymunedau tuag at natur a'r amgylchedd (mae mynediad at lecynnau gwyrdd dros gyfnod COVID wedi newid agwedd er gwell tuag at yr amgylchedd)

<p>Mewnbynnau</p> <p><i>(yr adnoddau a ymrwymwyd a gweithgareddau a gyflawnwyd i gynhyrchu allbynnau prosiectau)</i></p>	<p>Allbynnau</p> <p><i>(cynhyrchion uniongyrchol gweithgareddau prosiectau a gallant gynnwys mathau, lefelau a thargedau gwasanaethau i'w cyflwyno gan y prosiect)</i></p>	<p>Canlyniadau</p> <p><i>(newidiadau penodol yn deillio o brosiectau; effeithiau tymor byr i dymor canolig)</i></p> <p><i>* Dangosyddion Perfformiad Allweddol ffurfiol Cynllun y Dreth Gwarediadau</i></p>	<p>Effeithiau</p> <p><i>(newid sylfaenol, bwriadol ac anfwriadol, sy'n digwydd mewn sefydliadau, cymunedau, neu systemau o ganlyniad i weithgareddau prosiect o fewn yr hirdymor)</i></p>
<p>Adnoddau ariannol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • £1.5M cyfanswm cyllid y flwyddyn <ul style="list-style-type: none"> o £1.4m ar brosiectau o £0.1m ar weinyddu <p>Adnoddau staff:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llywodraeth Cymru – cyfarwyddo strategol a perchnogaeth o Gynllun y Dreth Gwarediadau wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth, gweithredu'r cynllun a goruchwyllo gwaith y rhaglen • Cyngor Gweithedu Gwirfoddol Cymru – y corff aelodaeth cenedlaethol i sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru. Gweithredu'r Cynllun o dan gantract gyda Llywodraeth Cymru. 	<p>Amrywiaeth o brosiectau o dan arweiniad gwahanol sefydliadau o fewn cymunedau Cymru, sy'n disgyn o dan dair thema Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi</p> <p><i>Manylir ar gategoriâu ac enghreifftiau o brosiectau isod</i></p>	<p>Canlyniadau cadarnhaol cyffredinol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymunedau'n elwa o gyllid Cynllun y Dreth Gwarediadau * • Pobl yn ymwneud â'r Cynllun ac yn gwybod amdano (gan gynnwys gwirfoddolwyr ac aelodau'r gymuned)* • Digwyddiadau/Sgyrsiau/Cyflwyniadau ennyn diddordeb neu ymgyrchoedd Codi Ymwybyddiaeth yn cael eu trefnu * • Cynhyrchu incwm * • Creu swyddi * • Diogelu swyddi* • Arbed neu leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr / carbon • Cynnig cyfleoedd hyfforddiant neu brofiad gwaith* • Denu ymwelwyr* 	<p>Cyfraniadau at amcanion a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru</p> <ul style="list-style-type: none"> • Allyriadau sero net erbyn 2050 • Mwy nag Ailgyrchu – Strategaeth i wneud Economi Gylchol Cymru yn realiti <p><i>Yr economi gylchol – cadw deunyddiau mewn defnydd ac osgoi gwastraff. Blaenoriaethau allweddol – dim gwastraff, atgyweirio, aildefnyddio, ailweithgynhyrchu, carbon sero net a'r manteision o bontio i economi gylchol a ffordd un blaned o fyw.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (deddfwriaeth) yr uchelgais, caniatâd a'r rhwymedigaeth gyfreithiol i wella'n

Mewnbynnau <i>(yr adnoddau a ymrwymwyd a gweithgareddau a gyflawnwyd i gynhyrchu allbynnau prosiectau)</i>	Allbynnau <i>(cynhyrchion uniongyrchol gweithgareddau prosiectau a gallant gynnwys mathau, lefelau a thargedau gwasanaethau i'w cyflwyno gan y prosiect)</i>	Canlyniadau <i>(newidiadau penodol yn deillio o brosiectau; effeithiau tymor byr i dymor canolig)</i> <i>* Dangosyddion Perfformiad Allweddol Jfurfiol Cynllun y Dreth Gwarediadau</i>	Effeithiau <i>(newid sylfaenol, bwriadol ac anfwriadol, sy'n digwydd mewn sefydliadau, cymunedau, neu systemau o ganlyniad i weithgareddau prosect o fewn yr hirdymor)</i>				
<ul style="list-style-type: none"> Cynghorau Gwirfoddol Sirol – <i>cymdeithas o sefydliadau gwirfoddol, mae 19 ohonynt, sy'n ymestyn dros y 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Cyngor i ymgeiswyr ar gymhwysedd; asesu ceisiadau prosiectau.</i> <i>Amser/adnoddau cymunedau / sefydliadau i ddatblygu a chyflwyno ceisiadau</i> <i>Amser pwyllgorau wrth asesu a chynghori ar geisiadau a gyflwynir hyd at gytuno ar brosiectau i'w cyllido</i> <p>Darparu data:</p> <ul style="list-style-type: none"> Gweithredwyr safleoedd tirlenwi – <i>darparu data am safleoedd tirlenwi</i> Cyfoeth Naturiol Cymru – <i>darparu data i adnabod ardaloedd cymwys</i> 		<ul style="list-style-type: none"> Cydberthynas gryfach â'r gymuned Grwpiau cymunedol yn cael eu ffurfio mewn ymateb i weld bod y cyllid hwn ar gael yn golygu cymuned amgylcheddol gryfach yng Nghymru Perchnogaeth leol, ennill sgiliau a phrofiadau Grwpiau nad ydynt yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar yr amgylchedd yn dod i ymwneud â gwaith amgylcheddol (ee <i>elusennau iechyd meddwl yn defnyddio a gwella llecynnau gwyrdd i wella iechyd meddwl y gymuned ehangach</i>) Cymunedau yn ceisio am gyllid arall ar gyfer prosiectau sy'n bod eisoes neu brosiectau eraill yn sgil y profiad o ymwneud â'r Cynllun hwn Codi ymwybyddiaeth o nodau llesiant fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Ennill dilynwyr ar gyfryngau cymdeithasol (nifer o ddilynwyr unigol a gofrestrwyd)* Rhagamcan o arbedion costau (£)* 	<p><i>llesiant diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd</i></p> <ul style="list-style-type: none"> Y Rhaglen Lywodraethu <i>ac iddi'r nod o Gymru iach, ddiogel a llewyrchus lle mae pawb yn gallu cyfrannu a chyrraedd eu llawn botensial.</i> <ul style="list-style-type: none"> <i>Symud Cymru Ymlaen 2016-2021</i> <i>Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol</i> <i>Y Rhaglen Lywodraethu 2021-2026</i> Cynllun Gweithredu Adfer Natur (2016 and 2020) <i>ei nod yw atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth</i> Strategaeth Tlodi Plant <i>gwella canlyniadau i aelwydydd incwm isel</i> Deddf Teithio Llesol <i>Ei nod yw rhwydwaith o lwybrau diogel, uniongyrchol, cydlynus ar gyfer cerdded a beicio</i> Law yn llaw at Iechyd Meddwl <i>Strategaeth trawslywodraethol ar gyfer gwella iechyd meddwl a gwasanaethau iechyd meddwl</i> Pwysau Iach: Cymru Iach <i>Ei nod o atal a lleihau gordewdra yng Nghymru</i> Symud Cymru Ymlaen Tuag at Ddyfodol Diwastraff <i>Nod o leihau gwastraff yn sylweddol erbyn 2050 a chyflawni sefyllfa o ddim gwastraff (lle caiff pob gwastraff ei aildefnyddio neu ei ailgylchu erbyn 2050</i> Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio <i>Ei nod yw gwella amodau i bryfed peillio a cheisio atal a gwrthdroi eu dirywiad yng Nghymru</i> Cymru ddi-dipio 				
	<p style="text-align: center;">Bioamrywiaeth</p> <table border="1" style="width: 100%;"> <thead> <tr> <th data-bbox="506 1005 855 1061">Categoriâu o brosiectau bioamrywiaeth</th> <th data-bbox="855 1005 1207 1061">Enghreifftiau o fathau o brosiectau bioamrywiaeth</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td data-bbox="506 1061 855 1484"> <ul style="list-style-type: none"> Gwella amodau i helpu rhywogaethau cynhenid, peillwyr a darparu cyfleoedd i blannu o'r newydd Adfer, cynnal a gwella cynefinoedd naturiol Ennyn diddordeb ac annog cyfranogiad a dealltwriaeth i orseddu a chadarnhau bioamrywiaeth </td> <td data-bbox="855 1061 1207 1484"> <ul style="list-style-type: none"> Prosiectau sy'n diogelu rhywogaethau Cynnal a gwella cynefinoedd i wella amodau rhywogaethau lleol Digwyddiadau, dyddiau hyfforddi a sesiynau ysgolion i helpu ennyn diddordeb ac addysgu plant mewn natur Prosiectau adfywio coetiroedd naturiol </td> </tr> </tbody> </table>	Categoriâu o brosiectau bioamrywiaeth	Enghreifftiau o fathau o brosiectau bioamrywiaeth	<ul style="list-style-type: none"> Gwella amodau i helpu rhywogaethau cynhenid, peillwyr a darparu cyfleoedd i blannu o'r newydd Adfer, cynnal a gwella cynefinoedd naturiol Ennyn diddordeb ac annog cyfranogiad a dealltwriaeth i orseddu a chadarnhau bioamrywiaeth 	<ul style="list-style-type: none"> Prosiectau sy'n diogelu rhywogaethau Cynnal a gwella cynefinoedd i wella amodau rhywogaethau lleol Digwyddiadau, dyddiau hyfforddi a sesiynau ysgolion i helpu ennyn diddordeb ac addysgu plant mewn natur Prosiectau adfywio coetiroedd naturiol 	<p style="text-align: center;">Bioamrywiaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> Gwell amodau i rywogaethau cynhenid a pheillwyr* Cynnydd mewn rhywogaethau cynhenid a pheillwyr / plannu coed cynhenid * Adfer, cynnal a gwella cynefinoedd naturiol* Mwy o ymwybyddiaeth o bwysigrwydd a materion bioamrywiaeth* Mwy o ymwneud gan y gymuned wrth ymdrin â materion bioamrywiaeth* Llai o rywogaethau goresgynnol / rheoli safleoedd o rywogaethau estron goresgynnol * Gwella coetiroedd a gwella prosesau rheoli coetiroedd * Gwell rheolaeth o dirweddau a dalgylchoedd* 	
Categoriâu o brosiectau bioamrywiaeth	Enghreifftiau o fathau o brosiectau bioamrywiaeth						
<ul style="list-style-type: none"> Gwella amodau i helpu rhywogaethau cynhenid, peillwyr a darparu cyfleoedd i blannu o'r newydd Adfer, cynnal a gwella cynefinoedd naturiol Ennyn diddordeb ac annog cyfranogiad a dealltwriaeth i orseddu a chadarnhau bioamrywiaeth 	<ul style="list-style-type: none"> Prosiectau sy'n diogelu rhywogaethau Cynnal a gwella cynefinoedd i wella amodau rhywogaethau lleol Digwyddiadau, dyddiau hyfforddi a sesiynau ysgolion i helpu ennyn diddordeb ac addysgu plant mewn natur Prosiectau adfywio coetiroedd naturiol 						

Mewnbynnau <i>(yr adnoddau a ymrwymwyd a gweithgareddau a gyflawnwyd i gynhyrchu allbynnau prosiectau)</i>	Allbynnau <i>(cynhyrchion uniongyrchol gweithgareddau prosiectau a gallant gynnwys mathau, lefelau a thargedau gwasanaethau i'w cyflwyno gan y prosiect)</i>		Canlyniadau <i>(newidiadau penodol yn deillio o brosiectau; effeithiau tymor byr i dymor canolig)</i> <i>* Dangosyddion Perfformiad Allweddol Jfurfiol Cynllun y Dreth Gwarediadau</i>	Effeithiau <i>(newid sylfaenol, bwriadol ac anfwriadol, sy'n digwydd mewn sefydliadau, cymunedau, neu systemau o ganlyniad i weithgareddau prosect o fewn yr hirdymor)</i>
		<ul style="list-style-type: none"> Creu dolydd blodau gwyllt i ddarparu bwyd i bryfed peillio Rheoli rhywogaethau goresgynnol Rheoli coetiroedd Creu safleoedd plannu cyfeillgar i beillwyr fel rhan o raglen ehangach i reoli cynefinoedd 	<ul style="list-style-type: none"> Creu, rheoli a gwella cynefin arbenigol â Blaenoriaeth Adran 7 * Cynnydd mewn plannu gwrychoedd a gwella rheolaeth gwrychoedd * Digwyddiadau annog cyfranogi (nifer o ddigwyddiadau) * Safleoedd plannu peillwyr-gyfeillgar yn cael eu creu fel rhaglen ehangach o reoli cynefinoedd * Rhannu cofnodion / data monitro * Targedu rhywogaethau â Blaenoriaeth Adran 7 	<p><i>Ei nod yw creu Cymru sy'n rhydd o'r niwed cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a achosir gan dipio anghyfreithlon</i></p> <ul style="list-style-type: none"> Coetiroedd i Gymru <i>Gyda'r nod o greu coetiroedd amrywiol o ansawdd uchel ledled Cymru</i> Deddf yr Amgylchedd <i>Ei nod yw mabwysiadu dull newydd, mwy integredig o reoli'n adnoddau naturiol er mwyn cyflawni cynaliadwyedd hirdymor</i> <ul style="list-style-type: none"> Polisi Adnoddau Naturiol sy'n pennu'r blaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd ar gyfer rheoli'n adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. <p>Dylanwadu ar bolisiau newydd y llywodraeth</p> <ul style="list-style-type: none"> Gallai llywyddiant prosiectau ddylanwadu ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno polisiau neu fentrau newydd ee caffis a chanolfannau atgyweirio etc.) i gefnogi'r gweithgareddau hyn (yn enwedig wrth i gyllid treth tirlenwi leihau) <p>Gwell ymwybyddiaeth gyhoeddus o faterion a phrosiectau</p> <ul style="list-style-type: none"> Rhannu gwybodaeth ar fanteision y prosiectau i'r cyhoedd yn ehangach <p>Buddion cymdeithasol ehangach:</p> <ul style="list-style-type: none"> Gwell iechyd meddwl a chorfforol yn sgil gwell mynediad at lecynnau gwyrdd a chyfleusterau cymunedol etc Mwy o deimlad o gymuned
	Lleihau Gwastraff		Lleihau Gwastraff	
	<p>Categoriâu o brosiectau lleihau gwastraff</p> <ul style="list-style-type: none"> Annog atal, aildefnyddio, adfer ac ailgylchu gwastraff Lleihau gwastraff bwyd ac aiddosbarthu bwyd dros ben Ennyn diddoreb a dealltwriaeth i alluogi'r pontio at economi gylchol lle mae adroddau'n parhau i gael eu defnyddio a gwastraff yn cael ei weld fel adnodd 	<p>Mathau o brosiectau lleihau gwastraff</p> <ul style="list-style-type: none"> Digwyddiadau aildefnyddio Caffis atgyweirio ac aildefnyddio Canolfannau bwyd dan arweiniad cymunedau sy'n dargyfeirio wastraff o safleoedd tirlenwi a mynd i'r afael â gwastraff bwyd Cryfhau rhwydweithiau aildefnyddio, atgyweirio ac ailgylchu dan arweiniad y gymuned trwy ennyn diddordeb, addysgu a grymuso'r boblogaeth leol 	<ul style="list-style-type: none"> Dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi * Lleihau, aildefnyddio ac ailgylchu gwastraff posibl* Incwm a arbedwyd (llai treth tirlenwi a dalwyd) / incwm a gynhyrchwyd * Gwell iechyd a sefydlogrwydd tymor byr i'r rheini a dderbyniodd fwyd dros ben a aiddosbarthwyd * Annog rhwystro, aildefnyddio, adfer ac ailgylchu gwastraff (nifer o fentrau) * Annog a chefnogi dealltwriaeth i alluogi gweld gwastraff fel adnodd (nifer o fentrau) * Nifer o bobl a gafodd eu helpu (gan gynnwys cyfraniad at liniaru tlodi bwyd neu dlodi materol os yw'n addas i'r mesur) * Lleihau gwastraff bwyd a chefnogi mentrau fel compostio (nifer o fentrau) * 	
	Gwelliannau Amgylcheddol Ehangach		Gwelliannau Amgylcheddol Ehangach	
	<p>Categoriâu o brosiectau gwelliannau amgylcheddol ehangach</p> <ul style="list-style-type: none"> Creu llecynnau cymunedol gwyrdd a chefnogi seilwaith gwyrdd 	<p>Mathau o brosiectau gwelliannau amgylcheddol ehangach</p> <ul style="list-style-type: none"> Creu amwynderau awyr agored (ee lleoedd tyfu bwyd, llwybrau coetiroedd) 	<ul style="list-style-type: none"> Cynyddu arwynebedd llecynnau gwyrdd * Gwella ansawdd llecynnau gwyrdd * Mynediad rhwyddach at lecynnau gwyrdd * Gwella dŵr cymunedol a chefnogi seilwaith gwyrdd * 	

Mewnbynnau <i>(yr adnoddau a ymrwymwyd a gweithgareddau a gyflawnwyd i gynhyrchu allbynnau prosiectau)</i>	Allbynnau <i>(cynhyrchion uniongyrchol gweithgareddau prosiectau a gallant gynnwys mathau, lefelau a thargedau gwasanaethau i'w cyflwyno gan y prosiect)</i>		Canlyniadau <i>(newidiadau penodol yn deillio o brosiectau; effeithiau tymor byr i dymor canolig)</i> <i>* Dangosyddion Perfformiad Allweddol Jfurfiol Cynllun y Dreth Gwarediadau</i>	Effeithiau <i>(newid sylfaenol, bwriadol ac anfwriadol, sy'n digwydd mewn sefydliadau, cymunedau, neu systemau o ganlyniad i weithgareddau prosect o fewn yr hirdymor)</i>
